CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Yma i chi

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

2022-23







# Cronfa Loteri Fawr*

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2022-2023

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023

Wedi'i gyflwyno i Senedd y Deyrnas Unedig yn unol ag Adran 23(3) a pharagraff 21 Atodlen 4A Deddf Y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 a Deddf y Loteri Genedlaethol 2006).

Wedi'i roi gerbron Senedd yr Alban.

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Wedi'i roi gerbron Senedd Cymru.

I'w argraffu ar 12 Gorffennaf 2023 yn unol â gorchymyn Tŷ'r Cyffredin.

HC 1426
SG/2023/145

* (yn gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol)

OGL

© Hawlfraint y Goron 2023

Ni yw'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall.

I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi geisio caniatâd deiliad perthnasol yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, 3 Embassy Drive, Edgbaston, Birmingham, B15 1TR

ISBN: 978-1-5286-4347-4 E02944635

Argraffir ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Fawrhydi.

Lluniau'r clawr blaen: Chwith, Sangat Advice Centre, Lloegr. De top, Balnamore Community Association, Gogledd Iwerddon. De gwaelod, Sol Cafe, Lloegr

# Cynnwys

## Rhan un: Adolygiad o'n blwyddyn

Neges gan y Cadeirydd ..... 8
Neges gan y Prif Weithredwr ..... 10
Ein blwyddyn mewn rhifau ..... 12
Arian a ddyfarnwyd yn 2022-23 ..... 14
Ein strategaeth newydd ..... 16
Rydyn ni yma i chi ..... 18
Cefnogi cymunedau ledled y DU ..... 22
Ein harIannu yn Lloegr ..... 26
Ein harIannu yn Yr Alban ..... 30
Ein harIannu yng Nghymru ..... 34
Ein harIannu yng Ngogledd Iwerddon ..... 38
Ein harIannu ar draws y DU ..... 42

## Rhan dau: Adroddiad y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu

Adroddiad perfformiad ..... 48
Trosolwg ..... 48
Crynodeb o Berfformiad ..... 50
Dadansoddiad o'n perfformiad ..... 50
Adroddiad atebolrwydd ..... 70
Ein hadroddiad llywodraethu corfforaethol ..... 70
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ..... 76
Ein hadroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff ..... 90
Ein hadroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol ..... 115
Datganiadau Ariannol ..... 120
Nodiadau i'r cyfrifon ..... 127
Ein cefndir statudol ..... 175

# Rhan un

# Adolygiad o'n blwyddyn





# Cynnwys

Neges gan y Cadeirydd ........ 8
Neges gan y Prif Weithredwr ........ 10
Ein blwyddyn mewn rhifau ........ 12
Arian a ddyfarnwyd yn 2022-23 ........ 14
Ein strategaeth newydd ........ 16
Rydyn ni yma i chi ........ 18
Cefnogi cymunedau ledled y DU ........ 22
Ein hariannu yn Lloegr ........ 26
Ein hariannu yn Yr Alban ........ 30
Ein hariannu yng Nghymru ........ 34
Ein hariannu yng Ngogledd Iwerddon ........ 38
Ein hariannu ar draws y DU ........ 42

# Neges gan y Cadeirydd



**Ysgrifennodd Dickens, 'it was the best of times, it was the worst of times'. Mae'r geiriau hyn yn crynhoi blwyddyn pan wynebodd cymunedau ddigwyddiadau pwysig. Y llynedd, ar draws y DU, daeth cymunedau ynghyd i ddathlu Jiwbilî Blatinwm y diweddar Frenhines, gyda'r Gronfa'n hwyluso Cronfa Jiwbilî Platinwm untro, Y Cinio Jiwbilî Mawr, yn ogystal â gweithgarwch cymunedol ar raddfa lai a arweinir gan y gymuned sy'n golygu y dyfarnwyd dros £12 miliwn mewn grantiau i dros 1,100 o ddeiliaid grantiau rhwng Tachwedd 2021 a Mehefin 2022.**

Ymhen misoedd unodd y wlad unwaith yn rhagor, mewn galar wedi marwolaeth ei Mawrhydi. Roedd hyn yn fwy ingol yn yr wythnosau ar ôl i Birmingham gynnal Gemau'r Gymanwlad, a ddarparodd gofeb deilwng o'r Gymanwlad yr ymroddodd iddi ac sy'n darparu elfen sylweddol o amrywiaeth y DU. Trodd pob llygad wedyn at goroni Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III lle, gyda chymorth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, dyfarnwyd bron i £5 miliwn mewn grantiau i gefnogi Cinio Mawr y Coroni, The Big Help Out a thrwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol ariannwyd miloedd o brosiectau, gyda phob un yn chwarae rhan allweddol mewn dyddiau cenedlaethol o ddathlu, gan ddod â phobl ddi-rif ynghyd.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Gronfa wedi canolbwyntio ar yr argyfwng costau byw, gan wybod y gall argyfyngau fynd a dod yn gymharol gyflym, ond y gallai eu heffaith negyddol bara am genedlaethau os na chaiff sylw effeithiol.

Mae ein cymorth wedi'i gynllunio nid yn unig i ddatrys problemau presennol, ond hefyd i ddarparu mesurau catalytig sy'n helpu i adeiladu gwytnwch ac amddiffyn cymunedau rhag heriau'r dyfodol. Rwy'n cymeradwyo ac yn annog yr ymagwedd hon, gan mai amseroedd da a drwg yw'r norm, ac felly mae'n rhaid eu rhagweld a pharatoi ar eu cyfer.

Fel plentyn ac wyres i Genhedlaeth Windrush, rwy'n falch bod y Gronfa wedi darparu ariannu wedi'i dargedu ar gyfer Windrush 75 drwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, gan annog cymunedau bregus fel y rhain nad ydynt efallai wedi elwa o'n cefnogaeth o'r blaen i wneud cais. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y Gronfa'n gwireddu ei bwriad – 'rydyn ni yma i bawb'.

Mae hyn yn ymestyn i'r rhai sy'n ymuno â'n cymunedau dros dro, gan gynnwys ein ffrindiau newydd o Wcráin, y bu i Gystadleuaeth Cân Eurovision ddarparu symbol gweladwy iawn iddynt o'r cofleidiad cynnes a gawsant gan y DU ac roeddem yn falch o gefnogi llawer o brosiectau cymunedol ochr yn ochr â'r digwyddiad.

Ers i mi gael fy mhenodi'n Gadeirydd yn 2021, mae'r sefydliad wedi mynd trwy newid sylweddol. Eleni rydym wedi elwa ymhellach ar bedwar aelod bwrdd newydd a ymunodd â ni, gan ddod â chyfoeth o sgiliau a phrofiad ar yr adeg hollbwysig hon.

Yn yr un modd, mae'r tîm gweithredol wedi rhoi mewnbwn amhrisiadwy i'r adolygiad strategol cynhwysfawr a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn. Roedd hyn yn golygu ymgynghori helaeth â'r rhai yr effeithir arnynt gan ein gwaith ac sy'n ymwneud â'n gwaith. Yn y pen draw, mae adolygiadau llywodraethu ac adolygiadau gweithredol yn cyfuno i ddarparu llwyfan cadarn ar gyfer cyflawni ein strategaeth newydd, hyblyg sy'n cefnogi cymunedau'r DU tan 2030. Mae ffocws ar realiti bywydau pobl wedi bod yn gynhenid, gan nad ffuglen na theori yw bywyd, ond ffaith, ac mae'n dibynnu ar angen. I'r perwyl hwnnw, rwy'n arbennig o ddiolchgar am y mewnwelediad hollbwysig a ddarperir gan y cymunedau yr ydym yn ceisio eu gwasanaethu.

Wrth i ni barhau i adfer o effaith y pandemig, rydym bellach yn derbyn na fydd bywyd byth yr un peth eto.

Fodd bynnag, er eu bod bellach yn gweithio mewn tirwedd wahanol iawn, mae'n bleser gennyf adrodd bod ein staff ymroddedig, ffyddlon, sef ein hased mwyaf, yn fwy cynhyrchiol nag erioed, sy'n dyst i'w rhyngweithio effeithiol â holl gymunedau'r DU ar lawr gwlad. Fodd bynnag, hoffwn weld hyd yn oed mwy o ryngweithio, a chydnabod bod digwyddiadau cenedlaethol arwyddocaol megis y Jiwbilî, Gemau'r Gymanwlad, y Coroni a Windrush 75 yn ein galluogi i gefnogi mwy fyth o gymunedau ledled y wlad gyfan. Mae'r cymorth hwn nid yn unig drwy ariannu, ond hefyd drwy rannu profiad a throsglwyddo gwybodaeth, ynghyd â chreu rhwydweithiau i gynorthwyo cymunedau i ddatrys materion sy'n effeithio'n andwyol ar eu lles cyffredinol ac yn eu rhwystro rhag sicrhau ffyniant cynaliadwy.

Rwy'n gorffen wrth i mi gychwyn, wedi fy ysbrydoli gan Dickens, ac yn ffyddiog y bydd yr hyn rydym yn ei wneud nawr yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn profi i fod yn 'beth llawer gwell nag yr ydym erioed wedi'i wneud' gan fod cymunedau'r DU yn haeddu dim llai yn ystod cyfnodau heriol. At hyn, rhaid i mi ychwanegu diolch o galon i'r miliynau o chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ar draws y DU sy'n gwneud hyn yn bosibl.

**Blondel Cluff CBE**
**Cadeirydd**
**Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**

Neges gan y

# Prif Weithredwr



**Wrth deithio ar draws y DU dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cael fy ysbrydoli gan y posibiliadau y mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wedi'u galluogi yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rwyf wedi gweld, clywed a theimlo'r cysylltiadau cymdeithasol yn ein cymunedau sy'n cryfhau ein cymdeithas ac yn gwella bywydau yn y lleoedd rydym yn byw, yn gweithio ac yn mynd o gwmpas ein bywydau bob dydd.**

Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol rydym yn cynnal arolwg blynyddol – ein Mynegai Ymchwil Cymunedol – o 8,000 o oedolion ledled y DU i weld sut mae pobl yn teimlo am bethau yn eu cymuned. Fel y dengys hyn, mae wedi bod yn flwyddyn o her a phryder mewn cymunedau, yn ogystal â gobaith ac addewid. Yn benodol, mae gwrthdaro rhyngwladol wedi gweld costau ynni a phwysau costau byw yn effeithio ar bob cymuned.

Mae'r arolwg yn dangos bod galw cynyddol am fanciau bwyd, elusennau cyngor ariannol a gwasanaethau tai, a bod mwy na thraean o'r rhai a holwyd (41%) wedi mynd heb wres a bron i dri o bob 10 (28%) wedi hepgor prydau bwyd.

Dyna pam, trwy ein hymagwedd 'Rydyn ni yma i chi', sydd wedi ein gweld yn amrywio grantiau presennol ac yn sicrhau bod arianu newydd ar gael, mae'r Gronfa wedi ymateb yn gyflym, gan addasu a chyflymu ein hariannu i gefnogi cymunedau orau y gallwn. Mae 48% o'n hariannu eleni wedi mynd tuag at helpu i liniaru'r pwysau hynny ar gymunedau.

Fel yr ariannwr mwyaf ar gyfer gweithgarwch cymunedol yn y DU, mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi bod yn cefnogi pobl a chymunedau drwy gydol y flwyddyn gyda mwy na £615 miliwn yn mynd i 13,858 o grantiau.

Rydym yn buddsoddi mewn ardaloedd o amddifadedd mwy: dros y tair blynedd diwethaf aeth 51% o gyfanswm ein hariannu i'r 30% o ardaloedd lleol yn Lloegr sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd. Mae tua 46% o'n hariannu'n mynd i'r meysydd sydd wedi'u nodi fel y flaenoriaeth uchaf ar gyfer Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

Rydym wedi gweld gwytnwch anhygoel cymunedau ym mhob cornel o'r DU a'r gwahaniaeth y mae'r ariannu hanfodol hwn wedi'i wneud. I gymryd un enghraifft yn unig, cefais y pleser o ymweld â'r Arts Factory yn Rhondda Cynon Taf a chefais fy syfrdanu gan agosrwydd a phositifrwydd y bobl sy'n mynychu'r prosiect, sydd ar brydiau, wedi teimlo bod cymdeithas wedi eu gadael ar ôl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi adnewyddu ein strategaeth. Rhannodd 18,000 o unigolion a mudiadau ar draws y DU eu syniadau gyda ni. Fe gyhoeddom y strategaeth newydd hon - Cymuned yw'r man cychwyn - ym mis Mehefin 2023. Gan osod ein cyfeiriad i 2030, mae'n ymwneud ag adeiladu ar y gorau sydd wedi bod, bod yn barod i addasu, ond peidio â gadael i hyn ein dal yn ôl rhag newid mwy hirdymor a thrawsnewidiol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi datblygu partneriaethau newydd a dosbarthu arian nad yw'n dod o'r Loteri trwy ein gwaith trydydd parti. Mae rhwydwaith London Funders yn un enghraifft yn unig, a fydd yn gweld arianwyr cyhoeddus, preifat ac annibynnol yn gweithio ochr yn ochr â mudiadau i geisio dod o hyd i atebion i ystod o faterion cymdeithasol, megis cydweithrediad Propel yn darparu £100 miliwn dros 10 mlynedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ymhlith grwpiau difreintiedig a phobl ifanc yn Llundain.

Rydym hefyd wedi bod yma i gefnogi o arwyddocâd cenedlaethol. Nodom Jiwbilî Blatinwm Ei Mawrhydi'r Frenhines ym mis Mehefin 2022, ac yn y misoedd diwethaf mae arian y Loteri Genedlaethol wedi helpu cymunedau'r DU i ddathlu dathliadau coroni Ei Fawrhydi'r Brenin, a oedd yn cynnwys Cinio Mawr y Coroni a The Big Help Out, a welodd fwy na chwe miliwn o bobl yn gwirfoddoli.

> Eleni, rydym wedi dyfarnu grant i gymuned yn y DU bob saith munud.

Mae'n gyfnod pwysig i'r Loteri Genedlaethol yn 2024. Byddwn yn croesawu gweithredwr newydd yn Allwyn, ond hefyd yn dathlu 30ain blwyddyn y Loteri Genedlaethol, carreg filltir bwysig a chyfle gwych i fyfyrio ar y gwahaniaeth rhyfeddol y mae wedi'i wneud i gymunedau ledled y DU.

Rwyf hefyd wedi bod yn falch iawn o groesawu aelodau newydd o'n Harweinyddiaeth Weithredol a chefnogi Aelodau Anweithredol newydd y Bwrdd a Phwyllgorau. Maent i gyd wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad ein strategaeth gymunedol Cymuned yw'r man cychwyn.

Yn olaf, rhaid i mi gadw fy niolch a'm diolchgarwch dyfnaf a mwyaf calonogol i'r cydweithwyr ar draws Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol sydd eto wedi camu i'r adwy mewn blwyddyn lle rydym wedi cadw ein gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol wrth galon ein cenhadaeth a'n pwrpas.

**David Knott,**
**Prif Weithredwr**
**Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**

# Ein blwyddyn mewn rhifau

**Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi dyfarnu mwy na £615 miliwn mewn dros 13,800 o grantiau* ledled y DU. Rydym wedi cyrraedd cymunedau ym mhob rhan o'r wlad.**

Rydym yn falch o fod wedi gallu cefnogi cymunedau drwy heriau'r pandemig a'r pwysau costau byw. Rydym yr un mor falch o fod wrth eu hochr wrth iddynt adfer ac ailadeiladu o'r hyn a fu ac a fydd yn gyfnod heriol.

## Mae ein holl grantiau yn dod â chymunedau ynghyd mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys:

**2,606**
o grantiau'n cefnogi plant a phobl ifanc

**8,931**
o grantiau'n cefnogi iechyd a lles

**5,314**
o grantiau'n gwella addysg a sgiliau bywyd

**1,719**
o grantiau gydag agwedd ar gweithredu amgylcheddol

**1,198**
o grantiau'n cynnwys cyflogaeth a menter

## Mae ein hariannu'n mynd at galon cymunedau

**82%**
o'n holl grantiau ar gyfer £10k neu lai

**52%**
o'n dyfarniadau i fudiadau micro/bach gydag incwm o hyd at £100k


**82%**
o ddyfarniadau i fudiadau gydag incwm o hyd at £1 miliwn

*gall ein grantiau gwmpasu mwy nag un pwnc ar unrhyw adeg benodol



L'Arche Belfast, Gogledd Iwerddon

# Arian a ddyfarnwyd yn 2022-23



## Yr Alban

**£52.0m**

1,497 grant

## Gogledd Iwerddon

**£28.2m**

663 grant

## Cymru

**£48.9m**

879 grant

## Lloegr

**£452.1m**

10,518 grant

Ar draws y Deyrnas Unedig

**£34.2m**

301 grant

Cyfanswm

**£615.4m**

13,858 grant

Ein strategaeth newydd

# Cymuned yw'r man cychwyn

**Wrth i ni edrych ymlaen at roi ein strategaeth newydd ar waith rydym yn cydnabod mai gwaith caled dros y 12 mis diwethaf a arweiniodd at ei chyflawni.**


Fel y ffynhonnell unigol fwyaf o arian cymunedol yn y DU rydym yn helpu cymunedau i ffynnu. Ni sy'n darparu'r ariannu, nhw sy'n rhoi'r arian ar waith.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae 18,000 o unigolion a mudiadau ar draws y DU wedi rhannu eu syniadau gyda ni. Clywsom bryderon uchel a chlir am anghydraddoldeb, yr argyfwng hinsawdd, iechyd cymunedau a'r dyfodol i blant a phobl ifanc. Clywsom hefyd obeithion a breuddwydion cymunedau a'r gwaith rhyfeddol sy'n digwydd yn y mannau lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn mynd o gwmpas ein bywydau bob dydd.

Mae ein cymdeithas yn wynebu rhai heriau mawr a brys, sy'n gofyn am ymatebion beiddgar. Mae cymunedau yn mynnu newid hirdymor a mwy o bŵer i lunio'r dyfodol. Dyna pam rydym yn cynyddu ein ffocws trwy genadaethau wedi'u targedu a pham y byddwn yn partneru â chymunedau, mudiadau cymdeithas sifil ac eraill i adeiladu'r newid hwn.

Gwyddom nad oes gan bob cymuned y cyfleoedd na'r trefniadau cywir i ddod at ei gilydd. Felly, er bod ein hariannu ar gael i bob cymuned, byddwn yn buddsoddi fwyaf lle mae'r angen mwyaf, gyda phobl, lleoedd a chymunedau sy'n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethu.


Mae'r strategaeth hon – a elwir Cymuned yw'r man cychwyn – yn cael ei llunio gan ein gwaith o ddydd i ddydd, a gan yr hyn a glywsom drwy ein sgyrsiau â chymunedau, mudiadau cymdeithas sifil ac eraill yn 2022.



YMCA Gogledd Swydd Stafford, Lloegr

## Ein pedair cenhadaeth a arweinir gan y gymuned

Mae 18,000 o sgyrsiau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi llywio lle byddwn yn darparu mwy o ffocws wrth gefnogi cymunedau ac wedi llunio ein pedair cenhadaeth:




Mae ein grantiau bob amser wedi cefnogi'r meysydd hyn, ond nawr rydym yn mynd ymhellach, gan ganolbwyntio ein hariannu, effaith a gweithio gyda phartneriaid o amgylch y cenadaethau hyn i gael mwy o effaith.



Creggan Country Park Enterprise Ltd, Gogledd Iwerddon

# Rydyn ni yma i chi

**Dros y flwyddyn ddiwethaf mae cymunedau wedi bod yn delio ag effaith y cynnydd mewn costau byw. Rydym wedi bod yn hyblyg ac yn ymatebol gyda'n hariannu, gan ymrwymo mwy na £300 miliwn i brosiectau sy'n mynd i'r afael â materion fel dyled, costau ynni cynyddol a diffyg bwyd mewn cymunedau. Mae hynny tua 48% o'n holl arian grant ar gyfer y flwyddyn.**

I helpu cymunedau gyda phwysau costau byw, mae ein hymagwedd gweithredu wedi cael ei arwain a bydd yn parhau i gael ei arwain gan bedair egwyddor:

1. **Byddwn yn cadw ein holl ariannu'n agored ac ar gael** – mae pob portffolio ariannu ar agor ar gyfer ceisiadau newydd neu rai sy'n dychwelyd.
2. **Byddwn yn hyblyg ac yn addasadwy** – rydym yn gwybod, gan gynnwys o brofiad yn ystod COVID-19, mai un o'r pethau pwysicaf y gallwn ei gynnig fel ariannwr yw hyblygrwydd ac ystwythder yn ein hymagwedd o wneud grantiau. Rydym wedi gwneud newidiadau i ganiatáu mwy o amrywiadau ac addasiadau mewn grantiau i adlewyrchu pwysau costau byw.
3. **Mae ein hymrwymiad i bobl a chymunedau yn parhau i fod yn gyson** – byddwn yn cydbwyso ymateb i'r presennol a llunio'r dyfodol. Mae'r galw am ariannu yn parhau i fod yn uchel, ac er na allwn ariannu pob prosiect, bydd ein hariannu'n yn parhau i gael ein harwain gan gymunedau a lle gall ein hariannu wneud y gwahaniaeth mwyaf ochr yn ochr ag eraill.
4. **Byddwn yn gweithio gydag eraill i dynnu ar wybodaeth, mewnwelediad a rhagwelediad** - byddwn yn gwrando ac yn defnyddio ein data dyfarnu grantiau a'n mewnwelediad i'n helpu ni – ac eraill – i adeiladu darlun o'r hyn sy'n digwydd, a sicrhau bod hwn ar gael i helpu i ddylanwadu a llywio ein hymagwedd ni ac un pobl eraill.

Yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru rydym wedi defnyddio ein dealltwriaeth o wahanol gyd-destunau a pholisïau i sicrhau bod ein harian Loteri Genedlaethol yn dod â chymorth yn y ffordd gywir i'r mudiadau cywir. Rydym wedi buddsoddi mwy na £19.1 miliwn mewn dros 1,000 o godiadau grant fel y gall deiliaid grantiau ymateb i gostau cynyddol a mwy o bobl yn gofyn am help.

Ledled Lloegr rydym wedi treulio amser gydag ymgeiswyr i'n hariannu Reaching Communities and Partnerships, gan sicrhau bod cynigion cyllideb gan grwpiau cymunedol yn ymateb i heriau costau byw. Rydym hefyd wedi gwneud yn siŵr ein bod wedi bod yn hyblyg, gan gynnwys cynnig ariannu ychwanegol i ddeiliaid grantiau i'w helpu i ymdopi. Yn Lloegr mae hyn wedi golygu 534 o amrywiadau grant gwerth £11.8 miliwn. Bydd y cymorth hwn yn parhau yn y flwyddyn i ddod.

Yn ogystal â gweithio'n uniongyrchol gyda mudiadau, buom hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff arbenigol i wella ein cyrhaeddiad a chymorth. Mae Smallwood Trust yn cefnogi menywod i ddod yn wydn yn ariannol ac mae Buttle UK yn helpu plant a phobl ifanc. Bydd yr ymrwymiad cyfun o £13 miliwn i'r ddau mudiad hyn yn cefnogi cymunedau ymylol ledled Lloegr, gan gynnwys y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y cynnydd mewn costau byw.

Meddai Joseph Howes, Prif Weithredwr Buttle UK: "Rydyn ni'n gweld bod pethau wedi bod yn gwaethygu'n gynyddol i blant sy'n byw mewn tlodi. Diolch i chwaraewyr y Loteri, bydd Buttle UK yn gallu cyrraedd miloedd yn fwy o blant a phobl ifanc gyda chefnogaeth hollbwysig dros y pum mlynedd nesaf nag y byddem yn gallu fel arall, a chynnig cyfle gwirioneddol iddynt newid yn ystod cyfnod mor anodd."

Yn yr Alban darparwyd £2.3 miliwn mewn ariannu ychwanegol i 384 o ddeiliaid grant presennol i'w helpu gyda chostau byw cynyddol. Gweithiodd ein timau ariannu lleol yn agos gyda deiliaid grantiau i ddeall anghenion a sicrhau bod ein hariannu yn cyrraedd lle roedd angen.

## Stori prosiect: Annexe Communities

Derbyniodd Annexe Communities £23,500 o'n Cost of Living Community Anchor Fund i ddosbarthu talebau bwyd, talebau dillad ac ychwanegiadau ynni i gartrefi yn Partick.

Meddai Jane Cowie, Gweithiwr Datblygu, Annexe Communities: "Mae'r ariannu hwn yn cefnogi teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd fel y gallant fwyta a chynhesu eu cartrefi. Fe wnaethom gais am yr ariannu ar y dydd Llun a chawsom benderfyniad ar y dydd Iau, a oedd yn golygu y gallem gael y cymorth perthnasol i bobl oedd ei angen ar unwaith."

Daeth Kelly Young i Annexe Communities i gael cymorth gan ei bod yn cael trafferth cadw i fyny â thaliadau rhent a rhoi bwyd ar y bwrdd.

Meddai Kelly: "Collais fy swydd cyn mynd i Annexe, ond nawr rwy'n gweithio'n galed fel glanhawr i gefnogi fy nheulu orau y gallaf. Rwyf bob amser wedi bod yn gredwr mewn gallu helpu eich hun ond pan fyddwch mewn twll mor ddwfn mae'n amhosibl. Dyna pam mae lleoedd fel Annexe mor bwysig - mae'n dda gwybod bod pobl yno i mi a'i fod yn lle diogel i mi ddod a pheidio ag eistedd yn fy nhŷ dan straen ac yn ynysig."



Kelly

Fe agorom dwy gronfa cymorth costau byw newydd. Roedd Cost of Living Support yr Alban yn cynnig dyfarniadau o hyd at £75,000 i gymunedau oedd yn profi caledi, tra bod Living Community Anchor Fund yn helpu teuluoedd ac unigolion i ddiwallu anghenion dybryd megis costau bwyd a thanwydd.

Roeddem hefyd yn gallu addasu ein hariannu i alluogi grwpiau i wneud cais am grant Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol ychwanegol os oedd ganddynt gais a oedd yn ymateb i'r ymchwydd mewn costau byw.

Yng Nghymru, yn yr un modd y gwnaethom addasu ein hariannu i fod yn ymatebol i anghenion cymunedau trwy gydol y pandemig, fe addasom ein hariannu i ymateb i bwysau uniongyrchol o fewn cymunedau a achoswyd gan gostau byw cynyddol.

Buom yn gwrando ar ein deiliaid grant presennol am eu pryderon wrth reoli eu prosiectau yn erbyn costau cynyddol a galw cynyddol, a gweithio'n agos gyda nhw i ddod o hyd i atebion a oedd yn bodloni eu hanghenion. Fe wnaeth llwyddiannau addasu ein prosesau'n gyflym yn ystod y pandemig ein helpu i ymateb i anghenion cwsmeriaid newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Ar gyfer rhaglen Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, caniatawyd i ddeiliaid grantiau presennol wneud cais am grant ychwanegol o hyd at £10,000 i'w cefnogi gyda chostau byw uwch. Ar gyfer rhaglen Pawb a'i Le, daeth cefnogi cymunedau gyda chostau byw yn flaenoriaeth allweddol. Fe wnaethom symleiddio'r broses ymgeisio cymaint â phosibl, gan sicrhau y gellid dosbarthu arian yn gyflym.

Ac yng Ngogledd Iwerddon rydym wedi rhoi sefydlogrwydd i gymunedau drwy gynnig cymorth ychwanegol i'n deiliaid grant i siarad â ni os oedd ganddynt bryderon ynghylch sut i addasu i heriau newydd neu heriau'r dyfodol. Anogwyd grwpiau a oedd eisoes wedi cyflwyno cais ond a oedd wedyn wedi nodi y byddai costau cynyddol yn effeithio ar eu cyllideb prosiect arfaethedig hefyd i siarad â ni. Gwnaethom hefyd newidiadau i'n rhaglen Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, gan gynnig grantiau bach o hyd at £10,000 ar y tro a hyd at £20,000 i gyd mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, gan alluogi grwpiau i gael mynediad at gymorth ychwanegol i gymunedau.

Mae ein portffolio DU, sy'n ariannu prosiectau sy'n gweithio mewn mwy nag un o bedair gwlad y DU wedi gweithio i liniaru costau byw cynyddol i gymunedau a deiliaid grantiau. Rydym wedi cymryd ymagwedd ragweithiol, gan archwilio sut orau y gallwn gefnogi ein deiliaid grant a'r cymunedau sydd â'r angen mwyaf. Mae £3.2 miliwn ychwanegol wedi'i ddyfarnu i ddeiliaid grantiau presennol i'w cefnogi i ymateb i gostau cynyddol.

## Stori prosiect: Canolfan Gymunedol Sefydliad Gelli-deg

Dyfarnwyd grant o £99,875 i Gelli-deg ym Merthyr Tudful i liniaru pwysau costau byw. Mae'r dyfarniad wedi galluogi'r grŵp i gefnogi'r gymuned drwy ddarparu man cymunedol hwb cynnes mynediad agored ac ymestyn eu cynllun pantri.

Meddai Helen Buhaenko, Rheolwr Canolfan Sefydliad Gelli-deg: "Mae pawb yn darganfod nad yw eu hincwm yn cwrdd â'u gwariant ac maen nhw'n gorfod dod o hyd i ffyrdd o dorri gwariant. Rydym wedi agor ystafell bob dydd i bobl ddod i mewn. Mae'n ofod cynnes, croesawgar gyda the a choffi a wifi am ddim. Hefyd, ar hyn o bryd mae gennym 80 o aelwydydd yn aelodau o'n Pantri, mae grant y Loteri Genedlaethol wedi ein galluogi i wahodd 56 o aelwydydd eraill fel aelodau."

## Stori prosiect: Banc Bwyd Bangor a Chymorth Cymunedol

Gyda grant tair blynedd People and Communities o £184,590, mae Bangor Foodbank and Community Support yn County Down yn cynnig amrywiaeth o gymorth i helpu pobl i ymdopi'n well â heriau gan gynnwys materion ariannol, tlodi bwyd ac iechyd meddwl. Yn wyneb y cynnydd mewn costau byw, rydym wedi rhoi cymorth ychwanegol o £22,395 iddynt, gan eu galluogi i barhau i ddarparu eu rhaglen gymorth arfaethedig i bobl.

Meddai Kenneth Scott, Rheolwr: "Mae'r ariannu hwn yn ein galluogi i gefnogi pobl nawr pan fydd ei angen arnynt, ond hefyd yn eu helpu i ennill sgiliau i fod yn fwy gwydn i ymdopi â heriau yn y dyfodol, gan helpu teuluoedd a chefnogi cenedlaethau i ddod."



Bangor Foodbank and Community Support, Gogledd Iwerddon

# Yn cefnogi cymunedau ledled y DU

I ddangos ein hymrwymiad parhaus i bobl a chymunedau ym mhob cornel o'r DU, ar ddechrau 2023 fe gynhaliom ein trydydd Mynegai Ymchwil Cymunedol (CRI) blynyddol. Arolwg annibynnol gyda dros 8,000 o aelodau'r cyhoedd yn cynrychioli'r boblogaeth ar draws y DU, mae CRI yn archwilio sut mae pobl ledled y wlad yn teimlo am eu cymunedau ac yn dweud wrthym beth yw eu huchelgeisiau ar gyfer lle maent yn byw. Mae'r data cyfoethog hwn yn eistedd ochr yn ochr â chyfoeth o wybodaeth a mewnwelediadau eraill ac yn ein helpu i ddeall y cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu, eu heriau a'u dyheadau, nawr ac yn y dyfodol.

Canfyddiadau'r CRI 'Mae pobl ifanc (18-34) yn fwy tebygol o deimlo'n rhan o'u cymuned (79%) na'r rhai dros 35 oed (73%), yn fwy tebygol o feddwl bod hyn yn bwysig (73% v 67% ar gyfer y rheini 55+ oed), a nhw yw'r grŵp oedran mwyaf tebygol o ddweud eu bod yn bwriadu gwirfoddoli eleni (66% v 49% yn gyffredinol).

**Troednodyn ymchwil:**
Ymchwil a gynhaliwyd ar ran Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol gan Savanta ComRes rhwng 2 a 28 Tachwedd 2022, ymhlith 8,968 o oedolion yn y DU wedi'u pwysoli i gynrychioli oedolion y DU yn ôl rhyw, oedran, rhanbarth, gradd gymdeithasol ac ethnigrwydd.

## Mynegai Ymchwil Cymunedol

Roedd pobl yn tueddu i feddwl bod eu cymunedau yn gwneud yn dda o gymharu ag eraill o ran

**62%** lles

**70%** ansawdd bywyd

**71%** mannau cymunedol

**72%** cyfleusterau addysg

**42%** yn teimlo bod pandemig COVID-19 wedi cryfhau ysbryd cymunedol, gan ddangos sut yr ydym yn dod at ein gilydd i ddod trwy adegau o argyfwng

**18%** yn teimlo bod pandemig COVID-19 wedi gwanhau ysbryd cymunedol





Mae cymorth gyda chostau byw cynyddol yn un o brif flaenoriaethau pobl ar gyfer y flwyddyn hon. Maen nhw'n disgwyl y bydd galw am fanciau bwyd, elusennau cyngor ariannol a gwasanaethau tai. Dywedodd y rhan fwyaf hefyd eu bod eisoes wedi torri eu gwariant eu hunain.



**25%** wedi benthyca arian gan ffrindiau neu deulu

**28%** wedi mynd heb brydau bwyd

**41%** wedi mynd heb wres

## Cefnogi pobl ifanc

Gan barhau â'n cefnogaeth i bobl ifanc yn Lloegr, ym mis Gorffennaf fe gyhoeddom grant ychwanegol o £12 miliwn ar gyfer Cronfa #iwill, a ariennir ar y cyd mewn partneriaeth â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae'r gronfa £66 miliwn yn helpu pobl ifanc o bob cefndir ac ardal i fanteisio ar gyfleoedd gweithredu cymdeithasol. Ers ei lansio yn 2016, mae Cronfa #iwill wedi gweithio ar y cyd â dros 30 o sefydliadau sy'n rhoi arian cyfatebol ar gymhareb o £1 am £1 o leiaf. Fel rhan o wythnos #iwill ym mis Tachwedd, datblygodd timau llais ieuenctid o wahanol arianwyr awgrymiadau da ar sut i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol.

Yn gweithio yn Barrow-in-Furness, derbyniodd The Ashton Group Theatre, a elwir yn Theatre Factory, fwy na £150,000 i adeiladu ar ei hariannu Reaching Communities blaenorol. Mae'n cynnal gweithdai creadigol gyda phartneriaid sy'n cefnogi pobl ifanc ddifreintiedig a'u teuluoedd. Mae'r gwaith yn hybu hapusrwydd, hunan-barch a hyder, ochr yn ochr â datblygu gwytnwch pobl ifanc. Bydd yr ariannu estynedig hwn yn ei gwneud yn bosibl cynnal gweithdai gyda gofalwyr ifanc, sesiynau ieuenctid LGBT+ a grŵp ar gyfer pobl ifanc â chyflyrau niwro-amrywiol.

Meddai Rachel Ashton, Cyfarwyddwr Artistig: "Rydym i gyd wrth ein bodd bod Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi dangos cymaint o hyder yn ein gwaith yma yn Barrow. Mae eu hymddiriedaeth ynom yn cael ei werthfawrogi'n fawr a bydd yr arian yn ein galluogi i barhau i gefnogi plant a phobl ifanc yma."

Trwy banel Llais Ieuenctid Cymru, ein nod yw cwrdd â'r materion y mae pobl ifanc a'u cymunedau yn eu hwynebu yn uniongyrchol, gyda'r nod o lywio newid sylweddol a chadarnhaol mewn cymunedau. Gwnaeth Tom, 23, o Gaerffili, sylwadau ar ei brofiad ar y panel, gan ddweud: "Rwy'n teimlo llawer o falchder o allu dylanwadu ar benderfyniadau mawr a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc Cymru. Mae'r profiad hwn yn amhrisiadwy i mi." Eleni croesawodd panel Llais Ieuenctid Cymru dri aelod newydd: Tia, Cara a Mati. Mae ganddynt oll ddiddordebau mewn gwahanol sectorau megis gweithredu ar yr hinsawdd, cydraddoldeb hiliol a'r celfyddydau.

Rydym wedi bod yn hyrwyddo tegwch a chynhwysiant, gan nodi cyfleoedd i ddod â lleisiau newydd a phrofiadau o lygad y ffynnon i'n gwaith. Rydym wedi bod yn falch o glywed am yr effaith y mae ein grantiau yn ei chael i ddod â chymunedau ynghyd. Sefydliadau fel Diverse Youth NI, sydd wedi'u lleoli yng ngogledd Belfast ac sy'n defnyddio grant o £50,000 i gynnal gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc o wahanol wledydd, crefyddau, cefndiroedd a hil i hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb, cynhwysiant a chyd-ddibyniaeth.



Diverse Youth NI, Gogledd Iwerddon

"Mae pobl ifanc bob amser yn awyddus i gymryd rhan mewn rhywbeth ac rydym am hyrwyddo gweithgareddau cadarnhaol, ystyrlon. Felly mae cael clwb croesawgar sy'n hybu amrywiaeth yn wych. Tyfodd y clwb a mynychodd pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol felly daeth i gael ei adnabod fel Diverse Youth. Mae croeso i bob person ifanc - gallant ddysgu am wahanol ddiwylliannau a chwalu rhwystrau rhyngddynt."

Alexis Ekwueme, Rheolwr Prosiect, Diverse Youth NI

## Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn bryder i bawb, a dyna pam rydym yn cefnogi cymunedau ledled y DU drwy ein Cronfa Gweithredu Hinsawdd gwerth £100 miliwn dros 10 mlynedd, sydd â'r nod o alluogi pobl a chymunedau i gymryd yr awenau wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Ers lansio'r gronfa yn 2019, rydym wedi dyfarnu dros £49 miliwn i gymunedau ledled y DU.

Ym mis Gorffennaf 2022, lansiodd y Gronfa Gweithredu Hinsawdd ariannu ar gyfer prosiectau cymunedol ledled y DU sy'n canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng natur a hinsawdd.

Ein nod yw ariannu prosiectau sy'n archwilio atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd, a/neu sy'n gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r argyfwng hinsawdd trwy hyrwyddo mynediad at fyd natur. Ym mis Mawrth 2023, ymrwymodd y gronfa £10 miliwn arall i gefnogi prosiectau ynni a yrrir gan y gymuned ledled y DU sy'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd wrth fynd i'r afael â'r heriau ynni sy'n wynebu cymunedau.

Yng Nghymru, rydym yn gweinyddu ariannu'r Cynllun Asedau Segur, a ddarperir o dan arweiniad polisi Llywodraeth Cymru. Trwy ein rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £20 miliwn mewn cymunedau a phobl ifanc, gan gyfrannu at ddyfodol llewyrchus, carbon isel i Gymru. Yn 2022, fel rhan o'r ymrwymiad hwn, fe ariannom gwasanaeth mentora saith mlynedd, Egin, a fydd yn darparu cymorth am ddim i grwpiau cymunedol sydd am weithredu ar yr hinsawdd. Dyfarnwyd £4.5 miliwn hefyd i 15 o brosiectau yng Nghymru a fydd yn helpu cymunedau i fyw mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Rydym hefyd yn cefnogi ein deiliaid grant yng Ngogledd Iwerddon i fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd ac annog grwpiau sydd â diddordeb mewn gwneud cais i ni i ystyried effaith amgylcheddol eu prosiect yn eu cynlluniau.

Mae deiliaid grant presennol y gwnaethom eu cefnogi y llynedd gyda symiau bach o arian drwy gynllun peilot ynni adnewyddadwy wedi dweud wrthym fod y grantiau atodol wedi eu helpu i leihau eu hôl troed carbon a'u costau ynni.

Derbyniodd Rural Health Partnership, wedi'i leoli yn Cullyhanna, County Armagh, swm ychwanegol o £4,010 ar gyfer paneli solar. Dywedodd y Prif Weithredwr, Teresa Nugent: "Trwy gymryd rhan, rwy'n ein gweld ni fel esiampl i eraill i helpu'r amgylchedd."

Yn yr Alban rydym wedi gweld mwy o grwpiau yn gwneud cais am ariannu ar gyfer prosiectau amgylcheddol drwy ein cronfa Community Led. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban i dyfu Scottish Land Fund, gan gefnogi cymunedau i gymryd perchnogaeth o asedau a'u datblygu mewn ffyrdd cynaliadwy sy'n cefnogi'r uchelgais o drawsnewid i sero net.

## Dathlu Jiwbilî Blatinwm Ei Mawrhydi'r Frenhines


Ym mis Mehefin 2022 daethom â chymunedau ynghyd ledled y DU i nodi Jiwbilî Blatinwm Ei Mawrhydi'r Frenhines, gan gefnogi amrywiaeth eang o ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol. Trwy ein Cronfa Jiwbilî Blatinwm fe wnaethom gyfraniad sylweddol at flwyddyn o ddathlu a balchder cenedlaethol wrth i ni ddyfarnu £4.4 miliwn i 91 o brosiectau blaenllaw ledled y DU, gan ddarparu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd a chreu etifeddiaeth barhaol i gymunedau.

Ymhlith y rhain roedd Headway Swydd Gaerwrangon yng ngorllewin Lloegr, a gynhaliodd Gemau Anafiadau Caffaeledig cyntaf y byd, lle daeth pobl ag anafiadau caffaeledig i'r ymennydd ynghyd i gymryd rhan mewn cyfres o ddigwyddiadau chwaraeon.

Llwyddodd Group for Recycling yn Ymddiriedolaeth Argyll a Bute, yr Alban i ddod â phobl ifanc a'r genhedlaeth hŷn ynghyd i rannu sgiliau â'i gilydd sy'n lleihau gwastraff yn eu cymuned.

Yng Nghymru, mae Cymdeithas Naturiaethwyr Merthyr Tudful a'r Cylch wedi bod yn datblygu sgiliau pobl mewn cadw gwenyn, gan eu haddysgu am wenyn mêl a sut mae pryfed peillio yn bwysig i fyd natur. Meddai Susan Taylor, Cadeirydd y sefydliad: "Mae gwenynwyr cymunedol ym Merthyr Tudful yn helpu eu cymuned i addasu, adfer a ffynnu, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Mae'r prosiect yn cynnwys ysgolion lleol a sefydliadau cymunedol mewn gweithgareddau traws-genhedlaeth sy'n cynnwys gofalu am ein gwenyn, gwella ein hamgylchedd a darganfod y byd naturiol o'n cwmpas."

# Lloegr





**10,518 grant**
gwerth
**£452.1 miliwn**

The Ashton Group Theatre

## Parhau i wasanaethu cymunedau

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn falch o weithio gyda chymunedau ledled Lloegr wrth iddynt ymateb i'r problemau cymdeithasol parhaus y maent yn eu hwynebu.

Mae ein timau wedi treulio amser yn cefnogi cymunedau lleol ac ni fu'r ffordd yr ydym yn creu perthnasoedd â'n deiliaid grantiau erioed mor bwysig. Rydym wedi canolbwyntio ar ddarparu cymorth hyblyg i'n hymgeiswyr a deiliaid grantiau wrth iddynt ymateb i bwysau cynyddol o ran costau byw.

Drwy gydol y flwyddyn mae ein hariannu ymatebol wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau cymunedau ledled Lloegr, ac iechyd a lles, y gymuned, addysg a dysgu ac anghenion sylfaenol yw'r themâu mwyaf cyffredin.

Mae ein rhaglen Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, sy'n darparu ariannu o £10,000 neu lai, wedi ariannu 8,922 o grantiau gwerth £76.4 miliwn. Mae ein hariannu Reaching Communities ar gyfer dros £10,000 wedi dyfarnu £293 miliwn mewn 1,286 o grantiau, gan ymateb i anghenion cymunedau ledled Lloegr. Mae ein hariannu wedi cyrraedd pob awdurdod lleol a ward yn Lloegr.

## Rydyn ni yma i chi

Mae cangen Newcastle-under-Lyme o The Association of Ukrainians in Great Britain yn helpu ffoaduriaid o Wcráin sy'n ymgartrefu yng Ngogledd a Chanolbarth Swydd Stafford. Mae'n darparu ystod o wasanaethau cymorth yn The Shevchenko Ukrainian Support Centre a agorodd y llynedd, gan gynnwys dosbarthiadau Saesneg a chymorth a chyngor, ynghyd â chyfleoedd i gymdeithasu. Meddai Karl Stubbs, Cadeirydd: "Rydym yn darparu lle diogel i Wcreiniaid ddod i gwrdd a rhannu profiadau â'i gilydd. Rydyn ni'n gallu gwneud hyn oherwydd i ni dderbyn grant o £10,000 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, sy'n ein helpu ni i barhau â'n gwaith."



Barrow Farm Riding for the Disabled Ltd, Lloegr



Civic Square Birmingham CIC, Lloegr

## Gweithio ar y cyd

Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn ffordd bwysig o gefnogi cymunedau, boed yn bartneriaethau cymunedol, seiliedig ar le, thematig neu strategol ag eraill.

Mae arianwyr cyhoeddus, preifat ac annibynnol sy'n gweithio ochr yn ochr â chyrff isadeiledd ecwiti yn uno ledled Llundain, fel rhan o fenter London Funders. Ochr yn ochr ag ariannu, mae hefyd yn cyfrannu £498,267 tuag at greu diwylliant dysgu a fydd â chyrhaeddiad lleol a chenedlaethol ac a fydd yn creu dulliau cadarnhaol o gydweithio ar draws cymdeithas sifil.

Dros wyth mlynedd, gwnaeth ein rhaglen Fulfilling Lives wahaniaeth gwirioneddol i bobl ledled Lloegr sy'n byw gyda phroblemau megis camddefnyddio alcohol neu sylweddau, troseddu presennol neu hanesyddol, digartrefedd a salwch meddwl. Trwy weithio gyda phobl a rhoi cyfle iddynt gyrraedd eu llawn botensial, fe wnaeth pobl wella eu hunanddibyniaeth, annibyniaeth ac ymgysylltu'n well â gwasanaethau.

Pan ddaeth ein buddsoddiad o £112 miliwn i ben ym mis Mehefin 2022, roedd 41% o'r cyfranogwyr wedi gadael y rhaglen am resymau cadarnhaol ac nid oedd angen cymorth ar 27% mwyach. Rydym wrth ein bodd ein bod wedi gweld polisi ac arferion Fulfilling Lives yn cael eu mabwysiadu'n eang ledled y wlad. Mae hyn yn cynnwys llywio'r gwaith o sefydlu Changing Futures, rhaglen gwerth £64 miliwn i wella canlyniadau i oedolion sy'n profi anfantais lluosog. Mae'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â'r Adran Tai, Ffyniant Bro a Chymunedau a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.





Yn dilyn ymlaen o'n partneriaeth Healthy Communities Together â The King's Fund, a'n galluogodd i rannu'r hyn a ddysgwyd ar sut gall partneriaethau gwirfoddol a statudol effeithiol leihau anghydraddoldebau iechyd, ym mis Tachwedd cyhoeddwyd ychydig o dan £5 miliwn o ariannu ar gyfer 11 o bartneriaethau arbenigol ychwanegol. Bydd y cyd-fentrau hyn yn parhau i wella cysylltiadau rhwng gwasanaethau iechyd a gofal ac yn hyrwyddo rôl y sector gwirfoddol ochr yn ochr â gwerth partneriaethau traws-sector i wella iechyd a lles.

Mae Know Your Neighbourhood, a ddarperir mewn cydweithrediad â DCMS, wedi dyrannu £6.3 miliwn eleni i dros 150 o brosiectau, gan rymuso cymunedau i fynd i'r afael ag unigrwydd mewn ardaloedd ffyniant bro. Mae'r cydweithio wedi cryfhau tystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio a pham ei bod yn bwysig cefnogi rhai trefi a dinasoedd ledled y wlad gydag ariannu.

## Stori prosiect: Banc bwyd Rainham a arweinir gan y gymuned


Mae Banc Bwyd Rainham a arweinir gan y gymuned yn Havering yn defnyddio £490,421 o ariannu Reaching Communities i ddatblygu ei ganolfan gymunedol newydd a chynhwysol, sy'n cefnogi dros 150 o bobl bob mis. Ochr yn ochr â'r banc bwyd a dillad ar gyfer teuluoedd incwm isel, mae rhaglen lawn o weithgarwch yn cael ei datblygu i droi'r ganolfan yn ganolfan adnoddau lle gall pobl alw heibio a chymdeithasu, cael mynediad at gyngor ac eiriolaeth, rheoli dyled a chymorth, dosbarthiadau Saesneg, iechyd gweithgareddau, cwnsela, a chyfleoedd gwirfoddoli.

Bydd yn cefnogi pobl i ailadeiladu eu bywydau ar ôl COVID-19 a diwallu anghenion cymunedol o ganlyniad i bwysau costau byw. Meddai Richard, sydd wedi elwa o gefnogaeth yn y ganolfan gymunedol: "Roedd y gwirfoddolwyr yn wych, yn cynnig sgwrs a chysur. Rwy'n dioddef o iselder hefyd a heb y banc bwyd dydw i ddim yn meddwl y byddwn i yma heddiw."



Banc Bwyd Rainham, Lloegr

# Yr Alban





Remake Scotland, Yr Alban

**1,497 grant**
gwerth
**£52.0 miliwn**





## Parhau i wasanaethu cymunedau

Mae ein wyth tîm ariannu rhanbarthol yn gwasanaethu ar hyd a lled yr Alban, gan ein helpu i ddod yn nes at y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae'r model hwn sy'n seiliedig ar le yn ein galluogi i dreialu gwahanol ddulliau o ddyfarnu grantiau cyfranogol (PGM).

Bu ein tîm ariannu yng ngogledd-ddwyrain yr Alban weithio mewn partneriaeth â'r sefydliad cymorth trydydd sector lleol, TSI Moray, i gynnig grantiau micro ar gyfer prosiectau llesiant cymunedol. Pobl leol a gynlluniodd y broses ariannu a gwneud penderfyniadau ariannu. Dyfarnwyd £2,000 i Ymddiriedolaeth Gymunedol Ardal Forres ar gyfer ei phrosiect Menopause Moments. Meddai Deborah Herron, Rheolwr Datblygu: "Roedd y dull PGM yn newydd i ni ond roedd y broses yn syml. Roeddem yn hoffi cael y cyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd ac annog pobl i bleidleisio. Roedd y pleidleisiau'n cefnogi'r prosiect ac yn ein sicrhau ein bod ni'n iawn wrth feddwl bod hwn yn rhywbeth sydd ei angen ar bobl yn ein cymuned."

---

Dyfarnom £1.6 miliwn i'r The Scottish Refugee Council ar gyfer ei gronfa Reaching New Scots, gan ei gwneud yn haws i grwpiau cymunedol a arweinir gan ffoaduriaid wneud cais llwyddiannus am grantiau'r Loteri Genedlaethol.


Gan ddefnyddio ei phrofiad ei hun, mae Fatou Cham yn un o wyth o wirfoddolwyr sy'n helpu i benderfynu pa brosiectau sy'n derbyn arian. Meddai Fatou: "Rwy'n geisiwr lloches sy'n byw yn yr Alban ac rwy'n gwybod beth mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn mynd drwyddo. Roeddwn i eisiau cymryd rhan oherwydd rwy'n gwybod bod yr arian hwn yn syniad da iawn. Rwyf wedi dysgu cymaint am wneud cais am arianu a gwneud penderfyniadau arno."

Mae ein rhaglen Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn parhau i yrru'r galw mwyaf, sef 66% o'n gwobrau.

Aeth bron i hanner yr arian Loteri Genedlaethol a ddosbarthwyd gennym (47%) i fudiadau micro a bach gydag incwm blynyddol o lai na £100,000.

Derbyniodd Remake Scotland, sydd wedi'i leoli yn Swydd Perth, grantiau bach a chanolig ar gyfer ei lyfrgell offer a'i gaffis atgyweirio. Mae'r elusen ymhlith 185 o grwpiau a ariannwyd gennym eleni gydag elfen amgylcheddol. Meddai Chris Sanderson, sy'n defnyddio'r caffi: "Rwy'n defnyddio llawer o wasanaethau Remake gan fy mod yn ymwybodol iawn o'r argyfwng hinsawdd ac eisiau lleihau ôl troed carbon fy nghartref. Rwyf wrth fy modd bod ei gaffi atgyweirio yn lleol, yn fforddiadwy ac yn fy helpu i osgoi pryniannau diangen."

Eleni gwnaethom gyrraedd y nod o £50 miliwn, gan ddosbarthu arian Cyfrifon Segur i Lywodraeth yr Alban i brosiectau sy'n cael eu rhedeg ar gyfer a gan bobl ifanc drwy ein rhaglen Young Start.



Fatou



Dates-n-mates, Yr Alban

## Rydyn ni yma i chi

Drwy gydol yr heriau costau byw, gwnaethom gadw ein holl raglenni ariannu ar agor er mwyn darparu parhad a sefydlogrwydd i'n cwsmeriaid.

Fe wnaethom gyflwyno dwy ffrwd ariannu gyda'r nod o ddarparu cymorth brys i'r unigolion mwyaf anghenus. Trwy Gronfa Caledi Aelwydydd, mewn partneriaeth â Sefydliad Corra, dosbarthwyd £2 filiwn i elusennau a grwpiau cymunedol, a oedd wedyn yn trosglwyddo hwn yn uniongyrchol i deuluoedd ac unigolion i ddiwallu anghenion dybryd fel bwyd, tanwydd, eitemau cartref neu ddillad.

Agorom gronfa wedi'i thargedu at fudiadau angori cymunedol, megis cymdeithasau tai ac ymddiriedolaethau datblygu, gan ddosbarthu arian i unigolion ar gyfer darpariaeth bwyd a thanwydd, dillad cynnes ac eitemau bach eraill fel blancedi trydan.

## Gweithio ar y cyd

Treuliwyd amser yn gwrando ar ein budd-ddeiliaid, cwsmeriaid ac arianwyr eraill ac yn dysgu oddi wrthynt er mwyn deall sut y gallwn gefnogi cymunedau yn y dyfodol.

Rydym wedi datblygu ein cynnig cymorth i ddeiliaid grant ymhellach. Mae hwn yn agored i bob un o'n deiliaid grant yn yr Alban ac mae'n cynnwys cymysgedd o sesiynau hyfforddi hyblyg, mynediad at ymgynghorwyr arbenigol a all ddarparu cymorth un-i-un i sefydliadau a phecyn cymorth ar-lein i ddeiliaid grantiau gyda dolenni i adnoddau defnyddiol i helpu grwpiau i reoli eu grantiau a rhedeg eu prosiectau.

Meddai Errin Anderson, Rheolwr Cyffredinol The Ecology Centre yn Fife: "Cawsom ein rhoi mewn cysylltiad ag ymgynghorydd cyllid a helpodd ni i archwilio symud ein proses gyfrifo i system ddigidol, gan leihau amser staff a chaniatáu i ni ganolbwyntio ar y bobl rydym yn eu cefnogi. Bu ein staff hefyd yn mynychu sesiynau hyfforddi gyda'r mudiad gwirfoddol ACOSVO, gan eu helpu i ddysgu gan arweinwyr y sector cyhoeddus, gan uwchsgilio nhw a'n gwirfoddolwyr."

Cynhaliom gynhadledd cydweithio a dysgu ynghylch ein dull ariannu o newid system gweithredu cynnar (EASC). Cefnogodd y rhaglen hon wyth o bartneriaethau traws-sector i brofi ymyrraeth gynnar mewn gwasanaethau plant a phobl ifanc, digartrefedd ieuenctid a gwaith gyda menywod yn y system gyfiawnder. Cafodd COVID-19 effaith sylweddol ar ein rhaglen EASC a daeth y digwyddiad hwn â phob un o'r wyth partneriaeth a ariennir a phartneriaid dysgu ynghyd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf.


## Stori prosiect: Cefnogaeth gan Stepping Stones

Cefnogwyd y fam ifanc Jordanna Tennant gan Stepping Stones, a dderbyniodd ddyfarniad Young Start o £78,900. Meddai Jordanna: "Roeddwn i'n gwybod nad oedd fy mab Mason yn datblygu'n iawn ond roeddwn yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arna i. Roedd fy ngweithiwr cymorth gyda mi pan gafodd Mason ddiagnosis o Syndrom Angelman o'r diwedd. Rwyf bellach wedi dod o hyd i'm llais ac yn cael helpu merched ifanc eraill sydd mewn sefyllfa debyg i'r hyn oeddwn i."



Jordanna

# Cymru





**879 grant**
gwerth
**£48.9 miliwn**

Coedwig Gymunedol Long Wood

## Parhau i wasanaethu cymunedau

Rydym yn falch o wasanaethu cymunedau ledled Cymru drwy ddarparu rhaglenni ariannu sy'n ymateb i'r anghenion y maent yn eu nodi tra hefyd yn addasu ein hariannu i gwrdd â heriau costau byw. Dros y flwyddyn rydym wedi dyfarnu £48.9 miliwn i gymunedau ledled Cymru drwy 879 o grantiau. O hyn, mae £13.8 miliwn wedi'i ymrwymo i'r 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae ein rhaglenni grantiau ymatebol Pawb a'i Le ac Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn parhau i ymateb i anghenion cymunedau ledled Cymru. Mae ein rhaglenni thematig yn mynd at achosion sylfaenol materion gan gynnwys digartrefedd, yr hinsawdd ac argyfyngau natur.

Drwy gydol 2022, mae ein timau rhanbarthol wedi parhau i adeiladu gwybodaeth leol a gwell dealltwriaeth o'r anghenion sy'n dod i'r amlwg mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae hyn yn ein galluogi i gyfleu ein negeseuon a dosbarthu ein hariannu yn gyflym ac yn effeithlon i ddeiliaid grantiau. Un enghraifft o'r fath oedd digwyddiad ariannu yn Ynys Môn a ddaeth â nifer o arianwyr a grwpiau cymunedol at ei gilydd, gan eu cefnogi i ddatblygu eu syniadau a chael mynediad at arian y Loteri Genedlaethol i'w gwireddu nhw.

Rydym yn falch o ddarparu gwasanaeth gwirioneddol ddwyieithog i gymunedau. Mae ein tîm Llinell Cyngor i Gwsmeriaid yn sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cychwyn ar eu taith gyda ni yn eu dewis iaith, boed yn Gymraeg neu Saesneg. Mae dros hanner yr holl gydweithwyr yn siaradwyr Cymraeg ac mae ein tîm Cymraeg yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y Gronfa gyfan, gan sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n Safonau Iaith Gymraeg, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.




Digwyddiad ariannu, Ynys Môn, Cymru



Paul Mitchell yng Nghwm Aber, Cymru

## Rydyn ni yma i chi

Mae grant y Loteri Genedlaethol wedi bod yn hynod bwysig i YMCA Cwm Aber. Yn union fel y gwnaethom addasu ein hariannu i fod yn ymatebol i anghenion cymunedau ar anterth y pandemig, rydym wedi addasu ein hariannu i ymateb i'r heriau uniongyrchol y maent yn eu hwynebu oherwydd y cynnydd sydyn mewn costau byw.

Mae YMCA Cwm Aber yng Nghaerffili, De Cymru yn grŵp cymunedol a dderbyniodd grant costau byw y Loteri Genedlaethol. Galluogodd y dyfarniad o £19,279 iddynt osod oleuadau LED ynni-effeithlon dan do.

Mae YMCA Cwm Aber yn gwasanaethu ardaloedd a fu gynt yn gymunedau glofaol ac yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer dod â phobl leol ynghyd. Mae'r sefydliad yn darparu ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau rheolaidd i bobl ifanc ac oedolion, gan gynnwys clybiau ieuenctid, cyfleusterau ffitrwydd a chwaraeon, a mannau creadigol ar gyfer dawns, cerddoriaeth, crochenwaith, yn ogystal â grwpiau chwarae mam a'i phlentyn.

"Mae grant y Loteri Genedlaethol wedi bod yn hynod bwysig i YMCA Cwm Aber. Bydd gwneud ein hadeilad yn fwy ynni-effeithlon ac ecogyfeillgar trwy osod goleuadau LED dan do yn ein galluogi i barhau i wasanaethu ein cymuned trwy'r argyfwng costau byw a thu hwnt. Rydym yn falch o gael rhywle i'r gymuned ddod at ei gilydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn man diogel tra hefyd yn mynd i'r afael â newid hinsawdd yn lleol." Paul Mitchell, Ysgrifennydd Cyffredinol, YMCA Cwm Aber.


Same but Different CIC, Cymru

## Gweithio ar y cyd


Mae ein rhaglen grant Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio gwerth £6.2 miliwn yn dod i ben eleni. Daethom â'r 13 o brosiectau a ariannwyd drwy'r rhaglen ynghyd i rannu mewnwelediadau a dysgu o'u gwahanol ddulliau o fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith. Mae atebion allweddol i dlodi mewn gwaith yn cynnwys lleihau costau i deuluoedd trwy sefydlu mentrau megis cynlluniau teyrngarwch lleol, cyfnewid gwisg ysgol, banciau dillad a theganau, llyfrgelloedd o eitemau defnyddiol a chaffis atgyweirio. Roedd prosiectau eraill yn canolbwyntio ar hyfforddiant, cymwysterau ac uwchsgilio, gyda rhai yn darparu cymorth un-i-un a gwasanaethau mentora neu eiriolaeth.

Wrth i gostau byw barhau i godi, mae dysgu o lwyddiannau'r rhaglen hon wedi dod yn bwysicach fyth wrth gefnogi cymunedau i ddod o hyd i atebion sy'n diwallu eu hanghenion unigryw orau ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol gydag arian y Loteri Genedlaethol.

Gan ddefnyddio ein hymchwil helaeth o bob rhan o'r Gronfa, rhoesom dystiolaeth i ymchwiliad y Senedd i Asedau Cymunedol ac ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar Fframwaith Rhagnodi Cymdeithasol a'u Cynllun Gweithredu ar yr Hinsawdd. Rydym wedi ceisio llywio'r trafodaethau presennol sy'n cael eu cynnal ar bolisi cymunedol yng Nghymru drwy gynnull cyfarfod bwrdd crwn o weision sifil a budd-ddeiliaid o'r radd flaenaf i rannu'r hyn a ddysgwyd am brofiadau ein deiliaid grant o ddatblygu cymunedol yng Nghymru wledig. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr hefyd o'n rhaglen Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio, gan roi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau mewn cyhoeddiadau gan y Sefydliad Materion Cymreig a Sefydliad Bevan.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu ariannu penodol i gefnogi gweithredu ar yr hinsawdd, gan weinyddu arian y Cynllun Asedau Segur, a ddarperir o dan ganllawiau polisi Llywodraeth Cymru. Drwy ein rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £20 miliwn i gefnogi cymunedau a phobl ifanc i gyfrannu at ddyfodol llewyrchus, carbon isel i Gymru. Yn 2022, fel rhan o'r ymrwymiad hwn, fe wnaethom ariannu gwasanaeth mentora saith mlynedd, Egin, a fydd yn helpu mudiadau i ddylunio ymatebion lleol i newid yn yr hinsawdd.

# Gogledd Iwerddon





**663 grant**
gwerth
**£28.2 miliwn**

Diverse Youth NI, Gogledd Iwerddon

## Parhau i wasanaethu cymunedau

Rydym yn falch o fod yn gweithio gyda grwpiau sy'n defnyddio ein harian Loteri Genedlaethol i gefnogi eu cymunedau i ddod at ei gilydd eto, gan gynnig amrywiaeth enfawr o weithgareddau gyda'r nod o wella iechyd a lles emosiynol a chorfforol, creu cyfleoedd dysgu newydd, neu wneud gwelliannau i'r amgylchedd naturiol.

Mae Canolfan Tobin yn Moortown, Sir Tyrone yn defnyddio grant o £493,553 gan ein rhaglen Empowering Young People i ddarparu ystod o weithgareddau i deuluoedd â phlant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn ardal Canol Ulster.

Meddai Loretta Daly, Rheolwr Rhaglen yng Nghanolfan Tobin: "Mae'r arian hwn gan y Loteri Genedlaethol wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Mae'r plant wedi gwneud ffrindiau, wedi datblygu hyder ac wedi gwella eu lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol, ac mae rhieni a gofalwyr wedi datblygu rhwydweithiau cymorth. Mae ein gweithgareddau yn rhoi cyfle i'r teulu cyfan ddod draw a chael hwyl gyda'i gilydd, sy'n wych ac yn dod â buddion i bawb."



Tobin Centre, Gogledd Iwerddon



Balnamore Community Association, Gogledd Iwerddon

## Rydyn ni yma i chi

Mae'r grwpiau y mae ein harian yn eu cefnogi yn dod atom gyda syniadau am brosiectau a luniwyd gan eu cymunedau, ac rydym yno ar eu cyfer, yn fwy diweddar ar gyfer cymunedau sydd wedi'u heffeithio gan y cynnydd mewn costau byw.

Mae Strabane and District Caring Services yn defnyddio grant £10,000 gan Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol i redeg lolfa gymunedol ar gyfer pobl sy'n wynebu arwahanrwydd cymdeithasol ac sy'n cael eu heffeithio gan gostau byw cynyddol. Gallant dreulio amser mewn gofod cynnes, diogel dros fisoedd y gaeaf, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau a chysylltu â phobl.

Dywedodd y Swyddog Datblygu Cymunedol, Chris McDaid: "Mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith enfawr ac mae'r hyn rydyn ni'n ei wneud, er mai rhywbeth bach iawn ydyw, yn helpu. Dyma ein hymdrech i fynd i'r afael â'r materion a'r rhai hynny sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac arwahanrwydd sydd wedi codi yn sgil COVID-19. Ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni hyn heb gefnogaeth Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – mae wedi bod yn hollbwysig."

Mae grwpiau ledled Gogledd Iwerddon hefyd wedi bod yn defnyddio symiau bach o arian i wneud gwahaniaeth mawr yn eu cymuned. Mae Balnamore Community Association yn defnyddio grant o £10,000 gan Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol i ddod â phobl ifanc a hŷn at ei gilydd. Dywedodd Mitzi Laverty, Ymddiriedolwr Balnamore Community Association "Mae'n wych gweld sut mae'r arian hwn wedi ein helpu i feithrin perthnasoedd gwych rhwng ein cenedlaethau iau a hŷn. Rydym yn edrych ymlaen at weld ein pobl iau yn dod yn gyfeillion i'r bobl hŷn, i fentora ei gilydd ac adeiladu eu hunan-barch."





## Gweithio ar y cyd

Mae ein gwaith yn dibynnu ar y cysylltiadau cryf sydd gennym â chymunedau, budd-ddeiliaid, deiliaid grantiau a chwsmeriaid, sy'n rhannu eu mewnwelediad a'u gwybodaeth i'n helpu i wneud y penderfyniadau gorau ar yr hyn sy'n bwysig i gymunedau.

Mae ymgysylltu rheolaidd â swyddogion adrannol llywodraeth Gogledd Iwerddon, Funders Forum of Northern Ireland, ac ystod eang o fudiadau rhwydwaith a thrydydd sector hefyd yn helpu i lywio a datblygu sut rydym yn gweithio.

Mae'r perthnasoedd gwerthfawr hyn hefyd yn ein helpu i lunio dyfodol ein portffolio Gogledd Iwerddon a'n strategaeth dyfarnu grantiau DU gyfan a fydd yn darparu ein fframwaith ariannu rhwng nawr a 2030.

Fe wnaethom barhau i ddarparu Cronfa Cyfrifon Segur Gogledd Iwerddon ar y cyd â'r Adran Gyllid ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwnaethom 79 o ddyfarniadau gwerth ychydig dros £6.4 miliwn. Mae'r cymorth hwn yn helpu'r rhai sy'n cael grantiau i edrych y tu hwnt i'r ddarpariaeth o ddydd i ddydd a chanolbwyntio ar gynaliadwyedd a gwydnwch hirdymor.

Dyfarnwyd grant o £77,700 o'r Gronfa Cyfrifon Segur i Girlguiding Ulster i ailstrwythuro a datblygu cynlluniau ar gyfer gwirfoddoli i helpu i ddiogelu'r mudiad at y dyfodol. Dywedodd y Prif Weithredwr, Claire Flowers: "Ar y cyfan, bydd y grant hwn yn ein helpu i roi'r gofod a'r cyfleoedd sydd eu hangen ar fwy o ferched a menywod ifanc i ffynnu a rhoi yn ôl i'w cymunedau trwy ddysgu sgiliau newydd, magu hyder a gwneud cyfeillgarwch gydol oes."


Buom yn gweithio gydag Adran Seilwaith Gogledd Iwerddon i ddarparu ail rownd o gyllid o dan y rhaglen amgylchedd grantiau bach, Living Places and Spaces. Bydd hyn yn dyfarnu ariannu i fwy o brosiectau ledled Gogledd Iwerddon sy'n helpu i greu mannau awyr agored mwy cynaliadwy a gwydn.

Y tu ôl i'n holl brosiectau a ariennir mae pobl anhygoel, sy'n newid bywydau gydag arian y Loteri Genedlaethol. Rydym hefyd wedi bod yn falch iawn o rannu eu straeon â chyfryngau megis y BBC, gan ddod â'r gwahaniaeth y mae arian y Loteri Genedlaethol yn ei wneud i fywydau pobl yn fyw mewn cymaint o ffyrdd.



Bangor Foodbank and Community Support, Gogledd Iwerddon

# Y Deyrnas Unedig





Climate Action Leeds, Lloegr

**301 grant**
gwerth
**£34.2 miliwn**





## Parhau i wasanaethu cymunedau

Mae ein Portffolio DU yn gweithio ar draws y pedair gwlad, gan ein galluogi i wneud cyfraniad ledled y DU drwy ein rhaglenni ariannu, mewnwelediadau, polisi ac ymarfer. Rydym yn darparu amrywiaeth o raglenni ariannu sy'n mynd i'r afael â materion cymdeithasol ac yn archwilio ffyrdd newydd o wneud pethau. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cefnogi cymunedau i weithredu ar newid hinsawdd, wedi ymateb yn hyblyg i gostau byw cynyddol ac wedi darparu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd a chreu etifeddiaeth barhaol i gymunedau.

Dyfarnwyd grant o £2,499,676 i Voluntary Action Leeds i gyflawni Climate Action Leeds, prosiect pum mlynedd uchelgeisiol, drwy ein Cronfa Gweithredu Hinsawdd. Mae'r ariannu yn cefnogi cynllun dinas gyfan a ddatblygwyd i helpu'r holl drigolion i fyw'n dda ac o fewn terfynau amgylcheddol y ddinas.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda chyrff sector cyhoeddus i helpu i ysbrydoli newidiadau mewn meysydd a amlygwyd gan Leeds Climate Change Citizens' Jury. Trwy alluogi mudiadau sy'n gweithio ym maes ynni, tai, bwyd ac addysg i gefnogi gweithredu a arweinir gan y gymuned, mae Climate Action Leeds yn gobeithio hyrwyddo ailddosbarthu pŵer, democrateiddio'r broses o wneud penderfyniadau, ac atebolrwydd.

Dywedodd Hannah Bailey, Prif Swyddog Voluntary Action Leeds: "Mae buddsoddiad y Loteri Genedlaethol yn Leeds i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd wedi ein galluogi ni fel mudiadau ac unigolion i gipio a harneisio llawer o'r brwdfrydedd a'r awydd i wneud rhywbeth am yr argyfwng hinsawdd, ar lefel gymunedol leol ac ar draws y ddinas ar raddfa fwy.

O ganlyniad i'r grant hwn, mae llawer iawn o weithgarwch wedi dechrau digwydd ledled y ddinas, gan uno cymunedau a dwyn i gof nid yn unig gamau gweithredu unigol ond camau gweithredu cyfunol a arweinir gan y gymuned hefyd."



Creggan Country Park Enterprise Ltd, Gogledd Iwerddon



Awdur Sipsi Romani Richard O'Neill gyda'i lyfr plant School for Nomads, a gomisiynwyd gan Moving for Change, Lloegr

## Rydyn ni yma i chi

Mae costau byw cynyddol yn parhau i herio ein cymunedau a deiliaid grantiau. Mewn ymateb, rydym wedi dyfarnu arian ychwanegol i'n deiliaid grant presennol, gan eu cefnogi gyda chostau cynyddol. Yn ogystal, gwnaed penderfyniadau ariannu o'n cyllideb ar gyfer y DU gyfan gan dimau gwlad y Gronfa, gan helpu i sicrhau ein bod yn gallu dosbarthu ariannu a oedd yn mynd i'r afael â heriau costau byw i'r mannau lle'r oedd ei angen. Mae'r dull hyblyg hwn yn sicrhau ein bod yn cefnogi'r cymunedau sydd â'r angen mwyaf, gan ddefnyddio dysgu ac adeiladu ar y perthnasoedd rhagorol sydd gennym gyda'n deiliaid grantiau i archwilio'r ffordd orau i ni eu cefnogi nhw a'u cymunedau trwy'r cyfnodau anodd hyn.

Eleni, dyfarnwyd £499,988 ychwanegol i Friends, Families and Travellers (Moving for Change) i wella eu prosiect Roadside Futures. Nod y fenter hon yw cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT) ledled y DU i ymarfer eu nomadiaeth ddiwylliannol draddodiadol a gwella bywydau'r rhai sy'n byw ar ymyl y ffordd. Mae costau byw cynyddol wedi dod â heriau newydd i deuluoedd a chymunedau GRT.

Bydd yr hwb grant yn helpu i fynd i'r afael ag allgáu digidol yn y gymuned GRT, ariannu digwyddiadau personol i ddod â rhwydwaith helaeth yr elusen ynghyd a gwella cydweithio. Bydd yn ymestyn cyrhaeddiad ei waith, gan ganiatáu mwy o ffocws ar ardaloedd anodd eu cyrraedd a rhannau o'r gymuned nad ydynt yn ymgysylltu cymaint, megis pobl ifanc.

Bydd ein hymagwedd hyblyg at gefnogi ein deiliaid grant a chymunedau ledled y DU gyda chostau byw cynyddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Bortffolio'r DU yn y flwyddyn nesaf.

## Gweithio ar y cyd

Lansiodd Our Bright Future, rhaglen gwerth £33 miliwn a ariennir gan y Loteri Genedlaethol sydd wedi cefnogi pobl ifanc i wneud gwelliannau amgylcheddol hirdymor i'w hardal leol, ei hadroddiad gwerthuso terfynol ym mis Hydref 2022 ochr yn ochr â chwe phapur dysgu thematig. Canfu fod mwy na 128,000 o bobl 11-24 oed wedi cymryd rhan yn y rhaglen dros saith mlynedd. Gwellodd hyn 3,000 o fannau cymunedol a chreodd 350 o ardaloedd llawn natur, o fynwent wedi'i fandaleiddio yn Hull i chwarel wedi'i hail-wylltio yn County Down.

Gyda chefnogaeth Our Bright Future, ymwelodd pobl ifanc â Senedd Ieuenctid yr Alban a chyflwyno i Aelodau Seneddol yn San Steffan ym mis Hydref 2022. Cyfarfu pobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon â'r Gweinidog Addysg fel rhan o'u hymgyrch cyfryngau cymdeithasol #LearnMoreOutdoors, a chafodd un person ifanc o Gymru ei ysbrydoli i ysgrifennu at ei AS lleol. Bellach mae gan bedwar ar bymtheg o fudiadau partner, megis Cyfeillion y Ddaear ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Efrog, ymddiriedolwyr ifanc neu strwythurau llywodraethu ieuenctid, gan gynyddu llais ieuenctid yn y sector amgylcheddol.

Roeddem hefyd yn falch o gefnogi'r Cinio Jiwbilî Mawr gyda £2.4 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol. Yn cael ei gynnal ar benwythnos y Jiwbilî Blatinwm, daeth y digwyddiad hwn â miloedd o gymunedau ynghyd a helpu pobl i ddathlu wrth ddod i adnabod eu cymdogion yn well.




Headway Swydd Gaerwrangon, Lloegr

# Rhan dau

# Adroddiad y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu





# Cynnwys


Adroddiad perfformiad .......... 48

Trosolwg .......... 48

Crynodeb o Berfformiad .......... 50

Dadansoddiad o'n perfformiad .......... 50

Adroddiad atebolrwydd .......... 70

Adroddiad llywodraethu corfforaethol .......... 70

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu .......... 76

Ein hadroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff .......... 90

Ein hadroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol .......... 115

Datganiadau Ariannol .......... 120

Nodiadau i'r cyfrifon .......... 127

Ein cefndir statudol .......... 175

# Adroddiad perfformiad

**Pwrpas yr adroddiad perfformiad yw rhoi gwybodaeth am y Bwrdd, prif amcanion a strategaethau'r Gronfa a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'r adran trosolwg yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr er mwyn deall y Bwrdd, ei ddiben, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Yn yr adran ddadansoddi mae'r Bwrdd yn adrodd ar ei fesurau perfformiad pwysicaf, gan gynnwys dadansoddiad gan ddefnyddio gwybodaeth o'r datganiadau ariannol.**

## Trosolwg

### Ein diben a gweithgareddau

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw enw gweithredu'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorfforaeth statudol a sefydlwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006. Mabwysiadodd y Gronfa yr enw gweithredu newydd ym mis Ionawr 2019 er mwyn adlewyrchu ffynhonnell ein hadnoddau ariannol yn well a'r ariannu ar gyfer achosion da a godir trwy gemau'r Loteri Genedlaethol ynghyd â'n rôl yn cefnogi cymunedau wrth eu helpu i wireddu eu huchelgeisiau.

Mae'r Gronfa yn gyfrifol am ddosbarthu 40% o'r holl arian a godir ar gyfer achosion da trwy'r Loteri Genedlaethol ac rydym yn dosbarthu hwn trwy ddyfarniadau grant i gefnogi prosiectau gyda ffocws cymunedol. Yn y pum mlynedd diwethaf rydym wedi dosbarthu dros £2.8 biliwn mewn dyfarniadau. Mae gennym amrediad o raglenni ariannu, o grantiau bach rhwng £300 a £10,000 i raglenni strategol, graddfa fawr gwerth miliynau o bunnoedd.

Yn ychwanegol at ein gwaith yn dosbarthu arian a godir gan y Loteri Genedlaethol i achosion da, mae'r Gronfa'n gyfrifol am ddosbarthu arian a ryddheir o gyfrifon banc segur ac asedau perthynol dan ddarpariaethau Deddf asedau perthynol dan ddarpariaethau Deddf Asedau Segur 2008 i 2022.

Rydym hefyd yn gweithio gyda mudiadau eraill, cyrff cyhoeddus yn bennaf, i reoli a dosbarthu eu hariannu trwy raglenni grantiau a redwn ar eu rhan. Dosbarthwyd dros £30 miliwn gennym drwy'r rhaglenni hyn yn ystod 2022/23. Mae enghreifftiau o'r math hwn o weithgarwch yn cynnwys ein dosbarthiad arian mewn partneriaeth â'r DCMS mewn perthynas â Chronfa #iwill a rhaglen Building Better Opportunities, sy'n cyfateb i arian cyfatebol a ddarparwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Wrth gyflwyno ein rhaglen waith rydym yn gweithredu o fewn y ddeddfwriaeth berthnasol, arweiniad sector cyhoeddus arall a gofynion (DCMS), sef ein hadran noddi sy'n darparu dogfen fframwaith (2023-2026) i ni sy'n disgrifio ein perthynas â'r llywodraeth. Mae DCMS hefyd yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi sy'n amlinellu'r blaenoriaethau sy'n rhaid i ni eu hystyried wrth sefydlu ein rhaglenni grant ar gyfer Lloegr a'r Deyrnas Unedig.





Mae'r adrannau priodol ym mhob un o'r gwenyddiaethau datganoledig yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi ar weithgarwch dyfarnu grantiau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Wrth weithredu o fewn y fframwaith a nodir yn y cyfarwyddiadau polisi hyn, mae penderfyniadau'r Gronfa ar raglenni a grantiau serch hynny yn annibynnol ar y llywodraeth. Mae gofyn bod ein harian yn dilyn egwyddor ychwanegedd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'n hariannu fod yn wahanol i'r llywodraeth - gall ategu ond ni ddylai gymryd lle rhaglenni gwariant y llywodraeth.

Rydym yn darparu cydbwysedd o raglenni ariannu sy'n ymateb i alw ac wedi'u targedu i fodloni gofynion cymunedau mewn modd sy'n cyfateb i'r egwyddorion a ddisgrifir yn ein Fframwaith Strategol.

Mae'r Gronfa'n gweithredu ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig gyda rhaglenni ariannu penodol ar gyfer pob gwlad. Ar ben hynny, rydym yn gweithredu amrediad o raglenni sydd â chwmpas y Deyrnas Unedig gyfan. Mae pob un o'r gwledydd a phortffolio'r DU yn dyfarnu grantiau trwy bwyllgor portffolio, gydag aelodau'r pwyllgorau hyn yn cael eu penodi'n allanol. Eu rôl yw amlinellu a chytuno ar raglenni grantiau a fewn Fframwaith Strategol y Gronfa gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ymagwedd gyffredinol a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Mae cymeradwyaeth o'r rhan fwyaf o ddyfarniadau wedi'i dirprwyo i swyddogion y Gronfa neu baneli penodol ar gyfer y rhaglenni amrywiol ym mhob portffolio. Mae ein cyllidebau dyfarniadau grant yn cael eu dosrannu rhwng pob gwlad ar sail cyfrannau a gytunwyd arnynt, sy'n cael eu pennu gan fwyaf yn seiliedig ar boblogaeth ac ar ôl didynnu cyfran - hyd at 10% o'r cyfanswm - i fynd tuag at bortffolio'r Deyrnas Unedig.

### Materion a risgiau allweddol

Mae mwyafrif ein hincwm yn dibynnu ar y refeniw a gynhyrchir gan y Loteri Genedlaethol; dyrennir cyfran o werth gwerthu pob gêm i achosion da a'i throsglwyddo i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), sef o le mae ar gael i ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol. Rydym yn rheoli ein dyfarniadau grant, cyllidebau a phroffiliau taliadau dros nifer o flynyddoedd i liniaru yn erbyn y risgiau sy'n deillio o amrywiadau posibl yn refeniw'r Loteri Genedlaethol ac i sicrhau y gallwn gyflawni ein hymrwymiadau wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae gwerthiant tocynnau, ac felly enillion at achosion da, wedi gostwng yn 2022/23 yn dilyn dwy flynedd o berfformiad uchel. Gan fod cyfnod y drwydded bresennol yn agosáu at ei ddiwedd, rydym yn mynd ati'n weithredol i reoli'r risg o ansicrwydd ynghylch incwm yn y dyfodol yn ystod cyfnod cychwyn y cytundeb trwydded nesaf. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau ein bod yn gallu bodloni ein rhwymedigaethau presennol yn llawn tra'n gwneud y mwyaf o faint o arian parod y gallwn ei ddarparu i barhau i gefnogi cymunedau.

Mae'r Gronfa bellach wedi lansio strategaeth newydd a fydd yn llywio ein gwaith dros y saith mlynedd nesaf. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu dros y flwyddyn ddiwethaf gyda mewnbwn gan 18,000 o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys derbynwyr grantiau, grwpiau cymunedol ac arbenigwyr yn y maes. O'r enw Cymuned yw'r man cychwyn, mae'r strategaeth yn nodi ein cyfeiriad hyd at 2030, ac mae'n ymwneud ag adeiladu ar y gorau sydd wedi bod, bod yn barod

i addasu, ond peidio â chaniatáu i hyn ein dal yn ôl rhag newid mwy hirdymor a thrawsnewidiol.

Rydym yn wynebu risg ariannol yn ein gweithgareddau oherwydd y potensial ar gyfer ceisiadau twyllodrus am grantiau neu gamddefnyddio grantiau. Rydym hefyd wedi gorfod rheoli ein hymgysylltiad â rhaglenni grant arian cyfatebol sy'n gysylltiedig â Chronfa Gymdeithasol Ewrop yn ofalus oherwydd y newidiadau a ddaeth yn sgil ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae ein rhaglen newid yn gofyn am gynllunio gofalus i sicrhau bod mentrau newydd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae dibyniaeth gynyddol ar wasanaethau digidol yn cynyddu ein hamlygiad posibl i risgiau seiber a thoriadau rheoli data ymgeiswyr. Mae ein rhaglen rheoli risg yn darparu dull o asesu'r risgiau allweddol yr ydym yn agored iddynt a sefydlu mesurau rheoli priodol i liniaru'r rhain. Mae asesiad llawnach o'n prosesau rheoli risg wedi'i gynnwys yn ein datganiad llywodraethu.

## Crynodeb o Berfformiad

Bob blwyddyn rydym yn disgrifio ein hamcanion corfforaethol a'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a ddefnyddiwn i asesu sut rydym wedi cyflawni ein nodau corfforaethol. Ar gyfer 2022/23 fe osodom tri amcan gyda saith DPA ategol (rhestrir y DPA yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn). Fe gyflawnom chwech o'r saith targed DPA. Mae'r Gronfa'n asesu ei pherfformiad drwy gydol y flwyddyn gan ddefnyddio'r DPA ond mae hefyd yn defnyddio metrigau perfformiad eraill. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau gweithredol allweddol, dangosyddion ariannol, data cyfrifo rheolaeth a thechnegau rhagweld. Mae hyn yn sicrhau bod y Gronfa, lle bo angen, yn gallu cymryd camau unioni cyn gynted â phosibl i gyflawni ei nodau ac i leihau'r risg i'w gweithrediadau a'i nodau. Rhagwelir y bydd DPA y Gronfa'n cael eu hadolygu a'u diweddaru i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ar ôl lansio'r strategaeth newydd.

Nid ydym yn gosod unrhyw warged neu ddiffyg gweithredu penodol fel mesur rheoli allweddol neu darged. Rydym yn rheoli ein perfformiad allweddol er mwyn mwyafu ein gallu i wneud grantiau ar sail yr arian a dderbyniwyd ac a gaiff ei dderbyn gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn cydnabod dyfarniadau grant yn llawn pan gânt eu cymeradwyo, ni waeth pryd y bydd arian parod ar gyfer y dyfarniadau hynny yn ddyledus i'w talu. Felly, mae ein canlyniad ariannol, a fesurir trwy warged neu ddiffyg, yn gallu amrywio yn sylweddol blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol cofnodwyd gwarged o £68 miliwn yn dilyn gwarged o £123 miliwn yn 2021/22.

Ceir asesiad manylach o'n perfformiad yn ein dadansoddiad perfformiad ac yn ein datganiadau ariannol.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol. Mae ein datganiad sefyllfa ariannol yn cofnodi rhwymedigaethau net sylweddol. Mae hyn o ganlyniad i'n polisi cydnabod dyfarniadau grant sy'n cofnodi gwerth llawn dyfarniadau ar adeg cymeradwyo a hysbysu (ac eithrio pan fydd meini prawf perfformiad penodol) er na fydd y taliadau arian parod o bosib yn berthnasol am beth amser. Rydym yn rheoli ein rhwymedigaethau ar sail ein gallu i fodloni'r galw arian parod o adnoddau arian parod cyfredol. Mae rhagolygon incwm y dyfodol yn deillio o ragamcanion y Comisiwn Hapchwarae/gweithredwr ac yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae hyn yn tybio, fel mater o bolisi cyhoeddus, y bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau i weithredu. Mae ein cynllun corfforaethol blynyddol yn disgrifio ein cyllidebau, amcanion a thargedau ar gyfer y flwyddyn.

## Dadansoddiad o'n perfformiad

### Perfformiad ariannol

Ein mesur effeithlonrwydd ariannol allweddol yw'r gyfran o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol a wariwn ar ddosbarthu grantiau. Rydym yn eithrio o'r mesuriad hwn y costau rydym yn eu hail-godi ar bobl eraill, er enghraifft, y costau o ddosbarthu ariannu nad sy'n arian y Loteri Genedlaethol (gan gynnwys mewn perthynas â'r cynllun cyfrifon segur). Hefyd, rydym yn eithrio costau penodol eraill, er enghraifft costau unigol sy'n fuddsoddiadau neu ailstrwythuro i gyflawni mesurau effeithlonrwydd yn y dyfodol (gweler Nodyn 6 y datganiadau ariannol). Mae TAW anadferadwy hefyd wedi'i heithrio.

Mae'r llywodraeth yn pennu uchafswm targed ar gyfer costau gweithredu'r holl ddosbarthwyr Loteri. Ar gyfer 2022/23 roedd hyn yn 7.75% o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol. Caiff y mesur hwn ei asesu dros gyfnod treigl o dair blynedd.

#### Yr hyn a gyflawnom yn 2022/233

Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd yn llwyddiannus yn erbyn y targed cyfanswm costau gweithredu 7.75% a bennir gan y llywodraeth. Cyfanswm y gwariant gweithredu cymwys ar gyfer gweithgareddau gwneud grantiau y Loteri Genedlaethol oedd £47.8 miliwn, £1.9 miliwn yn uwch nag yn 2021/22. Roedd ein gwariant gweithredu cymwys go iawn yn 6.6% o incwm y Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn ac yn 6.0% o incwm y Loteri dros y cyfnod o dair blynedd hyd at fis Mawrth 2023. Ein perfformiad yn y ddwy flynedd cyn hynny oedd 6.3% a 5.1% yn y drefn honno. Ar y sail hon, roedd costau gweithredu'r Gronfa dros y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2023 £37.6 miliwn yn is nag y caniateir gan y mesuriad effeithiolrwydd. Gwneir y gwarged hwn ar gael ar gyfer gweithgareddau gwneud grantiau.

Mae costau staff yn gyfran sylweddol o'n costau gweithredu. Mae ein niferoedd staff wedi gostwng yn ystod 2022/23 gyda nifer cyfwerth ac amser llawn (CaALl) o 786 (2021/22: 788). Yn ystod y flwyddyn hon o adnewyddu'r strategaeth, mae cyflwr cymharol gyson o ran lefelau staffio wedi'i gynnal, er bod disgwyl y bydd amrywiadau dros dro o'n blaenau wrth i ni symud ymlaen drwy'r cyfnod gweithredu.

#### Yr hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni yn 2023/24

Mae'r gyllideb yn seiliedig ar ddatblygu gweithgareddau i gefnogi ein cynllun corfforaethol, parhau ein rhaglen o newid a cheisio effeithiolrwydd i'n galluogi i ddyfeisio a chyflwyno gweithgareddau ariannu a fydd yn ein cefnogi i roi'r strategaeth newydd ar waith.

Rydym wedi cyllidebu i gyflwyno cyfanswm costau gweithredu o fewn y trothwy costau 7.75% yn 2023/24

ond gyda'r capasiti am rywfaint o fuddsoddiad ychwanegol wrth lansio strategaeth uchelgeisiol y Gronfa a gwelliannau gwasanaeth yn seiliedig ar yr ymagwedd tair blynedd treigl. Mae'r targed yn seiliedig ar incwm Loteri Genedlaethol y cyllidebwyd ar ei gyfer o £700 miliwn, sy'n deillio o'n rhagolwg o refeniw (yn seiliedig ar ragamcaniadau'r Comisiwn Hapchwarae a'r gweithredwr) ar gyfer 2023/24 ar adeg paratoi'r gyllideb a gan ystyried newidiadau disgwyliedig mewn gweithrediadau yn ystod y flwyddyn.

### Ein gwarged ar gyfer y flwyddyn

Roedd gennym warged ar gyfer y flwyddyn 2022/23 o £68 miliwn (2021/22: £123 miliwn).

Ein diffyg cronnus ar 31 Mawrth 2023 oedd £246 miliwn (Mawrth 2022: £314 miliwn).

Mae ein polisi cyfrifyddu yn trin gwerth llawn dyfarniadau grant fel gwariant cyn gynted ag y bydd y derbynnydd yn cael ei gymeradwyo (yn amodol ar rai meini prawf penodol). Yn yr un modd â holl ddosbarthwyr y Loteri, rydym yn rheoli ein llif arian dros y tymor hwy yn seiliedig ar rwymedigaethau arian grant a rhagamcaniadau incwm yn hytrach na cheisio cyflawni unrhyw warged neu ddiffyg blynyddol penodol. Telir dyfarniadau dros nifer o flynyddoedd ac rydym yn hyderus y bydd modd i ni fodloni ein rhwymedigaethau o incwm y dyfodol wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Ar gyfer gweithrediadau'r Loteri Genedlaethol yn unig, roedd gennym warged ar gyfer y flwyddyn o £61 miliwn (2021/22: £85 miliwn). Roedd yr incwm ar gyfer 2022/23 yn £707.2m, yn is nag yn 2021/22 (£723.1m) ac yn is na'r gyllideb a osodwyd gennym. Rydym yn cydnabod bod ansicrwydd cynyddol ynghylch lefelau incwm o ganlyniad i'r newid yng ngweithredwr y Loteri Genedlaethol, ac rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o ffactorau macro-economaidd, megis pwysau costau byw, a allai gael effaith andwyol ar werthiannau'r Loteri Genedlaethol. Rydym yn cymryd camau i liniaru'r risg hon drwy fonitro'r sefyllfa'n agos a gweithio'n agos gyda'r gweithredwr newydd o 1 Chwefror 2024 i sicrhau bod arian sydd ar gael i'w ddosbarthu i gymunedau ledled y DU yn cael ei ddiogelu. Roedd cyfanswm ein dyfarniadau ar gyfer 2022/23 £18 miliwn yn uwch na'r llynedd ar £615 miliwn (2021/22: £597 miliwn) ac roedd ychydig yn uwch na'r gyllideb a osodwyd gennym wrth i ni barhau i gefnogi cymunedau ledled y DU a chyflawni canlyniadau cadarnhaol trwy ein grantiau.

Cofnodwyd warged o £6 miliwn ar gyfer asedau cyfrifon segur (2021/22: £40 miliwn). Roedd incwm £40 miliwn yn uwch ar £94 miliwn ac roedd y dosbarthiad trwy ddyfarniadau a throsglwyddiadau i fudiadau eraill yn uwch, sef £86 miliwn (2021/22: £14 miliwn) oherwydd cytundebau pellach a lofnodwyd yn dyrannu arian i fudiadau gwariant dynodedig yn ystod y flwyddyn.

### Ein strategaeth ariannu

Ar gyfer ein rhaglenni arian y Loteri Genedlaethol, ein strategaeth yw dyfarnu'r uchafswm y gallwn ymrwymo iddo'n ddiogel dros gyfnod o bum mlynedd, gan ystyried incwm disgwyliedig, yn deillio o ragamcaniadau'r Comisiwn Hapchwarae a'r gweithredwr. Gan fod nifer o'n grantiau yn talu allan dros nifer o flynyddoedd ar ôl y dyfarniad cychwynnol, mae'r strategaeth hon yn sicrhau bod y prosiectau a gweithgareddau a gefnogir gan ein dyfarniadau yn gallu cyflwyno'u buddion mor gynnar â phosib gan sicrhau ein bod yn amddiffyn ein hunain rhag unrhyw newidiadau annisgwyl mewn incwm.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd gennym £898 miliwn (2021/22: £863 miliwn) o ymrwymiadau yn ddyledus mewn perthynas â dyfarniadau a wnaed ond fe gadwom £489 miliwn (2021/22: £399 miliwn) yn yr NLDF er mwyn eu bodloni. Mae hyn yn golygu yr oeddem wedi gwneud rhwymedigaethau net o £409 miliwn (2021/22: £464 miliwn) uwchben yr adnoddau sydd ar gael i ni ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfateb i tua saith mis o incwm y Loteri Genedlaethol yn y dyfodol yn seiliedig ar ein rhagamcaniadau cyfredol.

### Rhaglenni ariannu nad yw'n gysylltiedig â'r Loteri Genedlaethol

Yn ychwanegol at ein busnes craidd o ddosbarthu incwm achosion da'r Loteri Genedlaethol, rydym hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu arian sydd wedi'i ryddhau o Reclaim Fund Ltd o dan drefniadau Deddf Asedau Segur 2008 i 2022. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u cynnwys o fewn ein datganiadau ariannol cyfunedig. Disgrifir set o gyfrifon cryno ar gyfer y gweithgaredd hwn yn nodyn 33 y cyfrifon.

Mae Deddf Asedau Segur 2008 i 2022 yn galluogi banciau a chymdeithasau adeiladu i drosglwyddo arian a ddelir mewn cyfrifon segur i gronfa ganolog i'w fuddsoddi yn y gymuned. Mae'r cynllun hefyd yn gwneud darpariaeth i'r Gronfa ddyfarnu grantiau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon dan gyfarwyddyd polisi a amlinellir gan y gweinyddiaethau datganoledig. Ar gyfer Lloegr, roedd cyfarwyddiadau polisi gwreiddiol yn ei gwneud yn ofynnol bod ariannu'n cael ei basio'n gyfan gwbl at Big Society Capital sy'n gweithredu fel cyfanwerthwr buddsoddiad cymdeithasol. Cafodd y cyfarwyddiadau hyn eu diweddaru wedyn, gydag arian yn Lloegr hefyd yn cael ei ddosbarthu gan Access - the Foundation for Social Investment, Fair4All Finance a Youth Futures Foundation. Mae'r symiau a drosglwyddir i bob un o'r mudiadau hyn i'w dosbarthu ymlaen yn cael eu pennu gan gyfarwyddiadau polisi gan Ysgrifennydd Gwladol y DCMS.

Yn dilyn codi'r arian, rydym yn adneuo arian tan fod angen y rhain i fodloni ymrwymiadau grant neu rwymedigaethau trosglwyddo. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd llog gwerth £1.8m (2012/22: £7k) mewn perthynas â'r arian hwn.

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 hefyd yn amlinellu pwerau i'r Gronfa weithio gyda mudiadau eraill i ddosbarthu arian. Rydym yn cyfeirio at y gweithgareddau hyn fel Rhaglenni Trydydd Parti. Mae'r pwerau hyn yn rhoi cwmpas i ni ddosbarthu arian ar ran neu ochr yn ochr â, mudiadau eraill pan ddaw hyn o fewn y meysydd ariannu a bennir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ar gyfer ein gwaith a'i fod yn gweddu i'n hamcanion strategol. Yn ystod y flwyddyn dosbarthwyd ariannu gwerth cyfanswm o £33.0 miliwm trwy'r dull hwn ar ran arianwyr eraill.

I'r graddau y mae penderfyniadau ariannu grant ar arian a ddyfernir o dan y rhaglenni hyn yn cael eu gwneud yn y pen draw gan yr ariannwr trydydd parti, dim ond fel yr Asiant darparu ariannu ar gyfer y trydydd parti y byddwn

yn gweithredu. Mae esiamplau o'r math hwn o weithgarwch yn cynnwys dosbarthu arian mewn partneriaeth â DCMS mewn perthynas â Chronfa #iwill a rhaglen cyllid cyfatebol Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Building Better Opportunities. Nid ydym yn cofnodi derbyn yr arian ei hun neu'r grantiau a wneir yn ein cyfrifon ein hunain. Fodd bynnag, rydym yn adennill y costau o ymgymryd â'r gweithgaredd hwn o'r arianwyr perthnasol ac yn cofnodi hwn fel incwm. Pan fyddwn yn darparu arian ar y cyd neu gyfatebol ar gyfer y rhaglenni hyn rydym yn cofnodi ein cyfran o'r dyfarniadau grant a wnaed mewn gwariant ar raglenni'r Loteri Genedlaethol. Rydym yn cofnodi arian a gedwir i'w dosbarthu yn ein balansau arian yn y Datganiad sefyllfa ariannol ynghyd ag unrhyw rwymedigaethau a wnaed cyn derbyn yr arian o'r ariannwr. Mae cofnod o'r balansau yn ymwneud â phob rhaglen yn nodyn 24 y cyfrifon.

### Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF)

Delir enillion achosion da net y Loteri Genedlaethol yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), sydd o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hyd nes y caiff ei dynnu i lawr gan ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol. Mae'r Gronfa yn derbyn incwm buddsoddi a enillir gan NLDF yn ychwanegol at enillion y Loteri Genedlaethol o'r un gyfran ag enillion o dderbynebau'r Loteri Genedlaethol (40%). Yn 2022/23 roedd hyn yn £14 miliwn (2021/22: £1 miliwn).

**Roedd ein balans NLDF yn £489 miliwn ar 31 Mawrth 2023 (31 Mawrth 2022: £399 miliwn).**

Cododd ein balans yn y NLDF £90 miliwn yn ystod y flwyddyn. Mae hyn o ganlyniad i'r cynnydd mewn incwm buddsoddi drwy godiadau mewn cyfraddau llog, ynghyd â thaliadau grant a wnaed yn 2022/23 yn is nag enillion y Loteri Genedlaethol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn. Rydym yn cymryd y newid disgwyliedig yn y balans i ystyriaeth ochr yn ochr â rhagamcaniadau o refeniw y dyfodol ac amser rhwymedigaethau dros ben wrth bennu cyllideb dyfarniadau grant y dyfodol. Gan nad ydym yn rheoli incwm y Loteri Genedlaethol nid yw'n bosib i ni reoli'r balans yn y NLDF yn y tymor byr, felly nid ydym yn pennu targed penodol ar gyfer ein balans, ond yn hytrach amrediad yr hoffem weithredu oddi fewn iddo. Ein strategaeth ariannu yw uchafu gwerth ymrwymiadau grant newydd y gallwn eu gwneud yn ddiogel dros gyfnod o bum mlynedd gan ystyried ymrwymiadau cyfrif cyfredol. Rydym yn rhagweld ein llif arian i mewn ac allan yn y dyfodol er mwyn asesu balans isafswm diogel yn y NLDF er mwyn sicrhau y gallwn fodloni ein rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus, gan ganiatáu ar gyfer asesiadau seiliedig ar risg o amrywiadau posib mewn incwm. Bydd y balans gwirioneddol ar unrhyw adeg benodol yn amrywio yn ôl strwythur ac amseru ein rhaglenni grant a'r incwm a gynhyrchir trwy'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y cyfnod dan sylw.

## Ein hamcanion corfforaethol

### Amcan corfforaethol un:

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl a chymunedau ledled y DU.





### Beth ydym wedi'i wneud?

Eleni, rydym wedi dyfarnu grantiau gwerth £615m ledled y DU. Mae ein strategaeth newydd, sydd wedi bod yn rhan greiddiol o'n gwaith eleni, yn ailadrodd ein hymrwymiad i sicrhau bod cymunedau'n ganolog i'r hyn a wnawn. Mae ein hymrwymiadau yn 2022/23 a chyllidebau 2023/24 yn dangos ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd y nod hwn.

### Amcan corfforaethol dau:

Mae ein hariannu yn rhagweld ac yn cataleiddio newid ehangach i sicrhau bod cymunedau ledled y DU, a'r mudiadau sy'n eu cefnogi, yn ffynnu ac yn llewyrchu.

### Beth ydym wedi'i wneud?

Rydym yn falch ein bod wedi ymateb yn gyflym i'r heriau newydd y mae costau byw wedi'u creu i'n cymunedau. Rydym wedi sicrhau bod dros £300miliwn ar gael i gefnogi mudiadau i fynd i'r afael â goblygiadau eang y cynnydd mewn prisiau.

Buom yn gweithio ar draws y gwledydd i deilwra ein cefnogaeth ac yn gwrando ar yr hyn yr oedd ei angen fwyaf ar gymunedau.

Rydym wedi parhau i rannu dysgu ar draws ein mudiad a gyda chymunedau wrth i ni ddatblygu mewnwelediad i'r hyn sy'n gweithio. Bydd hwn yn faes lle byddwn am wneud mwy yn y blynyddoedd i ddod.

### Amcan corfforaethol tri:

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn effeithlon, wedi'i werthfawrogi ac ymddiriedir ynddi.

### Beth ydym wedi'i wneud?

Mae ein harolwg ymgysylltu a boddhad yn dweud wrthym fod ein cwsmeriaid yn hapus â'r ffordd rydym yn gweithio gyda nhw a'r gwasanaeth a gânt gennym ni. Rydym wrth ein bodd ein bod wedi cyrraedd cyfradd boddhad cwsmeriaid o 87% eleni. Gwyddom fod mwy i ni ei wneud i wneud yn siŵr ein bod yn cael ein gwerthfawrogi a bod ffydd ynom ar draws pob cymuned ac mae hynny'n ffocws allweddol o dan ein strategaeth newydd.

Rydym wedi parhau i reoli ein costau gweithredu o dan y trothwy o 7.75% ac wedi buddsoddi i wella ein heffeithlonrwydd. Rydym wedi symud i'r cwmwl ac wedi gwneud penderfyniadau i resymoli ein gofod swyddfa i sicrhau ein bod yn darparu gwell gwerth am arian a gwell profiad i'n staff.

## Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Ochr yn ochr â'n hamcanion, mae ein DPA (a osodir gyda chytundeb DCMS) yn helpu i asesu ein perfformiad mewn nifer o feysydd. Rydym wedi cyflawni chwech o'r saith DPA a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae ein hamcanion hefyd yn llunio'r sail o reoli ein risg tra bod ein gallu i gyflawni amcanion corfforaethol a lleol yn pennu parodrwydd y mudiad i dderbyn risg. O hyn rydym yn pennu i ba raddau y mae angen rheolaethau, mesurau lliniaru a chamau gweithredu i gyfyngu ar risg, tra'n ein galluogi i aros yn uchelgeisiol yn ein hymagwedd ac yn gymesur yn ein hymateb. Gan hynny, mae cynnydd gyda'r DPA yn ganllaw ar gyflawni amcanion ac yn llywio ein hymagwedd at reoli risg.

| DPA 1: Boddhad cwsmeriaid dros o leiaf 80%. | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Roedd Boddhad Cwsmeriaid yn 87% o ddeiliaid grantiau ac ymgeiswyr. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Arhosodd Boddhad Cwsmeriaid yn uwch na'r targed yn 2022/23 ar 87% (2021/22: 86%). Mae boddhad wedi cynyddu'n raddol yn ystod y pedair blynedd diwethaf, i fyny 4% o 2019. Mae cwsmeriaid yn parhau i deimlo'n gadarnhaol iawn am y Gronfa, gan ddweud wrthym ei bod yn hawdd gweithio gyda ni, bod ein prosesau'n syml a bod ein staff yn hynod gefnogol. |

| DPA 2: Costau gweithredu yn unol â'n trothwy a gytunwyd o 7.75% o incwm dros dair blynedd. | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Roedd ein costau gweithredu gwirioneddol ar gyfer gweithgareddau'r Loteri Genedlaethol yn 6.6% o incwm y Loteri Genedlaethol yn ystod 2022/23 ac yn 6.0% dros dair blynedd. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Gwnaethpwyd arbedion cost yn bennaf oherwydd swyddi gweigion yn ystod y flwyddyn a gostyngiad mewn costau teithio a threuliau wrth i staff barhau i weithio'n hybrid yn ystod 2022/23. |

| DPA 3: Dyfarniadau grant i fod o fewn 5% o'r gyllideb. | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd gennym oedd £613m sef 2.3% yn uwch na'r gyllideb a bennwyd gennym. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Mae'r Gronfa wedi dyfarnu grantiau o fewn 5% o'r gyllideb gyda gan gynnwys dyfarniadau ar draws yr holl bortffolios.<br>Mae ein targed yn seiliedig ar ddyfarniadau gwirioneddol a wnaed yn y flwyddyn ac nid yw'n cynnwys unrhyw addasiadau diwedd blwyddyn ar gyfer rhwymedigaethau amodol pan nad yw'r derbynnydd wedi'i hysbysu am y dyfarniadau neu addasiadau o ran grantiau amodol eto. Dyna pam mae'r cyfeirnod gwerth £613m ar y chwith yn wahanol i'r ymrwymiadau grant a ddangosir yn y cyfrifon. |

| DPA 4: Bydd ein sgôr ymgysylltu â gweithwyr yn 76% o leiaf | |
|---|---|
| **Ni chyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Cynhaliwyd ein harolwg ymgysylltu â gweithwyr blynyddol yn chwarter olaf y flwyddyn, gan arwain at sgôr ymgysylltu cyffredinol (EEI) o 61%.<br>Nid yw'r sgôr hwn wedi newid o'n canlyniad cyffredinol diwethaf yn 2021/22, pan gynhaliom yr arolwg diwethaf. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Arweiniodd ein harolwg ymgysylltu â gweithwyr a gynhaliwyd yn ystod pedwerydd chwarter y flwyddyn at sgôr EEI o 61%. Mae hwn yn ganlyniad tebyg i arolwg y flwyddyn flaenorol ond mae'n dangos cynnydd da yn erbyn dimensiynau allweddol megis arweinyddiaeth a thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn parhau i wella diwylliant y mudiad wrth i ni gyflawni ein strategaeth newydd a'n blaenoriaethau gwella sefydliadol parhaus. Rydym yn parhau i feincnodi'n ffafriol o gymharu â mudiadau eraill yn y sector cyhoeddus. |

| DPA 5: Bod nifer y bobl sy'n ymwybodol bod y Loteri Genedlaethol yn ariannu achosion da dros 45% | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Nododd ein harolwg diweddaraf ar gyfer y DPA hwn fod 46% o bobl yn cydnabod y Loteri Genedlaethol fel ariannwr achosion da. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Mae ein holl gyfathrebu'n parhau i dynnu sylw at rôl ariannu'r Loteri Genedlaethol mewn cymunedau. Ynghyd â theulu'r Loteri Genedlaethol, rydym wedi cefnogi gweithgaredd brand y Loteri Genedlaethol, gan dynnu sylw at ariannu sy'n mynd at achosion da ledled y DU. Mae'r DPA hwn wedi bod yn sefydlog am y flwyddyn ddiwethaf. |

| DPA 6: Bod nifer y bobl sy'n ymwybodol o ddiben Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol dros 45% | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Roedd ein harolwg diweddaraf yn dangos bod 45% o bobl yn ymwybodol o ddiben y Gronfa. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Mae'r DPA hwn wedi bod yn gymharol sefydlog yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae ymwybyddiaeth ar draws pob gwlad wedi bod yn sefydlog, a nodwn lle mae nifer uwch o bobl â meddylfryd cymunedol, ac sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, ein bod yn gweld lefelau uwch o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddyfnach o'n pwrpas. |

| DPA 7: O leiaf 80% o'n grantiau'n cael eu dyfarnu i elusennau a mudiadau cymunedol | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**<br>Ar gyfer y flwyddyn gyfan, roedd 94.49% o'n dyfarniadau yn ôl swm i elusennau a mudiadau cymunedol tra bod 96.62% o werth dyfarniadau'n bodloni'r meini prawf hyn. | **Adroddiad diwedd blwyddyn**<br>Eleni, ein ffocws allweddol unwaith eto fu rhoi cymunedau yn gyntaf. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, fe ymrwymom i ddyfarnu o leiaf 80% o'n hariannu i fudiadau o'r sector gwirfoddol a chymunedol (SGCh). Eleni, mae gwerth a nifer y grantiau i fudiadau SGCh wedi bod yn uwch na'r targed hwn. |

Yn ychwanegol at y DPA a nodwyd uchod, mae'r Gronfa'n defnyddio nifer o fesurau eraill i asesu cynnydd tuag at ein nodau ac iechyd y mudiad. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ariannol - er enghraifft pennu amrediad priodol ar gyfer ein balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Rydym hefyd yn ystyried mesurau cwsmeriaid megis dadansoddiad manwl o foddhad cwsmeriaid ag agweddau ar ein prosesau ar draws pob un o'n portffolios, a mesurau sy'n ymwneud â phobl, fel monitro lefelau absenoldeb gyda rhesymau. Mae data sy'n ymwneud â rhai o'r mesurau hyn yn ymddangos mewn man arall yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys yn yr adran sy'n edrych ar dâl cydnabyddiaeth a staff.

## Cydraddoldeb yn cyrchu ariannu

Mae'r Gronfa i bawb mewn cymunedau. Rydym yn gweithio'n barhaus i esblygu cyrhaeddiad ein gwahoddiad a'n croeso. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn gweithio gyda'r asedau a'r wybodaeth y mae pobl amrywiol yn dod â nhw i'w cymunedau ac i'r Gronfa.

Mae ein hegwyddorion ac arweiniad cydraddoldeb ar gyfer ymgeiswyr a deiliaid grant ar gael ar ein gwefan: tnlcommunityfund.org.uk/welsh/about/customer-service/equalities

Mae'r tabl isod yn amlinellu ein hadroddiad monitro cydraddoldeb ar gyfer 2022/23.

| Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig | Nifer y ceisiadau | Nifer y dyfarniadau | Swm y gofynnwyd amdano | Swm a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer. | Nifer | £'000 | £'000 |
| **Du/Affricanaidd/Caribïaidd** | | | | |
| Affricanaidd | 2,181 | 819 | 127,439 | 40,929 |
| Caribïaidd | 1,656 | 574 | 99,016 | 28,554 |
| Du Prydeinig | 2,000 | 666 | 113,948 | 30,752 |
| Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall | 1,827 | 671 | 116,716 | 38,038 |
| **Asiaidd** | | | | |
| Bangladeshaidd | 1,220 | 488 | 84,990 | 28,675 |
| Tsieineaidd | 763 | 271 | 56,797 | 17,794 |
| Indiaidd | 1,219 | 468 | 76,815 | 27,584 |
| Pacistanaidd | 1,343 | 527 | 87,586 | 29,909 |
| Asiaidd Prydeinig | 1,437 | 513 | 92,119 | 26,885 |
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 1,151 | 436 | 83,414 | 27,304 |
| | | | | |
| Arabaidd | 963 | 392 | 70,158 | 22,440 |
| Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr | 672 | 241 | 51,496 | 14,877 |
| Iddewig | 813 | 284 | 42,283 | 9,769 |
| Ethnigrwydd lluosog/cymysg | 2,088 | 739 | 128,931 | 39,864 |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 1,094 | 419 | 77,529 | 26,184 |
| Dim ethnigrwydd penodol | 30,731 | 12,873 | 1,706,903 | 555,906 |

| Oedran | Nifer y ceisiadau | Nifer y dyfarniadau | Swm y gofynnwyd amdano | Swm a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer. | Nifer | £'000 | £'000 |
| Plant a phobl ifanc | 6,735 | 2,606 | 360,928 | 149,602 |
| Pobl hŷn | 1,660 | 665 | 93,163 | 40,205 |
| Dim oedran penodol | 27,152 | 11,529 | 1,520,436 | 459,196 |

| Menywod a merched | Nifer y ceisiadau | Nifer y dyfarniadau | Swm y gofynnwyd amdano | Swm a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer. | Nifer | £'000 | £'000 |
| Ie | 3,102 | 1,304 | 360,928 | 149,602 |
| Na | 31,531 | 13,100 | 1,769,316 | 572,014 |

| Cymunedau ffydd | Nifer y ceisiadau | Nifer y dyfarniadau | Swm y gofynnwyd amdano | Swm a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer. | Nifer | £'000 | £'000 |
| Bwdhaeth | 52 | 5 | 9,128 | 1,482 |
| Cristnogaeth | 550 | 99 | 94,486 | 19,079 |
| Hindŵaeth | 66 | 10 | 12,951 | 1,877 |
| Iddewiaeth | 94 | 10 | 19,026 | 1,959 |
| Moslemiaeth | 198 | 45 | 34,934 | 10,354 |
| Sikhiaeth | 64 | 12 | 13,238 | 3,316 |
| Arall | 103 | 13 | 15,552 | 3,637 |

| Pobl ag anableddau | Nifer y ceisiadau | Nifer y dyfarniadau | Swm y gofynnwyd amdano | Swm a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer. | Nifer | £'000 | £'000 |
| Ie | 5,098 | 2,533 | 330,113 | 119,873 |
| Na | 29,535 | 11,871 | 1,594,066 | 508,303 |



| LGBT+ | Nifer y ceisiadau | Nifer y dyfarniadau | Swm y gofynnwyd amdano | Swm a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer. | Nifer | £'000 | £'000 |
| LGBT+ | 1,095 | 442 | 64,156 | 21,185 |
| Heb ei dargedu at LGBT+ | 33,538 | 13,962 | 1,860,023 | 606,991 |

| Siaradwyr Cymraeg* | Nifer y ceisiadau | Nifer y dyfarniadau | Swm y gofynnwyd amdano | Swm a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer. | Nifer | £'000 | £'000 |
| Pawb | 40 | 21 | 384 | 245 |
| Mwy na hanner | 255 | 119 | 6,476 | 6,661 |
| Llai na hanner | 1,146 | 637 | 21,152 | 19,866 |
| Neb | 64 | 38 | 855 | 2,687 |
| Dim ateb | 342 | 124 | 85,300 | 27,446 |

* Portffolio Cymru'n unig

| Cefndir Cymunedol Gogledd Iwerddon** | Nifer y ceisiadau | Nifer y dyfarniadau | Swm y gofynnwyd amdano | Swm a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer. | Nifer | £'000 | £'000 |
| Catholig a Phrotestannaidd | 1,306 | 535 | 61,731 | 22,962 |
| Catholig yn bennaf (dros 60%) | 248 | 107 | 9,362 | 5,989 |
| Protestannaidd yn bennaf (dros 60%) | 316 | 143 | 6,586 | 3,351 |
| Dim ateb/Nid y naill na'r llall | 148 | 50 | 9,021 | 2,912 |

** Portffolio Gogledd Iwerddon yn unig

**Noder:** Nid yw'r data uchod bob amser yn adio i fyny i'r un cyfansymiau ar gyfer pob gweithgaredd dyfarnu grantiau. Mae hyn oherwydd nad yw'r dosbarthwyr yn ein data grant yn fandadol pan gwblheir data ymgeisio ac mae'n bosib y bydd rhai ceisiadau'n cwblhau is-set yn unig o'r cyfanswm. Yn ogystal, gellir dewis categorïau lluosog mewn nifer o ddosbarthwyr.

### Safonau'r Gymraeg

Rydym yn ymroddedig i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru trwy weithredu Safonau Cymraeg y Gronfa a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017. Mae gweithrediad y Safonau'n cael ei fonitro a'i drafod mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddog Iaith Gymraeg y Gronfa a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Rydym wedi bodloni holl derfynau amser Safonau'r Gymraeg, gyda'r olaf yn cael eu bodloni ym mis Gorffennaf 2018. O ganlyniad i Safonau'r Gymraeg a'n hymagwedd ragweithiol fel mudiad, mae nifer o wasanaethau a gynigir gan y Gronfa i'w staff ar gael yn Gymraeg gan gynnwys ein gwasanaethau Adnoddau Dynol a chyrsiau hyfforddiant. Rhoddir cyfle i'n cwsmeriaid ddilyn eu taith gyda ni yn Gymraeg o'r pwynt cyswllt cyntaf, boed dros y ffôn, ar e-bost, cyfryngau cymdeithasol neu trwy gais ysgrifenedig hyd at ddiwedd eu grant. Darperir ein presenoldeb mewn digwyddiadau ac mewn cymorthfeydd ariannu yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg ac rydym yn cynnig hyfforddiant pwrpasol ar ofynion y Gymraeg i'n deiliaid grantiau. Rydym hefyd yn darparu presenoldeb cyfryngau cymdeithasol a digidol cwbl ddwyieithog ar draws sawl sianel gan gynnwys Twitter a Facebook. Dros y flwyddyn ddiwethaf o weithio hybrid, rydym wedi parhau i gynnig ein holl wasanaethau i'n cwsmeriaid a deiliaid grantiau yn Gymraeg neu Saesneg yn rhithwir ac mae dros hanner ein staff yng Nghyfarwyddiaeth Cymru naill ai'n siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr. Mae ein cyfarfodydd Pwyllgor Cymru a chyfarfodydd penderfynu rhaglenni bellach yn cael eu cynnal yn ddwyieithog gyda'r defnydd o gyfieithydd ar y pryd, gan roi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor a staff gyfrannu at gyfarfodydd a chael trafodaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Adroddiad cynaladwyedd

### Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr, Gwastraff a Defnydd 2022/23

Yr amcangyfrif[1] ar gyfer ein hallyriadau gweithredol yw 827tCO2e[2], neu 1tCO2e fesul cyflogai. Mae'r ffigur yn sylweddol uwch na'r hyn a adroddwyd gennym y llynedd (288tCO2e, 0.4tCO2e fesul cyfwerth ag amser llawn (FTE)). Mae hyn, yn rhannol, oherwydd ein bod wedi cynnwys amcangyfrif ar gyfer gweithio gartref (37% o ôl troed eleni) a phrynu cyfrifiaduron a deunydd ysgrifennu (6% o ôl troed eleni). Esbonnir amrywiadau eraill yn y data isod.

Bydd ein ffin garbon yn newid eto yn ystod 2023/24 wrth i ni weithio gydag arbenigwyr allanol i gyfrif am yr holl allyriadau gweithredol posibl. Er ein bod wedi dechrau cynnwys nwyddau a gaffaelwyd, nid ydym eto wedi rhoi cyfrif am unrhyw wasanaethau a gaffaelwyd.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom wrthbwyso ein hallyriadau gweithredol ar gyfer 2021/22 trwy brosiectau ynni adnewyddadwy, cymunedol a natur wedi'u dilysu, a phlannu coeden yn y DU fesul tunnell wrthbwyso, a phrynu tystysgrifau priodoledd ynni (EACs)[3] yn ôl-weithredol i gyd-fynd â'r trydan mewn cartrefi a swyddfeydd nad oeddent yn dod o ffynhonnell adnewyddadwy[4]. Prynwyd y tystysgrifau oddi wrth brosiectau ynni cymunedol bach.

Yn 2019 fe osodom y targedau canlynol fel rhan o'n strategaeth amgylcheddol. Gosodwyd y targedau cyn-bandemig ac adlewyrchir effeithiau sylweddol gweithio gartref a chyfyngiadau teithio yn y canlyniadau. Nid ydym wedi amcangyfrif beth fyddai'r niferoedd wedi bod heb y dylanwadau hyn, ond rydym yn ystyried bod canlyniadau 2022/23 yn adlewyrchiad cywir o'r patrymau gweithio cyfoes yn y Gronfa:

[1] Amcangyfrif yw hwn ar yr adeg o ysgrifennu, gan fod oedi mewn rhai data (sef data cyfleustodau swyddfa) a bydd y set ddata lawn yn cael ei hadolygu gan ein hachredwyr amgylcheddol, Planet Mark, ym mis Mehefin.

[2] Ystyr tCO2e yw tunelli o garbon deuocsid cyfwerth, sy'n uned safonol ar gyfer cyfrif allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG).

[3] Tystysgrifau a gyhoeddir gan y Llywodraeth ar gyfer ynni adnewyddadwy a gyflenwir i'r grid.

[4] Ni wyddom ar ba dariffau ynni y mae ein cydweithwyr, felly parwyd yr amcangyfrif trydan gweithio gartref llawn ag EACs.

| Targed | 2022/23 | 2019/20 | % Newid |
|---|---|---|---|
| Lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio a llety dros nos 25% o lefelau 2019/20 erbyn mis Mawrth 2023 | 218tCO2e | 438tCO2e | - 50% |
| Lleihau'r defnydd o deithiau hedfan mewnol (yn y DU) 20% o lefelau 2019/20 erbyn mis Mawrth 2023 | 28tCO2e | 156.6tCO2e | - 82% |
| Lleihau allyriadau carbon blynyddol y swyddfa (nwy a thrydan) 20% o lefelau 2019/20 erbyn mis Mawrth 2023[5] | 252tCO2e | 435tCO2e | - 42% |
| Cyflawni niwtraliaeth carbon trwy wrthbwyso allyriadau carbon heb eu lliniaru o 2020 | Gwnaethom wrthbwyso 808tCO2e ar gyfer 2019/20, 1667tCO2e ar gyfer 2020/21 (gan ddefnyddio dull amgen o gyfrifo allyriadau gweithio gartref) a 70tCO2e[6] ar gyfer 2021/22.[7] | | |
| Lleihau gwastraff i safleoedd tirlenwi 25% o lefelau 2019/20 erbyn mis Mawrth 2023 | 2t (amcangyfrif)[8] | 13t | - 85% |
| 50 o gydweithwyr i fod wedi derbyn hyfforddiant llythrennedd carbon erbyn mis Mawrth 2022 | 68 o gydweithwyr wedi derbyn yr hyfforddiant hyd yma | | dd/b |

[5] Bu gostyngiad o 10% yng nghyfanswm y gofod swyddfa a ddefnyddiwyd rhwng 2019/20 a 2022/23.

[6] Ym mis Ebrill 2022 cyflwynwyd polisi i gyfyngu'n sylweddol ar deithiau hedfan o fewn Prydain Fawr (ac eithrio i/o Ynysoedd yr Alban).

[7] Roedd gwrthbwyso 2021 ar gyfer ffigur Planet Mark, gan gynnwys gweithio gartref, heb yr EACs trydan y prynwyd ar eu cyfer.

[8] Nid yw hyn yn cynnwys gwastraff o weithio o bell. Mae gwastraff yn cael ei bwyso yn y fwyaf o'n dwy swyddfa - gyda'i gilydd maent yn cyfrif am tua 61% o'n gofod swyddfa ac o hyn gallwn amcangyfrif cyfanswm gwastraff gofod swyddfa i safle tirlenwi o 1.6t.

## Edrych i'r dyfodol

Bydd ein targedau amgylcheddol newydd yn cael eu cynllunio i'n helpu i gyrraedd sero net gweithredol erbyn 2030, fel y nodir yn ein cynllun corfforaethol presennol. Byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr allanol i gyfrifo llinell sylfaen allyriadau newydd, gan gynnwys yr holl allyriadau Cwmpas 3 posibl, ac yn gosod targedau tymor byr a hirdymor i leihau'r holl allyriadau o leiaf 90%. Ni fydd y cyfrifiadau yn cynnwys ôl troed carbon y prosiectau a ariennir gennym. Byddwn yn archwilio'r maes sylweddol a chymhleth hwn fel prosiect ychwanegol.

Mae gan bob cyfarwyddiaeth gamau gweithredu amgylcheddol yn eu cynlluniau busnes ar gyfer 2023-24, gan ymrwymo i gamau gweithredu sy'n cyfrannu at dri llinyn ein strategaeth amgylcheddol: lleihau ein heffaith amgylcheddol, helpu'r mudiadau rydym yn gweithio gyda nhw i leihau eu rhai nhw ac ymrwymo ariannu amgylcheddol. Mae'r camau gweithredu yn adeiladu ar y rhai a gyflawnwyd y llynedd, megis hyfforddiant llythrennedd carbon, cydnabod gweithredu amgylcheddol cadarnhaol drwy Wobrau Seren Werdd a chynnwys cwestiynau newid yn yr hinsawdd mewn prosesau caffael. Mae'r holl gamau gweithredu yn cael eu cefnogi a'u monitro gan ein grŵp cyflawni strategaeth amgylcheddol.

Mae ein rhwydwaith gweithredu ar yr hinsawdd hefyd yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd, wedi'i ysgogi gan gydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad sy'n ymroddedig i ddysgu amgylcheddol a newid cadarnhaol. Ac rydym yn parhau i ddefnyddio cyfleoedd fel ein cyfarfodydd rhithwir i'r holl staff (Cysylltiedig), yn ogystal â ffurfiau eraill o gyfathrebu mewnol, i barhau i godi pwysigrwydd ein hamgylchedd a ffyrdd o'i gefnogi.

Er mwyn cynorthwyo gyda chyfathrebu a gweithredu, rydym yn datblygu'r ffordd yr ydym yn casglu, cofnodi a rhannu ein data allyriadau. Yn ystod 2023 ein nod yw lansio adroddiadau ar lefel cyfarwyddiaeth. Bydd hyn yn canolbwyntio ar deithio, gan mai dyma ein set ddata fwyaf cywir ar lefel tîm ac roedd yn cyfrif am chwarter ein hôl troed ar gyfer 2022/23.

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| | | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tCO2E) | Cyfanswm gros ar gyfer Cwmpasau 1 a 2[9] | 252 | 212[10] |
| | Cyfanswm net ar gyfer Cwmpasau 1 a 2 (llai gostyngiadau h.y. tariffau Gwyrdd) | 206 | 0[11] |
| | Allyriadau gros ar gyfer cwmpas 3 (teithio busnes drwy bob dull teithio, gan gynnwys unrhyw arosiadau mewn gwesty) | 218 | 46 |
| | Allyriadau Cwmpas 3 eraill a fesurwyd: gweithio gartref | 305[12] | 384 |
| | Cyfarpar TG | 47 | n/a |
| | Prynu nwyddau papur | 1 | n/a |
| | Gwastraff | 4 | 0.5 |
| Defnydd ynni cysylltiedig (kWh)[13] | Trydan: anadnewyddadwy | 250,711 | 320,580* |
| | Trydan: adnewyddadwy | 105,726[14] | - |
| | Nwy[15] | 1,020,360 | 745,930* |
| | LPG | - | - |
| | Arall | - | - |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Gwariant ar ynni[16] | 193[17] | 210 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 629 | 195 |

Mae cyfraddau defnydd yn ein swyddfeydd wedi parhau'n isel wrth i gydweithwyr barhau i weithio ar sail hybrid o'n swyddfeydd, o gartref ac allan yn y gymuned. Fe wnaethom leihau maint ein swyddfeydd yn Llundain a Chaerdydd y llynedd a'n swyddfa ym Manceinion eleni. Rydym yn denantiaid neu'n dalwyr trwydded ym mhob un o'n swyddfeydd fel arfer, wedi'n rhwymo gan gyfnodau prydles a osodwyd cyn-bandemig, ond rydym wedi bod yn monitro'r defnydd o swyddfeydd ac yn paratoi i leihau'r lleoedd sydd gennym. Yn y cyfamser, mae swyddfa Birmingham wedi cyflwyno 'parthau gweithio', fel bod modd diffodd trydan ac aerdymheru mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Rydym wedi lleihau'r galw am drydan ymhellach drwy leihau'r hyn y mae ein gweinyddion yn ei ddefnyddio 41% rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Gallwn gyfrifo hyn yn seiliedig ar adroddiadau gweinydd, ond nid yw'r gostyngiadau wedi'u dangos eto yn ein biliau trydan heb fesurydd. Mae hyn wedi'i wneud yn bosibl oherwydd bod swm sylweddol o'n data'n cael ei symud i'r cwmwl, gan alluogi mwy o'n gweinyddion cymharol aneffeithlon i gael eu dadgomisiynu a diffodd unedau aerdymheru yn gyson. Er y gall darparwyr cwmwl mawr redeg eu gwasanaethau yn fwy effeithlon, mae angen i ni gipio'r allyriadau cysylltiedig o hyd, felly bydd ein cyfrifiadau cwmpas 3 newydd yn cynnwys gwasanaethau cwmwl.

---

9 Mae cwmpas 1, 2 a 3 yn cyfeirio at y diffiniadau a ddisgrifir yn y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr gan Sefydliad Adnoddau'r Byd a Chyngor Busnes y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy. Mae Cwmpas 1 yn cyfeirio at nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir yn uniongyrchol (yn bennaf trwy wresogi ein swyddfeydd) tra bod Cwmpas 2 yn cyfeirio at gynhyrchu anuniongyrchol megis trydan.

10 Diwygiwyd y ffigurau i gyd-fynd â'r rhai a gyflwynwyd yn adroddiad amgylcheddol Planet Mark 2021/22. Nid oedd Planet Mark yn cynnwys amcangyfrifon i lenwi bylchau data na defnydd posibl o gyfleustodau mewn swyddfeydd cymunedol. Mae'r kwhs nwy a thrydan cysylltiedig hefyd wedi'u diwygio*.

11 Adroddwyd fel 0 oherwydd prynu EACs ar gyfer unrhyw drydan nad yw'n hysbys i'w brynu trwy dariff adnewyddadwy a gwrthbwyso'r allyriadau sy'n weddill. Cafodd allyriadau Cwmpas 3 eu gwrthbwyso hefyd, nid yw'r strwythur adrodd yn gofyn am allyriadau cwmpas 3 'net'.

12 Yn seiliedig ar ein cyfrifon pennau misol, deiliadaeth swyddfa a ffigurau a ffactorau trosi newydd y llywodraeth ar gyfer gweithio gartref (gan gyfrif am wres a thrydan).

13 Mae'r trydan yn caniatáu ar gyfer amcangyfrifon ar gyfer ein swyddfeydd heb fesurydd (50,000kwh ar draws Caerwysg a Llundain. Nid oedd Planet Mark 2021-22 yn cynnwys Llundain).

14 Mae kWh yn sefyll am awr cilowat. Mae'n fesur o faint o egni rydych chi'n ei ddefnyddio.

15 Cyfrifir y defnydd o nwy o'r darlleniadau mesurydd a dderbyniwn ar gyfer tair o'n swyddfeydd. Sef ein tair swyddfa fwyaf, Birmingham, Newcastle a Glasgow. Rydym yn meddiannu 45, 26 a 24 y cant o'r gofodau swyddfa cyfan yn y drefn honno ac yn rhannu'r ffigurau defnydd swyddfa cyfan. O hyn rydym wedi cynhyrchu ffigwr defnydd amcangyfrifedig i fod yn berthnasol i weddill ein hystâd (kwh y flwyddyn y $m^2$).

16 Mae'r cyfrifiadau ar gyfer y ddwy flynedd yn cynnwys cost am nwy swyddfa gymunedol a thrydan fel y talwyd amdano yn ein taliadau gwasanaeth, yn ogystal â nwy a thrydan sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r gofod a feddiannir gennym. Nid yw'r nwy ac ynni cymunedol o dan ein rheolaeth ac felly'n cael ei fesur fel allyriadau cwmpas 3, y byddwn yn craffu arnynt o dan ein prosiect sero net.

17 Nid yw'r gwariant ynni wedi cynyddu yn unol â'r cynnydd yn y defnydd oherwydd y cynllun rhyddhad biliau ynni a'r oedi o ran bilio/addasu taliadau gwasanaeth.

Adroddwyd bod y defnydd o nwy 37% yn uwch eleni (cynnydd o 39 $tCO_2e$). Mae ein defnydd gwirioneddol ychydig yn is eleni na'r llynedd, ond roedd gwallau adrodd ar gyfer ein hail swyddfa fwyaf, Newcastle[18]. Rydym wedi bod yn gweithio gyda landlordiaid i ddefnyddio rheolyddion boeleri yn well a lleihau tymereddau rhedeg ein swyddfeydd. Roedd y defnydd o nwy yn ein swyddfa fwyaf, Birmingham, 35% yn is yn 2022/23 nag yn 2021/22. Gyda'r cywiriadau darllen mesurydd wedi'u cymhwyso i ffigurau hanesyddol Newcastle, mae gostyngiad o 5% wedi'i wireddu yno.

Mae teithio wedi codi'n sylweddol eleni, ond dim ond tua hanner cymaint ag y gwnaethom cyn y pandemig yr ydym yn dal i deithio ac mae tua 70% o'r milltiroedd a gwmpesir yn cael eu gwneud ar drenau. Mae'r holl gydweithwyr wedi'u sefydlu i weithio'n rhithwir a gofynnir iddynt deithio dim ond pan fydd cwrdd ag amcanion yn gofyn am gyfarfod personol. Adolygwyd ein polisi teithio yn ddiweddar i gynyddu'r pwyslais ar deithio dim ond pan fydd yn ychwanegu gwerth ac i amlinellu sut i deithio yn y ffordd fwyaf ynni-effeithlon. Mae'r polisi bellach yn cynnwys hierarchaeth deithio'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a chanllawiau llymach ynghylch hedfan, rhywbeth yr ydym ond yn eu caniatáu wrth groesi'r môr. Nid ydym yn cynnwys cymudo cydweithwyr yn ein hadroddiad presennol, ond rydym yn bwriadu ei dynnu i mewn i'n cyfrifiadau sero net.

Am y tro cyntaf eleni rydym wedi cynnwys ôl troed ein pryniannau technoleg; mae hwn yn ffigwr arwyddocaol gan ein bod ym mlwyddyn gyntaf prosiect tair blynedd i adnewyddu gliniadur Microsoft Surface Pro pawb. Mae'r diweddariad hwn yn angenrheidiol i sicrhau bod ein holl ddyfeisiau'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi, ac mae'r tîm technoleg yn gweithio i gynyddu'r gwaith o adnewyddu ac ailddefnyddio'r cynhyrchion na allwn eu defnyddio mwyach.

Yn unol â'r llynedd, rydym wedi pwyso'r gwastraff ar ein dau safle swyddfa mwyaf (sy'n cyfrif am 61% o'n gofod swyddfa), gan mai dim ond gwybodaeth gyfyngedig (ariannol) a gawn gan ein landlordiaid. Nid ydym wedi gallu cael unrhyw ddata defnydd dŵr gan ein landlordiaid o hyd ac nid ydym wedi rhoi cyfrif am unrhyw wastraff a gynhyrchir neu ddŵr a ddefnyddir gan gydweithwyr sy'n gweithio y tu allan i'r swyddfa. Gobeithiwn y bydd ein prosiect sero net yn ein helpu i wneud amcangyfrifon mwy realistig mewn meysydd ymarferol.

[18] Adroddwyd ar y darlleniadau mesuryddion a gawsom mewn kwh, pan oeddent yn $m^3$



| **Gwastraff** | | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (t) | Cyfanswm gwastraff | 3.5 | 5.97 |
| | Gwastraff Peryglus | - | - |
| | Tirlenwi | 1.6 | 0.3 |
| | Ailddefnyddio/Ailgylchu | 0.9 | 0.1 |
| | Ynni o wastraff a losgir | - | - |
| | Gwastraff WEEE | 1 | 5.93 [19] |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Cyfanswm cost gwaredu | 5.7 | 6.2 |
| | Gwastraff peryglus - cyfanswm cost gwaredu | - | - |
| | Tirlenwi[20] | 2.85 | 3.1 |
| | Ailddefnyddio/Ailgylchu | 2.85 | 3.1 |
| | Ynni o wastraff a losgir | - | - |



David Knott
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

30 Mehefin 2023

[19] Yn uwch nag a adroddwyd y llynedd gan fod tystysgrifau gwastraff WEEE wedi'u cyhoeddi ar ôl casglu'r gwastraff.

[20] Mae'r gost gwastraff wedi'i rhannu 50/50 rhwng tirlenwi ac ailgylchu, i adlewyrchu adroddiad y llynedd. Rhagdybiaeth yw hon gan nad yw costau rheoli gwastraff adeiladu yn cael eu dadansoddi fesul ffrwd wastraff.

# Adroddiad atebolrwydd

Mae tair adran i'r adroddiad atebolrwydd:

- adroddiad llywodraethu corfforaethol – trafodaeth ar ein strwythur llywodraethu a'i gyflawniadau yn y flwyddyn dan sylw
- adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff – mae hwn yn manylu ar gydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr yn ogystal â threfniadau pensiwn. Hefyd, rydym yn trafod ein cyflawniadau ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer staff
- adroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol – adroddiad gan ein harchwilwyr ar ganlyniadau eu harchwiliad o'n cyfrifon ar gyfer 2022/23 yn unol â safonau cyfrifyddu ac archwilio.

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r Gronfa wedi'i llywodraethu gan Fwrdd sy'n cynnwys y Cadeirydd, cadeiryddion y pedwar pwyllgor gwlad a hyd at saith aelod arall. Mae'r Bwrdd wedi penodi un o'i aelodau fel Is-gadeirydd. Yn ystod 2022/23 roedd 12 aelod o'r Bwrdd (rhai am ran o'r flwyddyn adrodd yn unig). Mae nifer o benodiadau wedi bod i rolau Byrddau a Phwyllgorau yn ystod y flwyddyn. Mae manylion aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau ar gyfer y cyfnod adrodd wedi'u nodi'n fanwl yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth ar dudalen 90.

Mae gan bob gwlad bwyllgor sy'n gyfrifol am y rhaglenni ariannu yn ei wlad; mae'r Bwrdd wedi penodi pwyllgor ar gyfer ariannu Deyrnas Unedig gyfan hefyd.

Mae'r Bwrdd yn pennu Fframwaith Strategol y Gronfa ac mae'r pwyllgorau'n gweithio o fewn y fframwaith hwn, wedi dirprwyo awdurdod i bennu'r rhaglenni ariannu yn eu gwledydd (neu ar gyfer y portffolio ariannu Deyrnas Unedig). Maent hefyd yn gwneud penderfyniadau am grantiau, neu'n cytuno ar y trefniadau dirprwyedig ar gyfer gwneud nhw, o fewn y rhaglenni hyn.

Mae'r Bwrdd wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n cwrdd pob chwarter i roi cyngor ar faterion adrodd ariannol, archwilio a sicrwydd a rheoli risg. Hefyd, mae wedi penodi Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth i ddelio gyda'r materion a ddisgrifir yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cwrdd bob blwyddyn fel arfer. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd ar unrhyw faterion y mae'r Pwyllgor yn tybio y mae angen eu dwyn at eu sylw, ac i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn darparu adroddiad llawn i'r Bwrdd ar ei waith unwaith y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau am y rhaglenni ym mhob portffolio gwlad er mwyn iddo sicrhau bod eu gweithgarwch gwneud grantiau'n cydymffurfio â'r Fframwaith Strategol a bod dysgu'n cael ei rannu.

Yn ystod 2022/23 ffurfiwyd tri is-bwyllgor newydd y Bwrdd. Mae aelodaeth y pwyllgorau hyn yn cynnwys aelodau anweithredol o'r bwrdd a swyddogion/cyfarwyddwyr y Gronfa. Mae gan bob un o'r pwyllgorau hyn gylch gorchwyl a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Mae cadeirydd pob pwyllgor yn rhoi diweddariad ym mhob cyfarfod Bwrdd. Mae manylion y pwyllgorau hyn yn ymwneud â'u gwledydd priodol a phenodir holl aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau yn dilyn proses hysbysebu a dethol agored. Mae'r Pwyllgorau fel a ganlyn:

- Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth: Ffurfiwyd y pwyllgor hwn i oruchwylio a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch y broses ar gyfer datblygu strategaeth 2023-2030 y Gronfa a gymeradwywyd yn ddiweddar.
- Is-bwyllgor Pobl: Mae'r pwyllgor hwn yn darparu mwy o oruchwyliaeth a sicrwydd llywodraethu ar faterion sy'n ymwneud â phobl a diwylliant o fewn y Gronfa.
- Is-bwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Chysylltiadau'r Llywodraeth: Sefydlwyd y pwyllgor hwn i roi sicrwydd drwy oruchwylio ymagwedd gyson a strategol o gydgysylltu a rheoli cyfathrebiadau a chysylltiadau â budd-ddeiliaid allanol allweddol ac adrannau'r llywodraeth.

Mae aelodaeth y Bwrdd a'r holl bwyllgorau a phresenoldeb ynddynt wedi'i amlinellu yn y tablau ar ddiwedd yr adran hon.

Penodir holl aelodau'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer ein hadran noddi, DCMS. Mae aelodau Pwyllgorau Gwlad yn cael eu penodi gan y Gronfa. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn cymryd rhan yn llawn yn y penodiadau sy'n gysylltiedig

### Cofrestr buddiannau

Mae'n rhaid i holl aelodau ein Bwrdd a'n Pwyllgorau, ein haseswyr, ein hymgynghorwyr ac aelodau unrhyw banel ymgynghorol, a'n staff, ddatgan buddiannau perthnasol o dan ein côd moeseg. Mae'r côd hwn yn cydymffurfio â chôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Mae buddiannau sydd wedi'u datgan gan aelodau Bwrdd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Mae manylion y cyfryw fuddiannau ar gyfer yr holl aelodau pwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau ar gael trwy ysgrifennu at y Pennaeth Llywodraethu.

Os yw'r Bwrdd neu bwyllgor yn ystyried unrhyw fater y gellir tybio'n rhesymol eu bod yn achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran penderfyniadau ar grantiau i fudiadau ond hefyd unrhyw berthnasoedd masnachol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod y datgeliad yn cael ei wneud a bod yr aelod yn gadael pan drafodir yr eitem berthnasol.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi manylion y dyfarniadau a wnaed i fudiadau y mae aelodau'r Bwrdd neu bwyllgorau gwlad wedi datgan buddiant ynddynt o fewn y flwyddyn ariannol bresennol neu pan ddatgelir buddiannau eraill o ran mudiadau a ariannwyd.

| Enw | Enw'r Mudiad | Natur y berthynas | Natur y berthynas | Dyfarniadau a wnaed yn 2022/23 | | Tynnu'n ôl o'r penderfyniad dyfarnu | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Nifer | £ | | £ |
| Aaliya Seyal | Parent Network Scotland | Hwy | Aelod Bwrdd | 1 | 9,505 | Dd/B | 46,994 |
| | Scottish Refugee Council | Hwy | Aelod Bwrdd | 0 | 0 | Dd/B | 9,693 |
| | Airdrie CAB | Hwy | Cyflogai | 0 | 0 | Dd/B | 8,789 |
| | Prifysgol Glasgow | Plant | Cyflogai | 0 | 0 | Dd/B | 47,086 |
| | Legal Services Agency | Hwy | Cyflogai | 0 | 0 | Dd/B | 60,000 |
| Cara Cash-Marley | Centre for Health and Wellbeing | Hwy | Aelod Bwrdd | 1 | 10,000 | Dd/B | 0 |
| | CO3 | Hwy | Aelod tanysgrifiol | 0 | 0 | Dd/B | 99,845 |
| Charlotte Moar | Prosiectau elusennol | Hwy | Ymddiriedolwr a Thrysorydd | 0 | 0 | Dd/B | 54,122 |
| Danielle Palmour | MySight York | Hwy | Ymddiriedolwr | 1 | 310,356 | Dd/B | 310,356 |
| | Innovation Unit | Hwy | Aelod Bwrdd | 1 | 290,700 | Dd/B | 0 |
| Emma Boggis | Investment Committee for Sporting Assets | Hwy | Aelod | 1 | 156,306 | Dd/B | 0 |
| Fadhili Maghiya | Sub-Saharan Advisory Panel | Hwy | Cyfarwyddwr | 0 | 0 | Dd/B | 263,551 |
| | Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Partner | Cyflogai | 0 | 0 | Dd/B | 262,740 |
| Gwenllian Lansdown-Davies | Mudiad Meithrin | Hwy | Prif Weithredwr | 1 | 9,900 | Dd/B | 0 |
| Helen Stephenson | Comisiwn Elusennau | Hwy | Prif Weithredwr | 0 | 0 | Dd/B | 0 |
| Janet Miles | Wester Ross Biosphere | Hwy | Cyfarwyddwr | 1 | 5,450 | Dd/B | 0 |
| Jackie Brock | The Yard Scotland | Hwy | Ymgynghorydd | 2 | 130,000 | Dd/B | 0 |
| John Mothersole | Cyngor Dinas Sheffield | Hwy | Cyn Brif Weithredwr / Cyn gyflogai | 0 | 0 | Dd/B | 1,067,698 |
| | Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Gateshead | Merch | Cyflogai | 0 | 0 | Dd/B | 1,820,156 |
| Kevin Bone | Pilotlight Ltd | Hwy | C24 | 1 | 289,061 | Dd/B | 189,553 |
| | Learning Partnerships | Hwy | Mentor | 1 | 488,473 | Dd/B | 488,473 |
| Lindsay Graham | Mayor's Fund for London | Hwy | Ymgynghorydd | 0 | 0 | Dd/B | 114,000 |
| Maggie Jones | Womens Health Matters Leeds | Plant | Cyswllt Perthynas Agos | 1 | 9,998 | Dd/B | 0 |
| | ACEVO Solutions Limited | Hwy | Aelod | 1 | 119,445 | Dd/B | 0 |
| | Better Connect Ltd | Hwy | Cyswllt gyda mudiad cysylltiedig | 0 | 0 | Dd/B | 438,563 |
| | Caritas Care Ltd | Hwy | Prif Weithredwr | 1 | 125,571 | Dd/B | 0 |

| Enw | Enw'r Mudiad | Natur y berthynas | Natur y berthynas | Dyfarniadau a wnaed yn 2022/23 | | Tynnu'n ôl o'r penderfyniad dyfarnu | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Martin Johnstone | Home-Start Glasgow South | Priod/Partner | Cyswllt Perthynas Agos | 0 | 0 | Dd/B | 78,884 |
| | Cyrenians | Plant | Cyswllt Perthynas Agos | 3 | 240,763 | Dd/B | 230,763 |
| | Home Start Renfrewshire ac Inverclyde | Priod/Partner | Cyswllt Perthynas Agos | 1 | 9,972 | Dd/B | 0 |
| | The Pyramid at Anderston | Hwy | Connected via Faith in Community (Yr Alban) | 2 | 37,500 | Dd/B | 0 |
| | Grassmarket Community Project | Hwy | Ymddiriedolwr | 2 | 96,341 | Dd/B | 38,266 |
| Nick Garbutt | CO3 | Hwy | Ymgynghorydd | 0 | 0 | Dd/B | 99,845 |
| Nicola Russell-Brooks | NCVO | Hwy | Ymgynghorydd | 1 | 10,000 | Dd/B | 0 |
| | Paul Sartori Hospice at Home | Hwy | Mentor | 1 | 5,604 | Dd/B | 0 |
| | Prosiectau elusennol | Hwy | Ymgynghorydd | 0 | 0 | Dd/B | 54,122 |
| | Pobl Ifanc Abergwaun ac Wdig | Hwy | Cysylltiedig trwy fentoriaeth Busnes Cymru | 0 | 0 | Dd/B | 36,362 |
| | Cyngor ar Bopeth Ceredigion | Hwy | Gwirfoddolwr | 1 | 99,950 | Dd/B | 0 |
| Norman McKinley | Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig | Hwy | Cyfarwyddwr | 1 | 494,519 | Dd/B | 290,890 |
| Paul Sweeney | The John Hewitt Society | Hwy | Aelod Bwrdd | 1 | 10,000 | Dd/B | 0 |
| Peter Stewart | Eden Project | Hwy | Cyfarwyddwr Gweithredol | 0 | 0 | Dd/B | 752,725 |
| Richard Collier-Keywood | Yr Ysgol Entrepreneuriaid Cymdeithasol | Hwy | Cadeirydd | 1 | 170,000 | Dd/B | 0 |
| | Fair4All Finance | Hwy | Cadeirydd | 2 | 45,400,000 | Dd/B | Dd/B |
| Rachael Robathan | Cyngor Dinas Westminster | Hwy | Cynghorydd/Aelod y Cabinet | 0 | 0 | Dd/B | 1,071,947 |
| Simone Lowthe-Thomas | Asiantaeth Ynni Hafren Gwy Cyf | Hwy | Cyflogai cyflogedig blaenorol | 0 | 0 | Dd/B | 221,499 |
| Stuart Hobley | Right to Succeed | Hwy | Grantî | 1 | 900,000 | Dd/B | 0 |

Nodiadau: 1. Pan gaiff ei gofnodi fel ddim yn berthnasol (Dd/B) mae'r unigolyn wedi datgan cysylltiad â'r mudiad ond ni fu'n rhan o unrhyw benderfyniad mewn perthynas â grantiau cysylltiedig.

## Atebolrwydd y Gronfa i Senedd y Deyrnas Unedig, y cyrff deddfwriaethol a llywodraethau datganoledig

Crëwyd y Gronfa, sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig, gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006, a ddiwygiodd Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac sy'n amlinellu'r prif reolau y mae'n gweithredu oddi tanynt. Mae ganddi hefyd swyddogaethau a ddynodwyd iddi o dan Ddeddfau Asedau Segur 2008 i 2022.

Mae'r Gronfa'n gorff cyhoeddus anadrannol ac yr wyf (David Knott) yn llawn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig am ein hariannu. Mae gorchmynion penodol sy'n gysylltiedig ag arian Loteri a chyfrifon segur yn cael eu gwneud gan Senedd y Deyrnas Unedig neu Senedd Yr Alban, Senedd Cymru neu Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon ond gweithredir y prif oruchwyliaeth o'r Gronfa gan y llywodraeth trwy gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan weinidogion.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn atebol am Gronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol a hefyd yn benodol yn Lloegr, tra bod y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ariannol a chyfrifon i'r Gronfa mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn rheoleiddio systemau a phrosesau'r Gronfa.

Noddwr polisi'r Gronfa yw'r Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon

(DCMS). Mae Gweinidog yr adran noddi yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddosbarthu arian yn gyffredinol ledled y DU ac polisi mewn perthynas ag ariannu a ddosberthir yn y gwledydd hynny. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi cyfarwyddyd tebyg mewn perthynas ag arian cyfrifon segur. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn gynwysedig o dudalen 175 o'r adroddiad hwn.

O fewn fframwaith y cyfarwyddiadau hyn mae'r Gronfa yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar ba raglenni y dylai eu rhedeg a pha grantiau y dylai eu gwneud.

Mae'r Gronfa'n cymhwyso arweiniad Trysorlys EF a Swyddfa'r Cabinet mewn Llywodraethu Corfforaethol adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau ei fod yn berthnasol i gyrff cyhoeddus anadrannol. Rwyf wedi fy modloni bod yr egwyddorion yn yr arweiniad, ynghyd â ffynonellau arweiniad eraill ar arfer da mewn llywodraethu corfforaethol wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn nhrefniadau llywodraethu'r Gronfa.

Mae'r Gronfa wedi cydymffurfio â Hysbysiad diweddaraf Trysorlys EF ynghylch sancsiynau ariannol yn erbyn Rwsia. Nid yw'r Gronfa'n cynnal unrhyw gyfrifon nac yn dal unrhyw gronfeydd, buddsoddiadau, rhoddion nac adnoddau economaidd gan y personau/mudiadau a restrir yn Hysbysiad diweddaraf Trysorlys EF ar Sancsiynau Ariannol, Rwsia.

### Archwilwyr

O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, mae'n rhaid i'n cyfrifon blynyddol gael eu harchwilio a'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nid oedd unrhyw ffioedd ar gyfer gwasanaethau nad oeddent yn ymwneud ag archwilio gan archwilwyr allanol.

### Ansawdd data a diogelu data

Rydym yn trin ein rhwymedigaethau diogelu gwybodaeth fel mater o'r bwys pennaf ac, o dan weithdrefnau craffu a chynghori'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau, aseswn ddigonolrwydd ein mesurau diogelu gwybodaeth yn rheolaidd.

Daeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i rym ym mis Mai 2018 ac, yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020, daeth GDPR y DU i rym. Mae GDPR y DU, ochr yn ochr â Deddf Diogelu Data ddiwygiedig 2018 a'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (PECR) yn llywodraethu'r holl brosesu data personol gan unigolion yn y DU (Deddfwriaeth Diogelu Data'r DU). Mae GDPR y DU yn cadw'r GDPR mewn cyfraith ddomestig ond mae gan y DU yr annibyniaeth i barhau i adolygu'r fframwaith. Mae'r GDPR a GDPR y DU yn gosod mwy o reolaethau ar fudiadau o ran eu cyfrifoldebau am brosesu data personol. Mae llawer o sail gyfreithlon y Gronfa ar gyfer prosesu data personol yn cael ei galluogi gan ein statud lywodraethol a Chyfarwyddiadau Polisi gan DCMS. Rydym wedi addasu ein prosesau a'n hymagwedd i sicrhau ein bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn Neddfwriaeth Diogelu Data'r DU. Rydym wedi diweddaru ein cytundebau grant ac wedi ystyried yn ofalus drefniadau gyda Deiliaid Grant a budd-ddeiliaid eraill ar gyfer prosesu eu data personol, gan gynnwys unrhyw ofynion ychwanegol sy'n berthnasol i ddata personol categori arbennig.

Nid oedd unrhyw doriadau data adroddadwy yn 2022/23.

### Deiliad gwybodaeth y sector cyhoeddus

Fel pob corff cyhoeddus, mae'r Gronfa yn ddeiliad gwybodaeth sector cyhoeddus. Nid yw felly wedi codi tâl am ailddefnydd penodol o wybodaeth.

### Ychwanegedd

Yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol adrodd am eu polisïau a'u harferion ychwanegedd. Mae ychwanegedd yn egwyddor bwysig ein hariannu. Mae'r Gronfa'n defnyddio'r diffiniad a ganlyn: "Dylid defnyddio arian y loteri genedlaethol i ariannu prosiectau, neu agweddau ar brosiectau, y byddai ariannu yn annhebygol o fod ar gael ar eu cyfer gan Lywodraeth y DU neu'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Gelwir hyn yn 'egwyddor ychwanegedd' gan sicrhau bod datblygiad rhaglenni ac ariannu prosiectau yn ychwanegol at ac yn wahanol i ariannu'r llywodraeth, tra'n ategu ac yn ychwanegu gwerth ato mewn meysydd o ddiddordeb polisi cilyddol."

Roedd yr holl ddyfarniadau a wnaed yn 2022/23 yn cyfateb i'r diffiniad hwn o ychwanegedd. Yn ychwanegol at y diffiniad hwn, mae'r Gronfa hefyd yn ystyried y ddarpariaeth a ganlyn ar ychwanegedd a ddisgrifir yn ein cyfarwyddiadau polisi. "YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at gyrchnodau'r Gronfa, ychwanegu gwerth atynt a bod yn unigryw iddynt."

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 36A Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006), mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyfarwyddo'r Gronfa Loteri Fawr i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a amlinellir yng Nghyfarwyddiadau'r Cyfrifon. Paratoir y Cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddo ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ac o'i hincwm, ei gwariant, datganiad sefyllfa ariannol a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u disgrifir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Gronfa, ymgymeraf â chyfrifoldeb dros yr

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a'r farn y mae ei hangen i bennu eu bod yn deg, cytbwys ac yn ddealladwy. Cadarnhaf fod yr adroddiad hwn yn gyffredinol yn bodloni'r gofynion hynny yn fy marn i.

Mae DCMS wedi penodi Prif Weithredwr y Gronfa yn Swyddog Cyfrifyddu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Gronfa, wedi'u disgrifio yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i bennu bod archwilwyr y Gronfa'n ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd yr wyf yn gwybod, does dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

## Cyfrifoldebau dirprwyedig

Pryd bynnag y bo'n briodol, mae'r Gronfa wedi ceisio defnyddio pwerau dirprwyo y darparwyd ar eu cyfer gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. O ganlyniad i hyn, gall partïon eraill fod yn atebol am rai rhaglenni dyfarnu neu elfennau ohonynt.

### Cynlluniau ar y cyd

Mae'r Gronfa wedi ymgymryd â chynlluniau ar y cyd, fel y'u diffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, i ddarparu ariannu ochr yn ochr â chyrff eraill er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddiffiniwyd gan y Gorchymyn Cynllun ar y Cyd perthnasol. Yn y cynlluniau hyn mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau:

- y cymhwysir arian Y Loteri Genedlaethol a ddyrennir gan y Gronfa yn unol â'n pwerau cyfreithiol;
- defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o arian y Loteri Genedlaethol a ddyrennir gan y Gronfa i'r rhaglen;
- bod y systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas i'r diben;
- bod y mecanwaith ar gyfer dyrannu costau gweinyddol y rhaglen yn cael ei gytuno ar y cyd rhwng y dosbarthwyr Loteri Genedlaethol sy'n cymryd rhan.

Yn ystod 2022/23, mae'r Gronfa wedi cymryd rhan yn y cynllun canlynol ar y cyd:

- Parks for People - cynllun a weinyddwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ar ran Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

### Mudiadau dirprwyo

Mae'r Gronfa wedi defnyddio'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddirprwyo'r cynlluniau grant a restrir isod i fudiadau. Mae'r cytundeb dirprwyo rhwng y Gronfa a'r mudiad dirprwyo'n amlinellu cyfrifoldeb Prif Weithredwr y mudiad dirprwyo i sicrhau bod y systemau a roddir ar waith i weinyddu ceisiadau'r Loteri Genedlaethol ac i brosesu a monitro grantiau'r Loteri Genedlaethol yn dderbyniol ac yn addas i'r diben a bod arian y Loteri Genedlaethol yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd gywir a phriodol.

Mae Prif Weithredwr y Gronfa yn cadw'r cyfrifoldeb dros ddiogelwch cyffredinol yr arian cyhoeddus a ddaw o'r Loteri Genedlaethol a dros sicrhau bod mudiadau dirprwyo'n gweithredu o fewn telerau a gytunir arnynt ac yn unol â chyfarwyddiadau ariannol a pholisi.

### Ein mudiadau dirprwyo

#### Fel rhan o'r Gronfa Dwf

- Community Impact Partnership
- BIG Issue Access Ltd
- Cultural Impact Loans
- Devon Community Foundation
- GMCVO
- Homeless Link Social Investment Ltd
- Kent Community Foundation
- Somerset Community Foundation
- Sporting Capital Ltd
- UnLtd
- First Ark
- Key Fund
- Resonance

#### Fel rhan o raglen Cronfa #iwill

- Sport England
- Co-operative Community Investment Foundation
- Awdurdod Llundain Fawr
- Clarion Futures
- Ormiston Trust
- Sefydliad Paul Hamlyn
- UK Community Foundations
- Ymddiriedolaeth Ysbryd 2012
- Young Manchester
- Plant mewn Angen y BBC
- Ernest Cook Trust
- Dunhill Medical Trust
- Premier League Charitable Fund
- Bite Back 2030
- The Dulverton Trust
- Impetus – The Private Equity Foundation
- Sovereign Housing Association Limited
- Virgin Money Foundation

#### Fel rhan o raglen Partneriaeth

- Yr Ysgol Entrepreneuriaid Cymdeithasol
- Consortiwm o Fudiadau Gwirfoddol a Chymunedol Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol
- Community Links Bromley
- Y Sefydliad Entrepreneuriaid Cymdeithasol
- Big Issue Invest Ltd
- Community Land and Finance CIC
- Key Fund
- Buttle UK
- Smallwood Trust

#### Fel rhan o Ymddiriedolaeth y Loteri Ynys Manaw

- Ymddiriedolaeth y Loteri Ynys Manaw

#### Fel rhan o raglen Reaching Communities

- Cripplegate Foundation

#### Fel rhan o raglen Tlodi Gwledig

- Asiantaeth Ynni Hafren Gwy Cyf

#### Fel rhan o raglen Cronfa Gweithredu Hinsawdd

- Cumbria Action for Sustainability
- Voluntary Action Leeds
- Lancaster District Community and Voluntary Solutions
- The Women's Environment Network Trust

#### Fel rhan o raglen Tyfu Syniadau Gwych

- Transition Network

#### Fel rhan o raglen Cyfrifon Segur Gogledd Iwerddon

- Arts & Business Northern Ireland

## Y datganiad llywodraethu

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, fy nghyfrifoldeb i yw'r datganiad llywodraethu hwn.

Yr wyf yn gyfrifol am sicrhau trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn ar draws y mudiad cyfan i gefnogi cyflawniad cenhadaeth y Gronfa ac ar yr un pryd diogelu'r arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli a rheoleiddio adnoddau'r Gronfa yn ystod y flwyddyn. Mae'n galw ar waith Bwrdd, a phwyllgorau Archwilio a Risg a Thâl Cydnabyddiaeth y Gronfa ynghyd â'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) fel ei chorff gweithredol. Rwyf hefyd wedi adolygu ac ystyried yr adroddiad sicrwydd blynyddol a baratowyd gan yr adran Archwilio Mewnol.

### Rheolaeth weithredol

Rwy'n arwain rheolaeth weithredol y Gronfa gyda chefnogaeth UDRh a oedd â 10 aelod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r UDRh yn cwrdd yn rheolaidd gyda chyfarfodydd ffurfiol o leiaf unwaith y mis fel arfer. Mae'r UDRh yn ystyried materion polisi, strategol a gweithredol allweddol, yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar faterion sy'n gofyn am ei gymeradwyaeth ac yn goruchwylio perfformiad gweithredol ac ariannol a threfnau rheoli risg y Gronfa'n gyffredinol.

Mae aelodau'r UDRh a'u meysydd cyfrifoldeb wedi'u disgrifio ar ddiwedd yr adran hon.

Gadawodd dau aelod o'r UDRh (Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Mewnwelediad a Chyfarwyddwr Strategaeth Ariannu) y Gronfa yn ystod y flwyddyn. Penodwyd dau gyfarwyddwr parhaol newydd yn Lloegr (yn lle deiliaid swyddi interim) a phenodwyd dau gyfarwyddwr newydd ar drefniant rhannu swydd 1.2 cyfwerth ag amser llawn ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith.

Mae strwythurau rheoli gweithredol priodol yn bodoli ar draws y mudiad i oruchwylio'r holl weithgareddau a'r prosiectau a rhaglenni sy'n cael eu gweithredu ar draws y Gronfa.

### Rheoli risg

Mae'r Gronfa'n gweithredu system rheoli risg gynhwysfawr, gyda chofrestr risgiau strategol yn cael ei hadolygu bob chwarter gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risgiau o leiaf bob blwyddyn i sicrhau nad oes unrhyw hepgorion materol. Gyda chyngor ac arweiniad y Pwyllgor Archwilio a Risg ac yn dilyn argymhelliad yr UDRh, mae'r Bwrdd hefyd wedi pennu 12 thema risg i'w defnyddio i reoli ein hymagwedd at risg ac wedi cytuno i lefelau goddefiant y Gronfa ar gyfer pob un o'r rhain.

Mae cofrestrau risgiau'n cael eu cadw ar lefel cyfarwyddiaeth ac ar gyfer pob prosiect a rhaglen allweddol, ac maent yn cael eu hadolygu ar lefel uwch o leiaf bob tri mis. Mae proses yn bodoli ar gyfer esgoli materion risg sylweddol i'r UDRh ac i'r Pwyllgor Archwilio a Risg os bydd angen. Ar ben hynny, mae'r UDRh yn ystyried yn rheolaidd pa risgiau allweddol sydd â'r potensial i effeithio ar y mudiad ac yn sicrhau bod yr ymagwedd rheoli risg yn mynd i'r afael â'r rhain ar draws y Gronfa.

Mater allweddol i'r Gronfa yw cydnabod bod ein nod o helpu cymunedau ar draws y Deyrnas Unedig weithiau'n mynnu ein bod yn ariannu o dan amgylchiadau heriol ac yn cymryd risgiau o ran llwyddiant rhai prosiectau. Mae hyn yn gofyn am farn dda ar ran ein staff gwneud grantiau ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y parodrwydd i dderbyn risg a osodwn yn ein themâu ariannu a risg twyll.

Mae'r themâu risg wedi cael eu pennu gan y Gronfa i helpu ystyried y risgiau sy'n codi o ganlyniad i'w gweithgareddau ac i ddarparu ffocws wrth reoli risg. Y themâu a ystyrir mewn perthynas â rheoli risg yw:

#### 1. Ariannol

Mae'r Gronfa'n gwneud ymrwymiadau dyfarniadau ar sail bodloni rhwymedigaethau yn ymwneud â'r dyfarniadau hynny sy'n deillio o dderbynebau'r Loteri Genedlaethol yn y dyfodol. Rydym yn rheoli'r risg o anghysondebau mewn incwm trwy ragolygon arian parod cadarn. Bu'r incwm leihau yn 2022/23 ac mae'n parhau i fod yn sylweddol is na'i uchafbwynt yn 2015/16. Mae rheoli ein hatebolrwydd a llif arian yn y dyfodol wrth ystyried incwm amrywiol yn faes sy'n derbyn llawer o sylw. Yn y thema hon rydym hefyd yn ystyried y rheoliadau o ran ein costau gweithredu ac, yn benodol, sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y trothwy costau a bennir ar ein cyfer gan y llywodraeth. Rydym yn rheoli ansicrwydd ychwanegol ynghylch lefelau incwm y Loteri Genedlaethol yn y dyfodol mewn perthynas â newidiadau o ganlyniad i 4ydd dyfarniad y drwydded ar gyfer y cyfnod 2024-2034. Nid yw rhagolygon y Comisiwn Hapchwarae ar gael y tu hwnt i ddiwedd cyfnod y drwydded gyfredol, felly rydym yn parhau i gynllunio ar gyfer y dyfodol gyda'n rhagamcanion mewnol ein hunain ond gyda dull mwy darbodus nag y byddem yn ei ddefnyddio fel arfer.

#### 2. Amgylchedd Allanol

Ymhlith y risgiau a ystyriwyd yma mae'r effaith bosib ar enw da yn sgil gostyngiad yn nifer y mudiadau a ariennir a'r effaith yn y sector yn ehangach o faterion sylweddol i elusennau a grwpiau cymunedol. Ystyrir hefyd effaith cynnydd costau byw sy'n trosi i bwysau staffio, sydd yn ei dro yn rhoi pwysau ar gyllid deiliaid grantiau.

#### 3. Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Rydym yn ystyried yma effaith bosibl colli unigolion allweddol gan gynnwys newidiadau i'r Bwrdd o ganlyniad i gyfnodau penodiad yn dod i ben. Rydym hefyd yn mynd i'r afael â'r risgiau nad yw allbwn ein cynllun strategol yn cyd-fynd â diben y mudiad a'r effaith ar ein diwylliant a'n timau. Mae gan golli unigolion allweddol sy'n gweithio mewn rolau rheoli y potensial i ychwanegu ansicrwydd i dimau sydd yn ei dro yn cynyddu'r risg ariannol posib a'r risg i enw da i'r Gronfa. Mae'r Gronfa'n lliniaru'r risgiau hyn o fewn ei chynllun strategol. Fodd bynnag, mae'r Gronfa'n parhau i fod yn ymrwymedig i ddisodli unigolion allweddol cyn gynted â phosibl drwy bolisi recriwtio cadarn i wneud iawn am risgiau posibl o grisialu.

### 4. Pobl

Ymhlith y risgiau a ystyriwyd ar gyfer y thema hon mae ein gallu i wobrwyo ein timau'n briodol mewn marchnadoedd gynyddol gystadleuol; sicrhau bod ein timau'n meddu ar yr hyfforddiant a sgiliau priodol i gyflwyno ein huchelgais a'n bod yn bodloni ein hamcanion amrywiaeth o ran gweddu natur amrywiol y cymunedau a gefnogwn.

Cyflwynodd y newidiadau i ffyrdd o weithio yn y Gronfa ar ôl y pandemig risgiau newydd i'r Gronfa sydd wedi gwneud i ymrwymiadau pobl y Gronfa esblygu'n gyflym. Mae risgiau i iechyd a diogelwch galwedigaethol, lles staff, isadeiledd technoleg digonol i gefnogi cydweithwyr sy'n gweithio gartref a rheoli pobl o bell wedi dod â set unigryw o amgylchiadau. Mae'r Gronfa wedi addasu i ddiwallu anghenion yr amgylchedd gweithle sy'n esblygu yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

### 5. Gweithrediadau

Ymhlith y risgiau yn y thema hon mae'r amlygiad posib at faterion Seiberddiogelwch, sicrhau bod gennym y bensaernïaeth a systemau TG priodol i gefnogi ein dulliau gweithio a bod ein awyrgylchoedd gweithio'n briodol ar gyfer ein timau a'n hamgylchiadau. Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i'n pensaernïaeth TG dros y blynyddoedd diweddar ac yn parhau i ddatblygu ein hymagwedd i fodloni ein hanghenion i rannu gwybodaeth ar draws y Gronfa. Rydym wedi symud yn helaeth i ddarparu gwasanaethau drwy'r Cwmwl sydd hefyd wedi gofyn am newidiadau i'n hisadeileddau mewnol. Mae hyn yn cysylltu'n agos â sut rydym yn dylunio ac yn defnyddio ein cyfleusterau swyddfa ein hunain i greu lleoedd hyblyg sy'n galluogi ein timau i gydweithio'n effeithiol gan gynnwys gweithio o bell. Yn ein gweithrediadau rydym hefyd yn parhau i ystyried ein hymagwedd at reoli gwybodaeth gan gynnwys gwaredu ar ddata mewn modd priodol er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data tra'n bodloni ein hanghenion am ddata o ansawdd ar ein gweithgareddau ariannu.

### 6. Prosiectau

Rydym yn ystyried y risg o fethiant mewn prosiectau allweddol gan gynnwys y sawl sy'n ymwneud â systemau ac isadeiledd busnes a bod gennym sgiliau priodol i gyflwyno ar amser ac o fewn y gyllideb. Wrth i'r Gronfa ddechrau rhoi ei strategaeth 2030, o'r enw Cymuned yw'r man cychwyn, a gymeradwywyd yn ddiweddar, ar waith, bydd nifer o brosiectau a rhaglenni ar raddfa fawr yn gofyn am y sgiliau angenrheidiol, systemau monitro a chymorth allanol i alluogi cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn llwyddiannus ac yn amserol.

### 7. Ariannu

Rydym yn wynebu nifer o risgiau o ran ein dyfarnu grantiau, gan gynnwys y risg bosibl i enw da prosiectau neu fudiadau a ariennir sy'n methu neu nad ydynt yn bodloni'r safonau a ddisgwylir ganddynt.

Gan weithio ar y cyd â'n tîm gweithredol, mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi parhau i adolygu a datblygu ein hymagwedd at reoli risg yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod gennym ymagwedd briodol at risg. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein cofrestr risgiau corfforaethol yn cysylltu'n agos â'n nodau ac uchelgeisiau strategol.

### 8. Technoleg

Gallai risgiau o ecsbloetio gwendidau isadeiledd anhysbys a/neu heb eu cywiro arwain at wrthod gwasanaeth neu golli data. Mae defnyddio platfformau technoleg annigonol i gyflawni amcanion y Gronfa yn arwain at risg i enw da o ganlyniad i golli data cwsmeriaid, dirwyon neu doriadau eraill. Rydym yn parhau i fod yn hynod ymwybodol o natur newidiol risgiau seiber a soffistigeiddrwydd cynyddol y bygythiadau hyn. Mewn ymateb, rydym yn parhau'n ddiwyd yn ein rheolaeth o'r risgiau hyn drwy sicrhau ein bod yn cynnal ac yn profi ein trefniadau seiberddiogelwch yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol ac yn addas i'r diben.

### 9. Twyll

Rydym yn wynebu risg o dwyll drwy ecsbloetio ein rhaglenni ariannu, boed hynny drwy dwyll ceisiadau neu gamddefnyddio grant. Wrth bennu'r awydd am y risg hon, rhoddir ystyriaeth ofalus i gydbwyso ariannu arloesol i fod yn gynhwysol ac ar gael i bawb â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus. Yn ystod 2022/23 mae soffistigeiddrwydd trefniadau monitro twyll grant, dadansoddi ac adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cynyddu'n sylweddol er mwyn darparu'r sicrwydd angenrheidiol ar gyfraddau twyll grant, adenillion a diddymiadau.

### 10. Ymgysylltu

Mae'r risgiau a ystyrir o dan y thema hon yn cynnwys ein gallu i ymgysylltu'n briodol â budd-ddeiliaid allweddol, gweinidogion a'r cyhoedd er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion. Cyflwynodd y Gronfa System Rheoli Perthynas â Budd-ddeiliad newydd ym mis Mawrth 2023 i liniaru risgiau o'r fath.

### 11. Yr Amgylchedd

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni gymryd camau digonol i leihau ein heffaith amgylcheddol ein hunain, ac effaith y mudiadau a ariannwn, er mwyn osgoi colli cyfleoedd a methu â chyfrannu at sero net erbyn 2030. Rydym yn gwneud hyn drwy iteriad pellach a chynnydd yn erbyn ein Strategaeth Amgylcheddol a chynllun blynyddol.

### 12. Cyfreithiol a rheoleiddiol

Gallai methu â rhoi ystyriaeth briodol i fframwaith a statws statudol a rheoleiddio'r Gronfa fel corff cyhoeddus anadrannol neu ei rhwymedigaethau cytundebol allweddol arwain at gamau cyfreithiol (gan gynnwys adolygiad barnwrol) neu ddirwyon yn erbyn y Gronfa a niwed i'w henw da.

Mae ein system o reolaethau, ynghyd â throsolwg tîm rheoli profiadol a thîm Cyfreithiol mewnol, wedi'i dylunio i reoli risg i lefel dderbyniol. Ni all ddileu pob risg o fethiant wrth geisio cyflawni ein nodau a'n hamcanion strategol ac felly dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall ei roi.

Mae ein rheolaethau ar dwyll yn cynnwys polisi gwrth-dwyll clir a pholisi chwythu'r chwiban, ynghyd â dulliau i'r cyhoedd gyfeirio pryderon yn uniongyrchol at ein tîm archwilio ac ymchwilio.

Mae canfyddiadau adroddiadau archwilio mewnol yn cael eu hystyried gennyf i, y cyfarwyddwr perthnasol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Craffir

unrhyw adroddiadau sy'n rhoi sicrwydd cyfyngedig o ran dyluniad mesurau rheoli neu eu heffeithiolrwydd gweithredol yn fanylach. Mae camau gweithredu'n cael eu cytuno gan reolwyr wrth ymateb i bob argymhelliad a wneir, ac adroddir am gynnydd yn erbyn y rhain i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

O'r ystod o adroddiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn nodwyd rhai bylchau sylweddol yn y gweithdrefnau a'r rheolaethau mewn meysydd allweddol, ynghyd â diffyg cydymffurfio â gweithdrefnau a rheolaethau allweddol. Yn ystod 2022/23 derbyniwyd adroddiadau archwilio mewnol gyda sicrwydd cyfyngedig ar gyfer naill ai dyluniad neu weithrediad rheolaethau yn ymwneud â fframweithiau rheoli cyllid, penderfyniadau dirprwyedig a gwrth-dwyll gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r rhain wedi gwanhau system rheolaeth fewnol y Gronfa a gallent achosi i fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Gronfa fynd yn annigonol os na wneir ymdrechion i fynd i'r afael â hwy. Roedd angen sawl sicrwydd ychwanegol gan swyddogion ar y Pwyllgor Archwilio a Risg. Rhoddwyd y sicrwydd ychwanegol hwn i foddhad y pwyllgor, yn enwedig yr ymatebion cynnar ac effeithiol i fynd i'r afael yn llawn â llawer o ganfyddiadau'r archwiliad hyn.

Mae'r Gronfa'n rhoi mwyafrif ei weithgaredd archwilio mewn ar gontract allanol mewn trefniant a drefnir ar y cyd. Cafodd y contract ar gyfer yr elfen allanol o wasanaeth archwilio mewnol y Gronfa ei ail-dendro yn ystod y flwyddyn, gyda'r contractwr presennol yn cael ei ailbenodi.

Mae pob un o gyfarwyddwyr yr UDRh wedi darparu datganiad sicrwydd y maent yn gyfrifol amdano i mi. Gan alw ar y rhain a chanlyniadau adolygiadau archwilio mewnol, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi darparu adroddiad sicrwydd blynyddol ar fy nghyfer. Mae'r adroddiad yn asesu bod gan y Gronfa 'sicrwydd cyfyngedig' mewn perthynas â'i fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Mae hyn yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwaith a wnaed gan yr archwiliad mewnol yn ystod y cyfnod hwn ac ymateb y Gronfa hyd yma, ei chynlluniau a'i hymrwymiad i barhau i fynd i'r afael â'r argymhellion mwy heriol a chymhleth a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r meysydd a nodir yn y cynllun gweithredu sicrwydd cyfyngedig. Er clod iddi, mae'r Gronfa wedi cydnabod bod angen ymagwedd gydlynol i roi'r argymhellion o'r archwiliadau hyn ar waith yn effeithiol, gan groesi gwahanol dimau a pherchnogion cyfrifol i weithredu. Drwy gyflwyno system olrhain ac adrodd gyfunol, a mwy o oruchwyliaeth gan yr Uwch Dîm Rheoli, rydym wedi gallu dechrau mynd i'r afael â llawer o'r meysydd a oedd wedi gwanhau'r system rheolaeth fewnol yn flaenorol. Er bod angen gwaith o hyd i fynd i'r afael yn llawn â rhai o'r argymhellion mwy cymhleth a godwyd gan archwilio mewnol yn ystod 2022/23, mae gan y Gronfa gynlluniau ar waith i gyflawni hyn.

Cyflawnir archwiliad allanol yr Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon hyn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ymdrinnir â chanfyddiadau ac argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad allanol yn yr un modd â'r rhai o archwilio mewnol ac maent yn cael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Dechreuodd y Gronfa yn 2022/23 mewn sefyllfa o barhau i ymateb i faterion a gododd yn y flwyddyn flaenorol, yn arbennig yr ymchwiliad diwylliannol a materion eraill a arweiniodd at y Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi barn flynyddol sicrwydd cyfyngedig. Drwy gydol 2022/23 rydym wedi parhau i ymateb yn dda gyda phedwar penodiad newydd i Fwrdd y Gronfa, penodiadau newydd i bob swydd wag ar yr UDRh a gwnaed cynnydd sylweddol o ran cyflawni yn erbyn yr argymhellion a ddeilliodd o'r ymchwiliad diwylliannol a mynd i'r afael â'r materion a lywiodd y barn flynyddol sicrwydd cyfyngedig y flwyddyn flaenorol.

Mae trefniadau llywodraethu'r Gronfa wedi'u hatgyfnerthu ymhellach gyda chyflwyniad tri is-bwyllgor newydd o'r Bwrdd – y Pwyllgor Pobl, y Pwyllgor Adnewyddu Strategaeth a'r Pwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Chysylltiadau'r Llywodraeth. Bydd y Pwyllgor Pobl yn canolbwyntio ar gydweithiwr a materion diwylliannol yn dilyn y gwaith da a gyflawnwyd eisoes mewn ymateb i argymhellion ôl-ymchwiliad. Goruchwyliodd Pwyllgor Adnewyddu'r Strategaeth ddatblygiad y strategaeth newydd a bydd yn parhau yn ei lle yn y dyfodol i oruchwylio ei gweithrediad llwyddiannus. Mae'r Pwyllgor Ymgysylltu â Budd-ddeiliad a Chysylltiadau'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar sut a phryd y byddwn yn ymgysylltu orau â'n budd-ddeiliaid allweddol fel Cronfa i wneud y mwyaf o'n dylanwad, ein henw da a'n heffaith. Mae'r tri phwyllgor hyn, fel pwyllgorau eraill y Bwrdd, yn rhoi diweddariadau a sicrwydd rheolaidd i brif Fwrdd y Gronfa.

## Sicrwydd Swyddog Cyfrifyddu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gen i gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaethau mewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gronfa i ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau'r Gronfa.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae'r Gronfa wedi ennill a derbyn sicrwydd o'r ffynonellau canlynol:

### 1. Adroddiad Archwilio allanol diwedd blwyddyn

Ni chynigiwyd unrhyw addasiadau archwilio, ac ni wnaed unrhyw argymhellion blaenoriaeth uchel ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Mae gwaith archwilio allanol ar drafodion yn rhoi sicrwydd archwilio bod rheolaethau digonol ar waith, yn ogystal â sicrwydd rheoli a gafwyd o oruchwyliaeth a rheolaethau dros ddyfarniadau grant a gwariant i ddangos priodoldeb a rheoleidd-dra ein gweithgarwch ariannu.

### 2. Datganiad sicrwydd blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ac adroddiadau archwilio mewnol

At ei gilydd, mae'r adroddiad mewnol blynyddol yn rhoi sicrwydd cymedrol, sy'n welliant ar y llynedd ac yn cofnodi cyfeiriad cadarnhaol. Rwyf wedi adolygu'r adroddiad hwn yn fanwl ac rwy'n fodlon bod unrhyw feysydd perthnasol i'w nodi naill ai wedi cael sylw eisoes neu fod yna gynlluniau gweithredu diffiniedig ar gyfer gwella. Mae'r dirwedd reoli yn y Gronfa wedi'i chryfhau'n sylweddol trwy ymatebion gweithredol cydgysylltiedig yn ystod y flwyddyn, y mae canlyniadau'r rhain yn

bwydo i mewn i gynlluniau uniongyrchol a gweithrediad y strategaeth.

### 3. Datganiadau Sicrwydd Blynyddol gan gyfarwyddwyr

Fel rhan o'r broses lywodraethu a'r swyddogaeth archwilio fewnol, derbynnir datganiadau sicrwydd gan y cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau wrth sicrhau y cydymffurfir â pholisïau a gweithdrefnau'r Gronfa. Drwy gydol y flwyddyn, cafodd cyfarwyddwyr sesiynau ymsefydlu ac atgoffa lle'r oedd hynny'n berthnasol i amlinellu eu cyfrifoldebau dros sicrwydd blynyddol. Cyflwynir datganiadau sicrwydd blynyddol y Cyfarwyddwyr i mi fel Swyddog Cyfrifyddu i'w hadolygu a'u hystyried wrth baratoi'r datganiad llywodraethu hwn. Maent hefyd yn cael eu derbyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ac yn hysbysu eu barn flynyddol.

### 4. Rheoli risg

Adolygir y cofrestrau risg yn fanwl bob chwarter. Yna trafodir cofrestrau risg y gyfarwyddiaeth, a'r gofrestr risg sefydliadol gan banel cymedroli risg i benderfynu pa risgiau y dylid eu hychwanegu neu eu tynnu o'r gofrestr risg sefydliadol. Wedi hynny, mae'r Gofrestr Risg Sefydliadol yn cael ei chymeradwyo gan yr UDRh cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i'w hadolygu a'i chraffu. Arweinir fframwaith rheoli risg y Gronfa gan ofynion a argymhellir yn Llyfr Oren Trysorlys EF ac mae'n mabwysiadu'r model tair llinell o sicrwydd amddiffyn. Yn ystod 2022/23 mae gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli risg wedi'u cyflwyno sydd wedi rhoi gwell sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Er bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn ei adolygiad a chraffu ar drefniadau rheoli risg y Gronfa, y Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod arferion rheoli risg priodol ar waith.

### 5. Asesiad risg twyll a llwgrwobrwyo manwl

Craffwyd yn fanwl ar risg twyll a llwgrwobrwyo a oedd yn cynnwys cynnal cyfarfodydd manwl gyda'r penaethiaid adrannau perthnasol a staff gweithredol. Mae'r asesiad risg twyll yn dangos y prif risgiau twyll a pha reolaethau sydd gan y gronfa ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Mae risg twyll cyffredinol i'r Gronfa yn cael ei fonitro a'i adrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg drwy'r Grŵp Rheoli Risg Twyll.

### 6. Adolygiad a chymeradwyaeth yr Uwch dîm rheoli (UDRh)

Mae'r UDRh yn adolygu'r holl newidiadau i gofrestrau risg y gyfarwyddiaethau a'r gofrestr risg sefydliadol bob chwarter. Mae perchnogion risg yr UDRh hefyd yn darparu sylwebaeth berthnasol bob chwarter yn erbyn pob thema risg allweddol a ddefnyddir yn fframwaith rheoli risg y Gronfa. Bydd pob un o aelodau'r UDRh yn adolygu cofrestr risg eu cyfarwyddiaeth mewn cydweithrediad â'r tîm rheoli risg a chaiff risgiau eu hychwanegu, eu cau neu eu sgorio/eu hailsgorio yn seiliedig ar ffactorau dylanwadol amrywiol megis newidiadau yn yr amgylchedd gweithredu allanol neu mewn ymateb i ganfyddiadau archwilio mewnol.

### 7. Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod bob chwarter i adolygu a thrafod yr holl ddiweddariadau risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol trwy liniaru rheolaethau a sicrwydd rheolaethau. Yn ystod y flwyddyn mae'r pwyllgor wedi canolbwyntio ar dderbyn sicrwydd ychwanegol gan swyddogion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â phobl/AD, trefniadau diogelwch data a gwybodaeth a threfniadau atal twyll. Mae'r pwyllgor yn herio ac yn craffu ar drefniadau cofnodi risg, adrodd a sicrwydd y Gronfa, ac mae hefyd wedi gofyn am sicrwydd ynghylch ymatebolrwydd rheolwyr i roi argymhellion archwilio mewnol ar waith. Darparwyd y sicrwydd hwn i foddhad y pwyllgor.

### 8. Safonau swyddogaethol

Mae'r Gronfa'n parhau i hunanasesu o bryd i'w gilydd yn erbyn y swyddogaethau busnes a ragnodir yn Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth yn ôl yr angen. Nododd y Gronfa'r Safonau Gweithredol perthnasol a hunanasesu yn eu herbyn, gan gadarnhau cydymffurfiaeth â'r safonau cymwys hyn. Adolygodd DCMS sefyllfa'r Gronfa a chadarnhaodd ei bodlonrwydd â'n hasesiad.

### Gwerthusiad o'r Bwrdd

Yn ystod 2022/23 cychwynnodd adolygiad tair blynedd y Gronfa o drefniadau llywodraethu, a gynhelir i feincnodi yn erbyn arfer da a argymhellir. Cwblhawyd yr adolygiad hwn gan Deloitte LLP, gan ddechrau ym mis Mawrth 2023. Bydd yr adroddiad terfynol a'r canfyddiadau'n cael eu cyflwyno i Fwrdd y Gronfa ym mis Gorffennaf 2023 lle bydd meysydd i alinio trefniadau presennol y Gronfa yn well â'r arferion da a argymhellir yn cael eu hystyried. Yn ystod y flwyddyn mae materion llywodraethu sy'n codi wedi cael eu hadrodd i DCMS a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn modd llawn ac amserol ac yn unol â'r cyfrifoldebau priodoldeb a rheoleidd-dra sydd gennyf fel Swyddog Cyfrifyddu.

### Cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad

Mae gan y Gronfa system gynllunio gyda'r nod o adnabod blaenoriaethau a chynlluniau corfforaethol ym mhob cyfnod ac i weithredu fel canllaw wrth gyflwyno'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Mae cynlluniau Cyfarwyddiaethau'n cael eu datblygu ar draws y Gronfa, ac yn bwydo i mewn i'r cynllun corfforaethol cyffredinol ac amcanion personol staff.

Roedd cynllun corfforaethol 2022/23 yn cynnwys dau ddangosydd perfformiad allweddol (DPA) ariannol a phump anariannol. Cafodd y rhain eu monitro'n rheolaidd ac adroddwyd amdanynt i'r UDRh ac i'r Bwrdd, gyda chamau cywiro'n cael eu cytuno pryd bynnag y bu angen.

Adroddir ar ein perfformiad yn erbyn y DPA hyn yn adran Adroddiad Perfformiad y ddogfen hon. Bodlonwyd chwech o'r saith DPA a osodwyd ar gyfer y flwyddyn.

Coladwyd a dadansoddwyd gwybodaeth reoli allweddol ychwanegol ar gyfer yr UDRh trwy gydol y flwyddyn mewn amryw ffurfiau. Mae hyn yn cyflwyno data ar faterion megis ystadegau cyflogaeth, gwasanaethau gwneud grantiau a data ariannol arall megis ein balans yn y NLDF.

Mae ein hymagwedd at gynllunio yn parhau i esblygu ac mae wedi cefnogi ein cynlluniau a'n cyllideb ar gyfer y cyfnod

i ddod. Mae hyn yn cynnwys gosod blaenoriaethau penodol i ddatblygu yn erbyn tri nod corfforaethol.

### Asedau Segur

Mae gan y Gronfa uwch brosesau llywodraethu sydd wedi'u hen sefydlu i reoli llif ariannu'r Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur mewn ymateb i lefelau cynyddol o weithgarwch. Rydym wedi gweithio gyda DCMS i sefydlu strwythurau adrodd i sicrhau bod pob agwedd ar yr ystod o weithgareddau dyfarnu grantiau yn cael eu dylunio a'u cyflawni'n briodol, a bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gronfa yn effeithiol yn y maes hwn a'u bod yn cefnogi'r cynllun Asedau Segur cyffredinol yn briodol. Mae'r gwaith i gyflwyno gweithgareddau cyfrifon segur yn llunio rhan o'n hymagwedd gyffredinol at lywodraethu sefydliadol ar draws y Gronfa a, thrwy hynny, mae rôl y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg, Archwilio Mewnol a'r Swyddog Cyfrifyddu yn ymestyn i fynd i'r afael â'r gweithgareddau hyn ynghyd â'r sawl sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau a ariannwn trwy'r Loteri Genedlaethol.

Mae cronfeydd Asedau Segur yn parhau i gael eu dosbarthu er mwyn cael effaith a dod â budd i'n cymunedau.

### Arian trydydd parti

Mae'r Bwrdd (neu gynrychiolwyr trwy bwyllgorau perthnasol) yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau trydydd parti am waith trydydd parti; gan ystyried, ar gyfer pob cynnig, a yw'n briodol, neu a allai fod yn briodol i'r Gronfa ymgymryd â hi ac a yw'n gyson â'n strategaeth ariannu trydydd parti a'r egwyddorion yn y fframwaith strategol. Rydym yn cymhwyso risgiau a chyfundrefn reoli i bob cyfle yn unol â'r dasg a bennir gan y cleient, gan sicrhau nad oes unrhyw risg y bydd arian Loteri'n cael ei roi mewn perygl neu y bydd gwaith nad yw'n ymwneud â'r Loteri'n cael ei groes-gymorthdalu.

### Trefniadau dirprwyedig ac ymddiriedolaeth

Mae'r Gronfa'n dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i fudiadau eraill, fel a ddisgrifir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Cyflawnir gwaith diwydrwydd dyladwy cymesur ar lywodraethu a systemau mudiadau dyfarnu arfaethedig cyn dyfarnu grantiau. Mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n weithredol ac mae trefniadau archwilio mewnol ac allanol priodol yn cael eu cymhwyso hefyd. Mae Cytundebau Dirprwyo Allanol (cytundebau cyfreithiol rhwymol) yn eu lle fel mesur rheoli i liniaru risg.

Gall y Gronfa hefyd wneud dyfarniadau fel gwaddolion i ymddiriedolaethau, fel arfer wedi'u creu'n benodol at ddibenion y dyfarniad. Ymhlith yr esiamplau blaenorol o hyn mae Ymddiriedolaeth Power to Change a gafodd ei sefydlu yn 2014/15 i gefnogi mentrau cymunedol ledled Lloegr, o ysbrydoli a meithrin syniadau i helpu cymunedau i gynyddu graddfa ac ehangu eu busnesau.

Wrth sefydlu trefniadau o'r math hwn, mae'r Gronfa'n gwneud gwaith diwydrwydd dyladwy cyn y dyfarniad ac yn y rhan fwyaf o achosion yn penodi amddiffynnwr annibynnol sydd â phwerau i ystyried ac adrodd i'r Gronfa i sicrhau bod y gwaddol yn cael ei gymhwyso'n briodol yn unol â bwriad y Gronfa.

### Ein polisi ac arfer talu

Yn unol â'r canllaw Arfer Taliadau Gwell, rydym yn anelu at dalu ein holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod o dderbyn anfoneb, oni bai bod amodau a thelerau eraill wedi eu cyd-drafod. Yn 2022/23, talwyd 90% (82% yn 2021/22) o'r holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl i ni dderbyn anfoneb.

Canran y cyflenwyr a dalwyd o fewn 10 diwrnod oedd 72% yn ystod 2022/23 (43% yn 2021/22).

Roedd ein cyfanswm diwrnodau credydwyr (cyfanswm gwerth ein credydwyr ar 31 Mawrth 2023 wedi'i rannu â'r cyfanswm taliadau credydwyr yn ystod 2022/23, wedi'i fynegi mewn diwrnodau) yn 25 diwrnod (25 diwrnod yn 2021/22).

### Effaith Ymadael â'r UE

Mae'r Gronfa yn rhan o ddwy raglen ariannu weithredol gyda chyllid cyfatebol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r ariannu eisoes yn ei le trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau fel yr Asiant Reoli i gyflwyno'r grantiau hyn. Mae costau'r Gronfa i gyflwyno'r rhaglenni hyn yn cael eu sicrhau gan y Trysorlys a'r Adran Gwaith a Phensiynau am gyfnod y rhaglen gyfredol, beth bynnag y trefniadau ar gyfer unrhyw ariannu yn y dyfodol.

Nid yw gweddill gweithgareddau'r Gronfa'n ddibynnol ar ffynonellau ariannu ar draws ffiniau na chwaith ydyw'n dibynnu ar wasanaethau arwyddocaol o endidau'r Undeb Ewropeaidd. Ni welwyd unrhyw effaith sylweddol ar y Gronfa hyd yma yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r prif newidiadau i'r Gronfa a ddaeth yn sgil ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd wedi bod yn gysylltiedig â'r newid o orfod cydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE i gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau newydd y DU a lywodraethir gan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Mae telerau ac amodau grant a phrosesau mewnol y Gronfa wedi'u diweddaru i adlewyrchu a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd ac nid yw'r effaith ar weithgareddau'r Gronfa wedi bod yn sylweddol.

### Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheoli mewnol

Yn fy marn i ac wedi'i chefnogi gan adroddiad sicrwydd y Pennaeth Archwilio Mewnol, mae systemau llywodraethu a rheoli mewnol y Gronfa yn ddigon i'm galluogi fi i sicrhau cydymffurfiad y Gronfa Loteri Fawr â Deddfau'r Loteri Genedlaethol, Deddf Asedau Segur 2008 i 2022 a'r cyfarwyddiadau polisi, ariannol a chyfrifyddu a gyhoeddir oddi tanynt.



David Knott
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

30 Mehefin 2023

# Ein hadroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

## Aelodaeth, presenoldeb mewn cyfarfodydd a thâl cydnabyddiaeth y Bwrdd a phwyllgorau yn ystod y flwyddyn

### Aelodau Bwrdd

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23* | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22* |
|---|---|---|---|---|
| Blondel Cluff CBE | Cadeirydd, Bwrdd Deyrnas Unedig | 5/5 | 47,984 | 75,000 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 4/4 | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth | 1/1 | | |
| Tony Burton CBE | Aelod, Bwrdd y DU (tan 20 Awst 2021) | 0/0 | - | 3,270 |
| Perdita Fraser | Aelod, Bwrdd y DU (tan 31 Mai 2022) | 0/0 | 1,308 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 31 Mai 2022) | 0/0 | | |
| Elizabeth Passey | Aelod, Bwrdd y DU (tan 31 Mai 2022) | 0/0 | 1,308 | 7,848 |
| Rachael Robathan | Aelod, Bwrdd y DU (tan 31 Mai 2023) | 4/5 | 7,848 | 7,848 |
| | Aelod, is-bwyllgor pobl (tan 31 Mai 2023) | 1/1 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (tan 31 Mai 2023 | 1/1 | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23* | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22* |
|---|---|---|---|---|
| Sir Adrian Webb | Cadeirydd, Pwyllgor Cymru (tan 3 Mehefin 2021) | 0/0 | - | 13,285 |
| | Aelod, Bwrdd y DU (tan 31 Rhagfyr 2021) | 0/0 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (tan Mehefin 30) | 0/0 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 31 Rhagfyr 2021) | 0/0 | | |
| Simone Lowthe-Thomas | Cadeirydd, Pwyllgor Cymru (o 1 Gorffennaf 2021) | 4/4 | 24,000 | 18,000 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 4/4 | | |
| | Aelod, Bwrdd y DU (o 1 Gorffennaf 2021) | 5/5 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 2/3 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor ymgysylltu â budd-ddeiliad a chysylltiadau'r llywodraeth | 5/5 | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23* | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22* |
|---|---|---|---|---|
| Paul Sweeney | Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (o 1 Mehefin 2021) | 10/10 | 24,000 | 20,000 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 4/4 | | |
| | Aelod, Bwrdd y DU (o 1 Mehefin 2021) | 5/5 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu | 3/3 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor ymgysylltu â budd-ddeiliaid a chysylltiadau'r llywodraeth | 5/5 | | |
| Emma Boggis | Aelod, Bwrdd y DU | 4/5 | 9,240 | 11,027 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 16 Hydref 2022) | 4/5 | | |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 17 Hydref 2022) | | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 2/3 | | |





| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23* | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22* |
|---|---|---|---|---|
| Danielle Walker-Palmour | Aelod, Bwrdd y DU | 5/5 | 7,848 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r DU (tan 31 Rhagfyr 2021) | 0/0 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu | 2/3 | | |
| John Mothersole | Aelod, Bwrdd y DU | 5/5 | 24,000 | 24,000 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 2/4 | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr | 8/8 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor ymgysylltu â budd-ddeiliaid a chysylltiadau'r llywodraeth | 5/5 | | |
| Kate Still | Is-gadeirydd, Bwrdd Deyrnas | 5/5 | 30,526 | 24,000 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r Deyrnas Unedig | 4/4 | | |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban | 7/7 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Pobl | 1/1 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor ymgysylltu â budd-ddeiliaid a chysylltiadau'r llywodraeth | 5/5 | | |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23* | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22* |
|---|---|---|---|---|
| | Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth | 1/1 | | |
| Richard Collier-Keywood | Aelod, Bwrdd y DU (o 12022 Gorffennaf 2023) | 4/4 | 7,081 | - |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 17 Hydref 2022) | 4/4 | | |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 3/3 | | |
| Stuart Hobley | Aelod, Bwrdd y DU (o 1 2022 Gorffennaf 2023) | 4/4 | 5,886 | - |
| | Aelod, Is-bwyllgor ymgysylltu â budd-ddeiliaid a chysylltiadau'r llywodraeth | 5/5 | | |
| Peter Stewart | Aelod, Bwrdd y DU (o 12022 Gorffennaf 2023) | 4/4 | 5,886 | - |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 2/3 | | |
| Helen Stephenson | Aelod, Bwrdd y DU (o 12022 Gorffennaf 2023) | 4/4 | - | - |
| | Aelod, Is-bwyllgor Adnewyddu Strategaeth | 3/3 | | |

*Gwybodaeth wedi'i harchwilio*

### Aelodau eraill - Lloegr

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Margaret Jones | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 7/8 | 7,848 | 24,000 |
| Tarn Lamb | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 28 Chwefror 2023) | 7/7 | 7,194 | 7,848 |
| Kevin Bone | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 7/8 | 7,848 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu'r DU (tan 31 Rhagfyr 2021) | 0/0 | | |
| Rosie Ginday | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 7/8 | 7,848 | 7,848 |
| Ray Coyle | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 8/8 | 7,848 | 5,886 |

### Aelodau eraill - Yr Alban

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Jackie Brock | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 6/7 | 5,232 | 5,232 |
| Grant Carson | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 31 Mawrth 2022) | 0/0 | - | 5,232 |
| Lindsay Graham | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 4/7 | 5,232 | 5,232 |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Aaliya Seyal | Aelod, Pwyllgor Yr Alban<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu'r DU (tan 31Rhagfyr 2021) | 6/7<br>0/0 | 5,232 | 5,232 |
| Martin Johnstone | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 6/7 | 5,232 | 5,232 |
| Janet Miles | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 7/7 | 6,040 | 6,152 |
| Naila Wood | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 1 Mehefin 2022) | 5/6 | 4,683 | - |

## Aelodau eraill - Cymru

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Rona Aldrich | Aelod, Pwyllgor Cymru (tan 31 Gorffennaf 2021) | 0/0 | - | 1,744 |
| Trystan Pritchard | Aelod, Pwyllgor Cymru (o 1 Hydref 2021) | 4/4 | 5,232 | 3,052 |
| Kate Young | Aelod, Pwyllgor Cymru (o 1 Hydref 2021) | 4/4 | 5,232 | 2,616 |
| Gwenllian Lansdown Davies | Aelod, Pwyllgor Cymru (o 1 Hydref 2021) | 3/4 | 5,232 | 1,744 |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Sian Callaghan | Aelod, Pwyllgor Cymru (tan 31 Ionawr 2022)<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu'r DU (tan 31 Rhagfyr 2021) | 0/0<br>0/0 | - | 4,360 |
| Nicola Russell-Brooks | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 5,232 | 5,232 |
| Fadhili Maghiya | Aelod, Pwyllgor Cymru | 3/4 | 5,232 | 5,232 |

## Aelodau eraill - Gogledd Iwerddon

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Dr Michael Dobbins | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (tan 31 Hydref 2021) | 0/0 | - | 3,052 |
| Tony Doherty | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (tan 31 Hydref 2021) | 0/0 | - | 3,052 |
| Charles Mack | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (tan 31 Hydref 2022) | 5/6 | 3,052 | 5,232 |
| Eileen Mullan | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (tan 31 Hydref 2021)<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu'r DU (tan 31 Hydref 2021) | 0/0<br>0/0 | - | 3,052 |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Sandra McNamee | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (tan 31 Hydref 2022) | 5/6 | 3,052 | 8,310 |
| Nick Garbutt | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (o 1 Tachwedd 2021) | 10/10 | 5,232 | 2,180 |
| Cara Cash-Marley | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (o 1 Tachwedd 2021) | 6/10 | 5,232 | 2,180 |
| Kate Clifford | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 7/10 | 5,232 | 5,232 |
| Anne-Marie McClure | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (o 1 Tachwedd 2022) | 2/4 | 2,180 | - |
| Norman McKinley | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (o 1 Tachwedd 2022). | 2/4 | 2,180 | - |

### Aelodau eraill - Pwyllgor Archwilio a Risg

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2022/23 | Tâl cydnabyddiaeth 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Ruth Marchington | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/5 | 1,744 | 1,744 |
| Charlotte Moar | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/5 | 1,744 | 1,744 |



### Yr Uwch Dîm Rheoli

**Prif Weithredwr**
David Knott

**Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu**
Emma Ackerman (tan 26 Awst 2022)

**Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon**
Kate Beggs

**Cyfarwyddwr Lloegr, Strategaeth, Partneriaethau ac Ymgysylltu**
Phil Chamberlain (o fis Mehefin 2022)

**Cyfarwyddwr Lloegr, Rhaglenni, Gweithrediadau a Rhanbarthau**
Emma Corrigan (o fis Gorffennaf 2022)

**Cyfarwyddwr Lloegr Dros Dro**
Jonathan Eastwood (tan Mehefin 2022)

**Cyfarwyddwr Cyllid**
Stuart Fisher (o Ionawr 2022)

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol**
Neil Harris

**Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Mewnwelediad**
Faiza Khan MBE (tan 15 Awst 2022)

**Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith**
Laura Lucking and Verity Prime (o fis Tachwedd 2022)

**Cyfarwyddwr Lloegr Dros Dro**
Mark Purvis (tan Mehefin 2022)

**Cyfarwyddwr yr Alban**
Neil Ritch

**Cyfarwyddwr Cymru a Chyfarwyddwr y Cenhedloedd**
John Rose

### Llywodraethu

Mae gan Bwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth y Bwrdd gyfrifoldeb i:

- cytuno ar amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- penderfynu ar arfarniad perfformiad a thâl cysylltiedig y Prif Weithredwr
- pennu tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr
- cymeradwyo arfarniadau perfformiad a thâl cysylltiedig cyfarwyddwyr, a
- phenderfynu ar delerau diswyddo ar gyfer y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr.

Ar gais Cadeirydd y Pwyllgor, mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Pobl neu swyddogion eraill yn dod i gyfarfodydd ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.

Mae penderfyniadau'r Pwyllgor yn amodol ar:

- gydymffurfio â'r arweiniad tâl a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet/Trysorlys EF sy'n berthnasol i dâl cydnabyddiaeth staff yn gyffredinol
- cymeradwyaeth gan DCMS o amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- cymeradwyaeth gan DCMS o unrhyw daliadau terfynu i'r Prif Weithredwr.

### Polisi tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol

Mae ein polisi yn cynnig tâl cydnabyddiaeth sy'n galluogi'r Gronfa i ddenu, cadw a symbylu unigolion hynod alluog sydd â'r sgiliau a'r galluoedd i arwain a rheoli'r mudiad. Wrth wneud hyn, mae'r polisi'n ceisio darparu tâl cydnabyddiaeth teg ar gyfer cyfraniadau a chyfrifoldeb unigol, gan ddarparu elfen o dal ar sail perfformiad.

Mae Cyfarwyddwyr, gan gynnwys y Prif Weithredwr, yn derbyn cyflog sylfaenol a thâl ar sail perfformiad. Mae'r amodau a thelerau cyflogaeth eraill yr un â chyflogeion eraill y Gronfa. Mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r holl gyfarwyddwyr ar gontractau parhaol (ac eithrio pan fônt yn destun trefniadau dros dro neu interim) yn amodol ar dri mis o rybudd. Telir unrhyw daliadau terfynu yn unol â chynllun iawndal y gwasanaeth sifil.

Pennir unrhyw gynnydd yng nghyflog y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth; ar gyfer 2022/23 roedd cynnydd o 1% (2021/22 0%). Cymeradwyir unrhyw gynnydd blynyddol yng nghyflogau'r Cyfarwyddwyr eraill gan y Prif Weithredwr, gan adlewyrchu canlyniad dyfarniad tâl y staff yn gyffredinol.

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i daliad ar sail perfformiad gwerth hyd at 12% o'i chyflog sylfaenol. Mae gan y Cyfarwyddwyr eraill hawl i daliad gwerth hyd at 8% o'u cyflog sylfaenol. Mae taliadau ar sail perfformiad yn anghyfunedig (hynny yw, nid ydynt yn cael eu hychwanegu at y cyflog sylfaenol, ac mae'n rhaid eu hennill eto bob blwyddyn. Nid ydynt wedi'u cynnwys mewn tâl pensiynadwy. Ni chymeradwywyd unrhyw daliadau ar sail perfformiad cyfarwyddwr na phrif weithredwr i'w talu yn 2022/23.

Nid oes unrhyw un o'r cyfarwyddwyr yn derbyn unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da. Ad-delir treuliau a geir fel rhan o'u dyletswyddau i gyfarwyddwyr ar yr yn sail â holl gyflogeion eraill y Gronfa.

Bu dau aelod o'r Uwch Dîm Rheoli adael yn ystod y flwyddyn.

Mae manylion cyflog sylfaenol, taliadau ar sail perfformiad a buddiannau pensiwn cyfarwyddwyr wedi'u hamlinellu yn y tablau isod. Gellir dod o hyd i fanylion eu treuliau ar y wefan: tnlcommunityfund.org.uk/welsh/about/our-people/senior-management-team

**Tâl cydnabyddiaeth gweithredwyr - cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth unigol (gwybodaeth wedi'i harchwilio)**

| | Cyflog 2022/23 | 2022/23 Taliadau ar sail perfformiad | 2022/23 Gwerth buddiannau pensiwn | Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth unigol 2022/23 | 2021/22 Cyflog | 2021/22 Taliadau ar sail perfformiad | 2021/22 Gwerth buddiannau pensiwn | 2021/22 Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **David Knott** (Prif Weithredwr) o fis Mehefin 2021 | 130-135 (Cyfwerth ag amser llawn 145-150) | 0-5 | 61 | 190-195 | 105-110 (Cyfwerth ag amser llawn 140-145) | Dd/B | 103 | 205-210 |
| **Emma Ackerman** (Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu) tan fis Awst 2022 | 30-35 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 75-80) | 0-5 | 6 | 35-40 | 75-80 | 0-5 | 29 | 100-105 |
| **Kate Beggs** (Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon) | 75-80 | 0-5 | 2 | 80-85 | 75-80 | 0-5 | 21 | 100-105 |
| **Phil Chamberlain** (Cyfarwyddwr Lloegr - Strategaeth, Partneriaethau ac Ymgysylltu) o fis Mehefin 2022 | 70-75 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 85-90) | Dd/B | 28 | 95-100 | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **Emma Corrigan** (Cyfarwyddwr Lloegr - Rhaglenni, Gweithrediadau a Rhanbarthau) o fis Gorffennaf 2022 | 60-65 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 85-90) | Dd/B | 25 | 85-90 | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **Jonathan Eastwood** (Cyfarwyddwr Lloegr Dros Dro) o fis Awst 2021 tan fis Mai 2022 | 10-15 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 75-80) | 0-5 | Dd/B | 10-15 | 50-55 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 75-80) | 0-5 | Dd/B | 50-55 |
| **Stuart Fisher** (Cyfarwyddwr Cyllid) o fis Ionawr 2022 | 95-100 | 0-5 | 39 | 135-140 | 20-25 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 95-100) | Dd/B | 8 | 25-30 |

| | Cyflog 2022/23 | 2022/23 Taliadau ar sail perfformiad | 2022/23 Gwerth buddiannau pensiwn | Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth unigol 2022/23 | 2021/22 Cyflog | 2021/22 Taliadau ar sail perfformiad | 2021/22 Gwerth buddiannau pensiwn | 2021/22 Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Neil Harris** (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol) | 90-95 | 0-5 | 36 | 125-130 | 90-95 | 0-5 | 35 | 125-130 |
| **Faiza Khan** (Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Mewnwelediad) tan fis Awst 2022 | 30-35 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 80-85) | 0-5 | 0 | 30-35 | 80-85 | 0-5 | 0 | 85-90 |
| **Laura Lucking** (Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith, rhannu swydd 0.6) o fis Tachwedd 2022 | 25-30 (Cyfwerth ag amser llawn/â blwyddyn lawn 50-55) | Dd/B | 1 | 25-30 | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **Verity Prime** (Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith, rhannu swydd 0.6) o fis Tachwedd 2022 | 25-30 (Cyfwerth ag amser llawn/â blwyddyn lawn 50-55) | Dd/B | 9 | 35-40 | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **Mark Purvis** (Cyfarwyddwr Lloegr Dros Dro) o fis Awst 2021 tan fis Mai 2022 | 15-20 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 70-75) | 0-5 | Dd/B | 15-20 | 45-50 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 70-75) | 0-5 | Dd/B | 45-50 |
| **Neil Ritch** (Cyfarwyddwr yr Alban) | 75-80 | 0-5 | (6) | 70-75 | 75-80 | 0-5 | 19 | 95-100 |
| **John Rose** (Cyfarwyddwr Cymru a Chyfarwyddwr y Cenhedloedd) | 85-90 | 0-5 | 11 | 100-105 | 90-95 | 0-5 | 24 | 120-125 |

**Tâl cydnabyddiaeth Gweithredwyr (Pensiynau) (gwybodaeth wedi'i harchwilio)**

| | Pensiwn cronnus ar oedran pensiynadwy ar 31/03/23 a chyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad ar oedran pensiwn | Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/03/23 | CETV ar 31/03/22 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **David Knott**<br>(Prif Weithredwr) o fis Mehefin 2021 | 30-35 | 2.5-5 | 385 | 319 | 26 |
| **Emma Ackerman**<br>(Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu) tan fis Awst 2022 | 5-10 | 0-2.5 | 93 | 84 | 0 |
| **Kate Beggs**<br>(Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon) | 25-30 plws cyfandaliad o 35-40 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 0 | 369 | 338 | (8)* |
| **Phil Chamberlain**<br>(Cyfarwyddwr Lloegr - Strategaeth, Partneriaethau ac Ymgysylltu) o fis Mehefin 2022 | 0-5 | 0-2.5 | 20 | 0 | 14 |
| **Emma Corrigan**<br>Cyfarwyddwr Lloegr - Rhaglenni, Gweithrediadau a Rhanbarthau) o fis Gorffennaf 2022 | 0-5 | 0-2.5 | 15 | 0 | 10 |
| **Jonathan Eastwood**<br>(Cyfarwyddwr Lloegr Dros Dro) - o fis Awst 2021 tan fis Mai 2022 | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **Stuart Fisher**<br>(Cyfarwyddwr Cyllid) o Ionawr 2022 | 0-5 | 0-2.5 | 28 | 5 | 15 |
| **Neil Harris**<br>(Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol) | 10-15 | 0-2.5 | 121 | 90 | 19 |
| **Faiza Khan**<br>(Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Mewnwelediad) tan fis Awst 2022 | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **Laura Lucking**<br>(Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith) o fis Tachwedd 2022 | 25-30 | 0-2.5 | 282 | 277 | (2)* |
| **Verity Prime**<br>(Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannu, Cyfathrebu ac Effaith) o fis Tachwedd 2022 | 15-20 | 0-2.5 | 245 | 228 | 4 |
| **Mark Purvis**<br>(Cyfarwyddwr Lloegr Dros Dro) o fis Awst 2021 tan fis Mai 2022 | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **Neil Ritch**<br>(Cyfarwyddwr yr Alban) | 25-30 plws cyfandaliad o 45-50 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 0 | 475 | 439 | (15)* |
| **John Rose**<br>Cyfarwyddwr Cymru a Chyfarwyddwr y Cenhedloedd | 30-35 | 0-2.5 | 554 | 499 | (1)* |

**Gan ystyried chwyddiant, mae'r CETV a ariennir gan y cyflogwr wedi gostwng mewn termau real.*

## Swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol

Penododd y Gronfa 25 o aelodau Bwrdd neu aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli yn ystod y flwyddyn y pennwyd bod ganddynt gyfrifoldeb ariannol sylweddol. Talwyd am yr holl benodiadau hyn trwy gyflogres y Gronfa.

## Lluosrifau tâl (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Rydym yn datgelu'r berthynas rhwng tâl ein cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf (y Prif Weithredwr) a thâl cydnabyddiaeth gweithwyr y Gronfa ar y 25ain, y 50fed a'r 75ain canradd.

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad A buddiannau mewn da; Mae'n eithrio taliadau terfynu. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

Band cyfanswm y cyflog plws dyfarniad perfformiad yn ystod y flwyddyn ar gyfer y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf (y Prif Weithredwr) oedd £145,000 i £150,000 (2021/22: £140,000 to £145,000 – cynnydd o 2.8%). Yn 2022/23, doedd dim (2021/22 dim) cyflogeion a dderbyniodd tâl cydnabyddiaeth sy'n fwy na'r cyfarwyddwr â'r tâl uchaf.

Y cyflog cyfartalog cymedrol ar gyfer yr holl weithwyr eraill yn ystod 2022/23 oedd £34,312 (2021/22: £33,481 – cynnydd o 2.5%). Y taliadau cyfartalog ar sail perfformiad yn ystod 2022/23 ar gyfer yr holl weithwyr eraill oedd £206 (2021/22: £238 – gostyngiad o 13.3%). Mae'r ystod tâl cydnabyddiaeth yn amrywio o'r ystod £15,000 - £20,000 i'r ystod £145,000 - £150,000.

Yn 2022/23, 25ain canradd cyflog gweithwyr y Gronfa oedd £26,407: (2021/22: £25,533), cyflog canolrifol gweithwyr y Gronfa oedd £30,000 (2021/22 £29,495), y 75ain canradd oedd £37,596 (2021/22: £36,500). Cymhareb y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf i'r 25ain canradd yw 5.6:1 (2021/22: 5.8:1), cymhareb y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf i'r canolrif yw 4.9:1 (2021/22: 5.0:1), cymhareb y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf i'r 75ain canradd yw 3.9:1 (2021/22: 4.0:1). Mae cymarebau'n parhau i fod yn gyson i raddau helaeth â'r flwyddyn flaenorol (a pholisïau tâl y Gronfa) gan nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'r strwythur tâl.

Ni thelir unrhyw fuddiannau mewn da neu fuddiannau eraill i gyflogeion felly mae'r holl symiau a chymarebau a ddyfynnir yn ymwneud ag elfennau cyflog cyfanswm tâl a buddiannau.

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV)

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn fel yr aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y buddion a brisiwyd yw buddiannau cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dilynol a delir o'r cynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw bensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Mae CETV yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau pensiwn galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan ystyrir buddiannau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023-24.

## Tâl Cydnabyddiaeth Aelodau Bwrdd a Phwyllgorau

Mae tâl cydnabyddiaeth aelodau Bwrdd a Phwyllgorau'r Gronfa wedi'i bennu gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddigidol, Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae Cadeiryddion y Bwrdd Deyrnas Unedig a'r pwyllgorau gwlad yn derbyn cyflog blynyddol yn seiliedig ar nifer y diwrnodau y mae disgwyl iddynt eu hymroi i waith y Gronfa. Disgrifiwyd y rhain yn eu llythyr penodi.

Mae'r cyfansymiau a dderbyniant wedi'u dangos yn y tabl ar dudalennau 99 i 105.

Nid yw aelodau Bwrdd a phwyllgorau'n derbyn unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da neu fuddiannau pensiwn. Ad-delir treuliau a geir fel rhan o'u dyletswyddau iddynt ar yr un sail â chyflogeion y Gronfa.

### Staff (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Roedd nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn a staff dros dro sy'n gweithio i'r Gronfa yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Nifer y staff dros dro ar 31 Mawrth 2023 | Nifer y cyflogeion ar 31 Mawrth 2023 | Cyfanswm nifer y staff ar 31 Mawrth 2023 | Cyfanswm nifer y staff ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|---|
| | (CaALl) | (CaALl) | (CaALl) | (CaALl) |
| Gwneud grantiau | 5 | 459 | 464 | 470 |
| Cefnogi cwsmeriaid a budd-ddeiliaid | 4 | 155 | 159 | 160 |
| Llywodraethu a gweinyddu | 3 | 160 | 163 | 158 |
| | 12 | 774 | 786 | 788 |

Ar 31 Mawrth 2023, cyflogodd y Gronfa 786 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2022: 788). Roedd hyn yn cynnwys 12 o gyflogeion dros dro cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2022: 11).

### Absenoldeb salwch staff

Rydym yn ymroddedig i iechyd a lles ein staff. Mae gan y Gronfa bolisi absenoldeb salwch staff cynhwysfawr ac mae'n gweithredu gweithgareddau lles a arweinir gan gyflogeion hefyd. Yn ystod 2022/23, y nifer cyfartalog o ddiwrnodau absenoldeb salwch oedd 7.6 diwrnod fesul cyflogai (6.0 diwrnod yn 2021/22).

### Trosiant

Yn 2022/23 gadawodd 135 o staff y Gronfa; mae hyn yn cynrychioli 16% o'n cyfrif pennau ar ddechrau'r cyfnod. Y nifer cyfatebol o ymadawiadau yn 2021/22 oedd 118 (14%). Mae'r Gronfa'n cydnabod y cydbwysedd rhwng cyfraddau dargadw staff iach a dod â thalent newydd i'r Gronfa.

### Pecynnau ymadael (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Er nad yw cyflogeion y Gronfa'n weision sifil, mae eu telerau cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliadau terfynu a phensiynau ymddeol yn gynnar a gyfrifir yn yr un modd â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil. Telir costau'r buddiannau hyn gan y Gronfa ac nid gan y Gwasanaeth Sifil neu gronfeydd y Trysorlys. Roedd un diswyddiad gwirfoddol o £49k a dim pensiynau ymddeoliad cynnar yn 2022/23 (2021/22: dim).

### Cyfranogiad cyflogeion

Mae gan y Gronfa berthynas adeiladol gyda'n hundebau cydnabyddedig ar y cyd, Prospect ac Unite, ac mae'n ceisio annog a dod o hyd i gyfleoedd cynnwys ac ymgynghori â chyflogeion.

Mae'r Gronfa yn cywain barn ei staff yn rheolaidd trwy ddeialog anffurfiol a thrwy arolygon cyswllt cyflogeion blynyddol ffurfiol. Mae cyngor cydweithwyr a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn yn parhau i glywed mwy o leisiau o bob rhan o'r mudiad wrth lunio'r Gronfa i fod yn lle gwych i weithio.

### Iechyd a Diogelwch

Mae'r Gronfa yn trin ei chyfrifoldebau dros Iechyd a Diogelwch ei staff, contractwyr a deiliaid grant fel mater o ddifrif. Rydym yn ceisio mabwysiadu arfer gorau wrth reoli ac adrodd ar risg. Mae newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio, gyda mwy o'n staff yn gweithio i ffwrdd o swyddfeydd penodol, wedi achosi i ni ymdrin ag unrhyw risgiau ychwanegol a allai godi.

### Penodiadau ac Ymgynghoriaeth Oddi Ar y Gyflogres

Yn ystod y flwyddyn nid yw'r Gronfa wedi ymgysylltu ag unrhyw (2021/22: dim) arolygon ffurfiol i ymgysylltu â chyflogeion.

Mae'r Gronfa wedi talu costau ymgynghori o £683,961 (2021/22: £548,284) yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â darparu cyngor ac arbenigedd na fyddem yn eu caffael fel mater o drefn i gefnogi ein gweithgareddau parhaus. Ar gyfer 2022/23, mae hyn yn cynnwys gwaith ymgynghorol sy'n ymwneud â datblygu adnewyddu'r strategaeth, ein taith dechnoleg i'r cwmwl a cham cychwynnol y rhaglen gwella sefydliadol.

### Ardoll Brentisiaethau

Mae'r ardoll brentisiaethau'n berthnasol i bob mudiad sydd â bil cyflogau dros £3 miliwn. Mae cyfraniadau at y cyfrif ardoll brentisiaethau'n 0.5% o'r cyfanswm bil cyflogau ar ôl didynnu lwfans £15,000. Cyfraniadau i'r cyfrif mewn perthynas â symiau sy'n ymwneud â Lloegr unigolion yn cael eu hychwanegu gan y llywodraeth o 10%. Gall cyflogwyr ddefnyddio'r cyfrif i dalu am weithgareddau hyfforddiant cymwys. Mae trefniadau prentisiaeth mewn perthynas â Chymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon heb eu newid.

Mae'r Gronfa wedi gwneud cyfanswm cyfraniad o £125,422 (2021/22 £122,036) at y cynllun yn ystod y flwyddyn ac yn unol ag arweiniad cyfrifyddu'r llywodraeth mae wedi dileu hwn fel cost staff o dan drethi.

Mae'r Gronfa wedi hawlio cyfanswm o £48,412 (221/22: £39,201) yn ôl mewn costau hyfforddi gan ddarparwyr priodol. Dangosir y costau hyn fel arfer fel costau hyfforddi mewn costau gweithredu gyda mantais tynnu i lawr o'r cyfrif ardoll brentisiaethau wedi'i ddangos mewn incwm fel grant gan y llywodraeth.

### Cydraddoldeb mewn cyflogaeth

Mae'r Gronfa yn ceisio bod yn gyflogwr amrywiol a chynhwysol. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein cydweithwyr yn adlewyrchu ac yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu cefnogi'n briodol. Mae ein dull recriwtio'n sicrhau ein bod yn denu ystod amrywiol o ymgeiswyr ac rydym yn defnyddio ffynonellau, sianeli, cysylltiadau, asiantaethau a dulliau hysbysebu priodol i gefnogi hyn.

Rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r holl gydweithwyr i fwyafu eu gallu i ymgymryd â rolau dros y Gronfa. Rydym

yn cefnogi ystod o gyfleoedd hyfforddi sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol, ac yn unigryw, i sgiliau y mae eu hangen i gyflawni'r rôl gan gynnwys datblygu arweinwyr a rheolwyr. Pan fydd staff yn profi problemau mynediad yn ystod eu cyflogaeth, rydym yn ceisio sicrhau eu bod yn gallu parhau i fodloni gofynion eu rôl gan gynnwys darparu cymorth a hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen. Mae'r tabl isod yn amlinellu ein hadroddiad monitro cydraddoldeb ar gyfer 2022/23.

| **Statws Anabledd** | Y Gronfa | Gwasanaeth sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| Staff sydd wedi datgan anabledd | 16.4 | 14.0 | 14.7 |
| Staff sydd heb ddatgan anabledd | 83.6 | 86.0 | 85.3 |

| **Rhywedd** | Y Gronfa | Gwasanaeth sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| Benywaidd | 69.0 | 54.5 | 47.7 |
| Gwrywaidd | 31.0 | 45.5 | 52.3 |

| **Rhywedd** | Bwrdd | Cyfarwyddwyr | Uwch Staff y Gronfa (Arweinwyr) |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| Benywaidd | 64.3 | 50.0 | 69.9 |
| Gwrywaidd | 35.7 | 50.0 | 30.1 |

| **Grŵp Ethnig** | Y Gronfa | Poblogaeth Deyrnas Unedig sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|
| | | % |
| Asiaidd | 7.5 | 5.4 |
| Du | 4.4 | 3.4 |
| Tsieineaidd | 0.2 | 0.7 |
| Cymysg | 2.1 | 1.6 |
| Arall | 0.4 | 3.3 |
| Gwyn | 84.5 | 85.5 |
| Dim gwybodaeth | 0.9 | - |
| Ddim eisiau datgan | - | - |

| **LGBT+** | Y Gronfa | Gwasanaeth sifil |
|---|---|---|
| | % | % |
| LGBT+ | 8.5 | 6.1 |
| Nad sy'n-LGBT+ | 69.0 | 93.9 |
| Anhysbys | 22.5 | - |

### Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Mae'n ofynnol i'r Gronfa adrodd ar ei pherfformiad i'r llywodraeth o dan y rheoliadau Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Mae manylion llawn ar gael ar borth bwlch cyflog rhwng y rhywiau gov.uk ac fe'u cyhoeddir ar ein gwefan. Ar draws y Gronfa'n gyffredinol, rydym yn adrodd am fwlch cyflog rhwng y rhywiau o 1.3% (2021/22 2.0%) ar gyfer cyflog canolrif tra ar gyfer tâl cymedrig, y bwlch yw 6.7% (2021/22 4.8%). Rydym yn falch o'r gostyngiad yn ein bwlch cyflog ers y llynedd a byddwn yn parhau â'r gwaith cadarnhaol rydym wedi'i ddechrau i leihau'r bwlch hwn ymhellach fyth.

### Bwlch Cyflog mewn perthynas ag Ethnigrwydd

Er na fod dyletswydd gyfreithiol arnom i adrodd ein bwlch cyflog mewn perthynas ag ethnigrwydd, rydym wedi gwneud y penderfyniad i gyhoeddi ein canlyniadau ochr yn ochr â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ar draws y Gronfa gyfan, bwlch cyflog o 1.1% (2021/22: 0.7%) ar gyfer cyflog canolrif tra ar gyfer cyflog cymedrig, y gyfradd yw minws 1.8% (2021/22: minws 2.1%). Mae'r niferoedd hyn yn parhau i fod yn gadarnhaol wrth i ni barhau i berfformio'n sylweddol well na mudiadau ledled y DU a'r Gwasanaeth Sifil yn gyffredinol.

### Amser Hwyluso Undebau Llafur

| | |
|---|---|
| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion perthnasol yr undeb yn ystod y flwyddyn ariannol | 4 |
| Nifer y cyflogeion cyfwerth ac amser llawn | 1.2 |
| Canran yr amser sy'n cael ei dreulio ar amser hwyluso gan swyddogion perthnasol yr undeb: | |
| 0% | - |
| 1-50% | 3 |
| 51-99% | 1 |
| 100% | - |
| | |
| Cyfanswm cost yr amser hwyluso | £62,154 |
| Cyfanswm cost y bil cyflogau | £37,249,854 |
| Canran y bil cyflogau sy'n cael ei threulio ar amser hwyluso | **0.2%** |
| | |
| Oriau a dreulir ar weithgareddau undeb llafur â thâl | 180 |
| Oriau a dreulir ar amser hwyluso â thâl | 2,293 |
| Canran | **7.9%** |



David Knott
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

30 Mehefin 2023





# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Senedd Gogledd Iwerddon

## Barn am ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Datganiad sefyllfa ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad incwm net cynhwysfawr, Datganiad llif arian a Datganiad newidiadau mewn ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion y Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2023 ac o'i incwm net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddir oddi tanynt.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r incwm a gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (DU) (ISAs y DU), cyfraith berthnasol a Nodyn Arfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran *cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol 2019 diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol oddi wrth y Gronfa Loteri Fawr yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

## Casgliadau yn ymwneud â'r busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad bod defnydd Cronfa'r Loteri Fawr o sail cyfrif busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi adnabod unrhyw gamddatgan materol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Gronfa Loteri Fawr i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol cyfrifyddu Cronfa'r Loteri Fawr wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle roedd yn rhagweld y byddai'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif ac adroddiad archwilydd. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a gan eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth y daethpwyd o hyd iddi yn yr archwiliad neu sydd fel arall i'w gweld yn cael ei chamddatgan yn faterol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, bod camddatgan materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Gronfa Loteri Fawr a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi adnabod unrhyw gamddatgan materol yn yr Adroddiad Perfformiad neu'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- Nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan y Gronfa Loteri Fawr na dychweliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio'n cyfateb i'r cofnodion cyfrifo a'r dychweliadau; neu
- nid yw rhai datgeliadau o daliadau a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu dilys;
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- darparu gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
| Arian cyfatebol Ewropeaidd | 38,392 | 36,725 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 2,398 | 2,677 |
| | **45,417** | **41,858** |

## 13. Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 398,650 | 263,583 |
| Enillion gan y Loteri Genedlaethol | 707,237 | 723,100 |
| Incwm buddsoddi o NLDF | 14,192 | 1,024 |
| Arian a dynnwyd i lawr o NLDF | (631,000) | (589,057) |
| Cynnydd net yn y balans | **90,430** | **135,067** |
| **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth** | **489,080** | **398,650** |

Mae'r Gronfa'n derbyn cyfran o'r arian a delir gan Grŵp Camelot plc i NLDF ar ôl didyniad ar gyfer costau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth weithredu ei swyddogaethau o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, costau'r rheoleiddiwr (y Comisiwn Hapchwarae), costau'r rheolwr buddsoddi (y Comisiynwyr Dyled Cenedlaethol) a chostau Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol.

## 14. Masnach ac arian arall a delir

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy’n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| TAW | 29 | 36 |
| Treth a nawdd cymdeithasol arall | 709 | 704 |
| Masnach daladwy | 266 | - |
| Yn ddyledus i bartner ar y cyd/mudiadau dirprwyol ar gyfer talu rhwymedigaethau grant | 1,206 | 1,632 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 2,304 | 2,484 |
| Symiau taladwy eraill | 1,298 | 1,078 |
| Croniadau grant (Nodyn 16) | 554,395 | 464,530 |
| | **560,207** | **470,464** |
| **Symiau sy’n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn** | | |
| Croniadau grant (Nodyn 16) | 457,599 | 447,340 |
| | **457,599** | **447,340** |

### Rhwymedigaethau Grant

Mae rhwymedigaethau grant ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol wedi’u dosbarthu’n ddarpariaethau os byddant yn bodloni’r meini prawf cydnabyddiaeth yn IAS37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, neu, os na fyddant, fel croniadau.

## 15. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Dadfeiliadau | Parcio ceir swyddfa Birmingham | Adolygiad rhent swyddfa Glasgow | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | | £000 |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2022 | 396 | 561 | 70 | 1,027 |
| Darpariaethau newydd a grëwyd | 805 | - | - | 805 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | (177) | - | - | (177) |
| Darpariaethau a ryddhawyd | (219) | (388) | - | (607) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **805** | **173** | **70** | **1,048** |

### Dadfeiliadau

Roedd gennym ddarpariaethau dadfeiliad yn 2021/22 mewn perthynas â’n swyddfeydd yn Llundain a Manceinion yn dilyn adleoli o dan brydlesi newydd. Yn ystod 2022/23 mae’r darpariaethau hyn wedi’u defnyddio ac nid oes unrhyw ddarpariaeth ar ôl mewn perthynas â’r swyddfeydd hyn. Mae darpariaethau newydd wedi’u creu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol sy’n ymwneud â’n swyddfeydd yn Birmingham, Newcastle a Glasgow.

### Birmingham office car parking

Yn ystod 2021/22 fe sefydlom ddarpariaeth ar gyfer costau parcio ceir ar gyfer ein swyddfa yn Birmingham, tra bod trafodaethau ar ein prydles yn parhau mewn perthynas â thaliadau parcio ceir wedi’u hôl-ddyddio o 2016 a oedd yn gyfreithiol daladwy yn unol â’r cytundeb prydles. Yn ystod 2022/23 rydym wedi gallu rhyddhau rhan o’r ddarpariaeth hon.

### Adolygiad rhent swyddfa Glasgow

Mae gennym ddarpariaeth ar gyfer codiad rhent a ddisgwylir ar ein swyddfa yn Glasgow nad ydym wedi ei chwblhau eto.

## 16. Croniadau grant

| | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symud croniadau grant** | | |
| Rhwymedigaethau grant a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill | 911,868 | 922,148 |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 703,364 | 610,069 |
| Rhwymedigaethau wedi darfod a’u diddymu | (4,379) | (3,486) |
| Rhwymedigaethau grant a fodlonwyd | (598,859) | (616,863) |

| | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Croniad a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth** | **1,011,994** | **911,868** |

| | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Dosbarthiad croniadau grant ar ddiwedd y flwyddyn** | | |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Croniadau (Nodyn 14) | 554,395 | 464,530 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn** | | |
| Croniadau (Nodyn 14) | 457,599 | 447,338 |
| **Cyfanswm croniadau grant** | **1,011,994** | **911,868** |
| **Croniadau grant sy'n heneiddio** | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 554,395 | 464,530 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd | 289,278 | 269,695 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na dwy flynedd ond llai na thair blynedd | 131,975 | 132,118 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na thair blynedd ond llai na phedair blynedd | 26,852 | 30,249 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na phedair blynedd ond llai na phum mlynedd | 7,815 | 12,902 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd | 1,679 | 2,374 |
| | **1,011,994** | **911,868** |

## 17. Rhwymedigaethau Amodol

Datgelir grantiau fel rhwymedigaethau amodol os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu trin fel rhwymedigaethau.





| | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Dyfarniadau grant a wneir gan y Gronfa nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu trin fel rhwymedigaethau | 32,675 | 110,578 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau grant amodol** | **32,675** | **110,578** |

Rydym wedi cydnabod rhwymedigaeth wrth gefn o £7.2m ar gyfer gweithgareddau a ariennir gan y Loteri nad ydynt ar hyn o bryd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cydnabod fel rhwymedigaethau.

O fewn cyfrifon segur, rydym wedi cydnabod rhwymedigaeth wrth gefn o £5.5m ar 31 Mawrth 2023 mewn perthynas â rhwymedigaethau posibl i dalu hyd at £500k y flwyddyn i The Oversight Trust - Assets for the Common Good (Big Society Trust yn flaenorol) (OST) am eu costau gweinyddol. Mae'r rhwymedigaeth bosibl hon yn unol â gweithred gytundeb rhwng OST a'r Gronfa a wnaed ar 10 Rhagfyr 2019, sy'n ddilys am 15 mlynedd o'r dyddiad hwnnw. Felly mae'r rhwymedigaeth wrth gefn a gydnabyddwn am y 11 mlynedd sy'n weddill. Yn ogystal, cydnabyddir rhwymedigaeth wrth gefn o £20m sy'n ymwneud â symiau cytundeb cyfreithiol (heb eu llofnodi) sy'n ddyledus i ddosbarthwyr dynodedig.

## 18. Cynlluniau ar y cyd

### Parks for People

Gweinyddir y cynllun hwn gan y National Heritage Memorial Fund ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb. Rydym wedi cytuno i gyfrannu hyd at £150.5 miliwn i'r cyfanswm ariannu disgwyliedig o £386 miliwn. Wedi'i gynnwys o fewn rhwymedigaethau grant does dim rhwymedigaethau grant newydd (2021/22: £0.7 miliwn) a dim rhwymedigaethau amodol, gan gynrychioli ein cyfraniad at y cynllun Parks for People ar y cyd. Mae ffigur y credydwyr yn cynnwys £1.2m (2021/22 £1.6 miliwn) sy'n ddyledus i National Heritage Memorial Fund mewn perthynas â'n cyfraniad i daliadau a wnaed ganddynt i'n derbynyddion grant.

## 19. Risgiau ariannol

### Offerynnau ariannol

Mabwysiadodd y Gronfa Safon Adrodd Ariannol Rygnwladol 9 o flwyddyn ariannol 2018/19 gan ddefnyddio'r ymagwedd gronnol. Gan nad oes gan y Gronfa pwerau benthyg, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl lawer fwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag sy'n arferol ar gyfer y cwmnïau a restrir, i'r graddau y mae'r safon yn berthnasol iddynt. Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r mudiad.

Mae hyn yn golygu bod y Gronfa yn agored i ychydig iawn o risgiau uniongyrchol o ran hylifedd, y farchnad neu gredyd.

## Risgiau hylifedd

Bodlonir gofynion arian parod ar gyfer gwariant Loteri trwy dynnu i lawr yn erbyn rhagamcaniadau angen wythnosol o'r balansau a ddelir ar ran y Gronfa gan NLDF. Ym mis Mawrth 2022 balans y gronfa oedd £399 miliwn, roedd hyn wedi codi i £489 miliwn erbyn 31 Mawrth 2023, bryd hynny roedd gwerth £898 o rwymedigaethau grant i'w talu o hyd. Wrth gyllidebu ar gyfer gwariant cyfredol, mae'r Gronfa'n cydbwyso all-lif y taliadau arian parod yn erbyn rhwymedigaethau grant ynghyd â blaen-rhagamcaniadau o incwm y Loteri. Mae'r Gronfa'n cynnal isafswm trothwy wrth gefn NLDF er mwyn bodloni ymrwymiadau yn y dyfodol.

Yn 2022/23, deilliodd £721 miliwn (87.5%) o incwm y Gronfa o'r Loteri Genedlaethol, gan gynnwys incwm o £14 miliwn a ddeilliodd o enillion buddsoddi'r balans a ddelir gyda'r NLDF. Roedd incwm o arian cyfrifon segur yn £94 m (11.4%). Mae'r incwm sy'n weddill yn swm bach o incwm adennill grant, incwm Cronfa Living Places and Spaces Fund, yn ogystal â llog banc a mân incwm.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Asedau hylifol** | | |
| Gwerth marchnad buddsoddiadau NLDF | 489,080 | 398,650 |
| Arian parod | 237,626 | 163,313 |
| **Cyfanswm** | **726,706** | **561,963** |

## Risgiau marchnad a chyfraddau llog

Mae asedau ariannol y Gronfa Loteri Fawr yn cael eu buddsoddi yn NLDF, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau isel eu risg megis bondiau llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r arian hwn. Y Comisiynwyr ar gyfer Lleihau'r Ddyled Genedlaethol (CRND) sy'n gyfrifol am fuddsoddi a rheoli'r cronfeydd hyn. Ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol, £489m oedd gwerth ein buddsoddiadau yn NLDF ar y farchnad. Ar gyfartaledd enillodd arian NLDF 2.32% yn ystod y flwyddyn. Delir y balansau arian sy'n cael ei dynnu i lawr o NLDF i dalu am ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog yn amrywiol rhwng 1.15% a 1.6% yn ystod y flwyddyn. Roedd y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £238m. Mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa'n agored i risgiau cyfraddau llog sylweddol.

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - arian y Loteri | 14,408 | 11,945 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - arian cyfrifon segur | 222,725 | 150,957 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - arian CCSF | 490 | 409 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - arian Cronfa Local Connections | 3 | 3 |
| Sterling ar gymysgedd o gyfraddau penodol - NLDF | 489,080 | 398,650 |
| | **726,706** | **561,964** |

## Risgiau credyd

Mae arian derbynadwy y Gronfa'n cynnwys balansau rhynglywodraethol Mae'r balansau rhynglywodraethol yn bennaf gyda chyd-ddosbarthwyr y Loteri ac yr oeddent oll wedi'u had-dalu neu eu cytuno erbyn cyfnod llofnodi'r cyfrifon.

## Risgiau Arian Tramor

Nid oes gan y Gronfa unrhyw asedau nad sy'n sterling ac nid yw'n agored at unrhyw risgiau yn ymwneud â chyfnewidfeydd tramor.

## Asedau ariannol fesul categori

| **Asedau yn ôl y Datganiad sefyllfa ariannol** | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Asedau anghyfredol | 2,354 | 6,225 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 489,080 | 398,650 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - arian y Loteri | 14,408 | 11,945 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - arian cyfrifon segur | 222,725 | 150,957 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - arian CCSF | 490 | 409 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - arian Cronfa Local Connections | 3 | 3 |
| | **729,060** | **568,189** |

### Prisiad Teg

Mae'r Bwrdd yn disgwyl i'r llyfrwerth gyfateb i'r gwerth teg ar gyfer yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol. Ar y sail bod:

- Yr holl adneuon arian parod mewn banciau masnachol yn y DU.

Er ein bod yn datgelu gwerth £498 miliwn o ymrwymiadau grant nad ydynt yn ddyledus i gael eu talu tan ar ôl un flwyddyn, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r Gronfa o dan rwymedigaeth gontract i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf. Mae amodau a thelerau'r grant hefyd yn darparu am stopio taliadau pa bydd arian annigonol ar gael i fodloni'r gofynion.

Mae'r holl eitemau taladwy yn ddyledus o fewn telerau contract arferol, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng llyfrwerth a gwerth teg.

### Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

| Rhwymedigaethau yn ôl y Datganiad Sefyllfa Ariannol | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Mewn llai na blwyddyn | 519,446 | 470,465 |
| Mewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy | 280,186 | 269,695 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | 216,488 | 175,269 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | 1,675 | 2,374 |
| | **1,017,795** | **917,803** |

Mae'r Datganiad sefyllfa ariannol yn datgelu'r ffigur uchod wedi'i wahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn ac mewn mwy na blwyddyn. Mae'r rhaniad hwnnw'n seiliedig ar brofiad blaenorol o symiau a dynnir i lawr gan grantïon gan nad yw ein contractau gyda grantïon yn cynnwys y cyfryw raniad.

## 20. Prydlesi

### Asedau hawl i ddefnyddio

Prydlesi eiddo yw'r unig ased hawl i ddefnyddio sydd gan y Gronfa.

| | Ar 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 15,053 |
| Ychwanegiadau | 169 |
| Ailbrisiadau | (1,689) |
| Balans ar 31 Mawrth 2023 | **13,533** |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 9,965 |
| Tâl am y flwyddyn | 1,600 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | **11,565** |
| **Llyfrwerth net** | |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **1,968** |

| | Ar 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 14,863 |
| Ychwanegiadau | 324 |
| Ailbrisiadau | (134) |
| Balans ar 31 Mawrth 2022 | **15,053** |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 7,887 |
| Tâl am y flwyddyn | 2,078 |
| Balans ar 31 Mawrth 2022 | **9,965** |
| **Llyfrwerth net** | |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **5,088** |

Roedd ychwanegiadau at asedau hawl i ddefnyddio yn ystod 2022-23 ar gyfer prydlesi newydd ar gyfer ein swyddfeydd ym Manceinion a Leeds. Digwyddodd ailbrisiadau yn ystod 2022-23 oherwydd cyfuniad o doriadau prydles yn cael eu harfer ar gyfer ein swyddfeydd yn Birmingham, Newcastle a'r Alban a rhent uwch ar gyfer swyddfeydd Birmingham a Chaerwysg.

### Atebolrwydd prydlesi

| | Ar 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | (5,198) |
| Ychwanegiadau | (137) |
| Cost ariannol | 32 |
| Rhent | 1,940 |
| Ailbrisiadau | 1,657 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **(1,706)** |

| | Ar 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | (6,338) |
| Ychwanegiadau | (324) |
| Cost ariannol | (125) |
| Rhent | 1,455 |
| Ailbrisiadau | 134 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **(5,198)** |

### Atebolrwydd prydlesi sy'n aeddfedu

| | Ar 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|
| Ddim yn hwyrach na blwyddyn | (949) |
| Hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na 5 mlynedd | (590) |
| Hwyrach na 5 mlynedd | (167) |
| | **(1,706)** |

### Prydleswyr

| | Ar 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|
| Ddim yn hwyrach na blwyddyn | 77 |
| Hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na 5 mlynedd | - |
| Hwyrach na 5 mlynedd | - |
| | **77** |

## 21. Cynlluniau pensiwn

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil a oedd newydd ei benodi a mwyafrif y rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o PCSPS. Mae pedair adran i PCSPS: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus)gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau buddiant statudol hyn yn cael eu hariannu, telir costau'r buddiannau gan arian a bennir gan Senedd y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Mae'r rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, efallai y bydd gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i fuddiannau pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw. (a gallai hyn effeithio ar y CETVs a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae buddiannau PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad diffiniedig (prynu arian) gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premiwm yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas mae Classic Plus yn gynllun cymysg, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn wedi'i ennill yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn a gronnir yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth Cynnyddu Pensiynau. Mae buddion yn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) y pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a ganiateir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond nodwch y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Ceir manylion pellach am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2022/2023, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £153,681 yn daladwy i'r cyfrif pensiwn partneriaeth (2021/22: £156,017) gyda £3,774 ychwanegol yn daladwy ar gyfer yr yswiriant buddiannau.

Ar gyfer 2022/23, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £6,865,462 yn daladwy i'r PCSPS (2021/22: £6,900, 583) ar un o bedair graddfa yn yr amrediadau isod. Caiff cyfraniadau cyflogwr eu hadolygu adeg prisiad llawn o'r cynllun. Cynhaliwyd y prisiad diweddaraf, wedi'i gyflawni gan Hewitt Bacon and Woodrow, ar 31 Mawrth 2016. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan fo'r costau'n cael eu codi, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol. Mae'r cyfraddau ar gyfer

| Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31 2023 |
|---|---|
| £23,000 a llai | 26.6% |
| £23,001 – £45,500 | 27.1% |
| £45,501 – £77,000 | 27.9% |
| £77,001 a mwy | 30.3% |

Nifer y staff y gwnaed cyfraniadau pensiwn ar eu cyfer yn 2022/23 oedd 1 classic, 5 premium, 0 nuvos, 936 alpha a 37 partneriaeth. Mae'r cyfanswm o 979 yn cynrychioli'r mwyafrif o gyfanswm yr aelodau staff unigol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.

Y lefel a ragwelir o gyfraniadau cyflogwyr i'r PCSPS ar gyfer 2023/24 yw rhwng £7,186,529 a £7,326,0765 yn seiliedig ar godiad cyflog o rhwng 3% a 5% ar lefelau cyflog 2022/23.

Fel cynllun amlgyflogwr heb ei ariannu sy'n gweithredu'n bennaf yn y sector cyhoeddus, mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cynnal trafodaethau gyda'r Llywodraeth, Undebau Llafur ac aelodau mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol, ei sefyllfa actiwaraidd a lefelau tebygol cyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr. Mewn cyffredin â'r holl brif gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill, mae'r tebygolrwydd o gynnydd yn lefel y cyfraniadau'n rhan o'r trafodaethau hyn.

2022/23 yn cyfateb i argymhellion gan yr Actiwari.

Ar hyn o bryd, mae cyflogwyr yn talu 27.34% o gyflog eu gweithwyr ar gyfartaledd fel cyfraniad pensiwn ar bensiynau Alpha a 9.71% ar bensiynau Partneriaeth. Mae'r union ffigur yn dibynnu ar gyflogau'r cyflogeion unigol.

| Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31 2022 |
|---|---|
| £23,000 a llai | 26.6% |
| £23,001 – £45,500 | 27.1% |
| £45,501 – £77,000 | 27.9% |
| £77,001 a mwy | 30.3% |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun buddiant diffiniedig amlgyflogwr, felly ni allwn adnabod ein cyfran ni o asedau neu rwymedigaethau'r cynllun.

## 22. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2023 rydym wedi dileu colledion o £865,373, gan gynrychioli 67 o ddyfarniadau (2021/22 £824,945 gan gynrychioli 56 o ddyfarniadau). Roedd dau ddilead uwchben £100,000 (2021/22: dau). Sef:

- Workers' Educational Association (Gogledd Iwerddon): £176,884

- Workers' Educational Association (Gogledd Iwerddon): £155,115

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- gwnaed grant yn anfwriadol i fudiad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiectau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant.
- Cymeradwyir taliadau ex gratia.

Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2023, gwnaed un taliad arbennig gwerth cyfanswm o £9,510 (2021/22 Un gwerth cyfanswm o £9,950) mewn perthynas â thrafodion grant.

## 23. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae'r Gronfa yn gorff cyhoeddus anadrannol. Ei hadran noddi yw DCMS. Gan hynny, mae DCMS wedi cael ei drin fel parti cysylltiedig trwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal trafodion materol amrywiol gyda DCMS a chyrff eraill yr ystyrir mai DCMS yw'r adran noddi ar eu cyfer: Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sport England a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Mae trafodion gyda DCMS yn adlewyrchu incwm a dderbyniwyd drwy Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a secondio staff i mewn. Mae trafodion gyda dosbarthwyr eraill y Loteri'n cynnwys incwm a dderbyniwyd ar gyfer rheoli dyfarniadau a darparu gwasanaethau proffesiynol.

Mae taliadau'n cael eu gwneud i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer eu gwasanaethau rhedeg rhaglenni grant.

At hynny, mae gennym nifer o drafodion materol gydag adrannau a chyrff Llywodraeth sy'n ystyried adrannau llywodraeth eraill fel eu hadrannau noddi hwy:

- Cyllid a Thollau EF mewn perthynas â thrafodion Talu wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol.
- Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi contractio rheolaeth y Gronfa Building Better Opportunities i'r Gronfa trwy DWP fel awdurdod rheoli.
- Mae'r Adran Tai, Ffyniant Bro a Chymunedau (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gynt) wedi rhoi contract i'r Gronfa i reoli Cronfa Cymunedau'r Arfordir ar gyfer portffolio Cymru.
- Mae'r Swyddfa Cymdeithas Sifil wedi rhoi contract i'r Gronfa i reoli'r Gronfa Cyfleoedd Bywyd, Gweithredu Cymdeithasol ar Sail Lle a Chronfa #iwill.

Mae Cronfa #iwill yn rhaglen ariannu ar y cyd lle mae'r Gronfa'n cyfrannu ei hadnoddau arian loteri a hefyd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau dyfarnu grantiau.

### Aelodau Bwrdd a Phwyllgorau

Mae'r Gronfa'n glynu wrth gôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau'n cadw cofrestrau buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd ac unrhyw fuddiannau uniongyrchol sy'n gwrthdaro mewn ceisiadau grant a wneir i'r Gronfa a buddiannau masnachol lle mae gan fudiadau, neu y gallai fod ganddynt, berthynas â ni.

Pan wneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor y gellid tybio'n rhesymol y byddent yn achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran grantiau i gyrff gwirfoddol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau ar y dechrau bod datgeliad yn cael ei wneud a bod yr aelod bwrdd neu bwyllgor yn gadael yn ystod unrhyw drafodaeth o'r eitem berthnasol. Mae gofyn hefyd bod cydweithwyr ar draws y Gronfa'n datgelu unrhyw fuddiannau perthnasol mewn mudiadau rydym yn eu hariannu neu a dderbyniwn geisiadau ganddynt. Mae ein gweithdrefnau'n sicrhau hefyd nad yw swyddogion grant yn ymwneud â phrosesu ceisiadau y byddai ganddynt fuddiant ynddynt.

Mae nifer o aelodau Bwrdd a Phwyllgorau wedi datgan buddiannau mewn cyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol y mae gan y Gronfa fuddiannau busnes â nhw. Datgelir yr aelod Bwrdd neu Bwyllgor, y mudiad, natur y berthynas a gwerth y trafodiad ar y Gofrestr Buddiannau ar dudalennau 72 i 75. Nid trafodion cyrff cysylltiedig yw'r rhain.

## 24. Asedau trydydd parti

Mae'r asedau hyn yn cynrychioli balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yr ydym yn rheoli rhaglenni grant ar eu rhan ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, i wneud taliadau a brosesir gan y Gronfa o dan gytundebau lefel gwasanaeth. Mae gwahaniaeth amseru symiau mewn perthynas â'r balansau hyn yn gynwysedig yn y symiau sy'n ddyledus neu'n daladwy yn y datganiad sefyllfa ariannol fel bo'n briodol.

**Ar 31 Mawrth 2023 cadwyd y balansau banc a ganlyn ar ran trydydd partïon:**

| | 31/03/2022 | Mewnlifoedd | All-lifoedd | 31/03/2023 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| DCMS : Cronfa Social Incubator, Cronfa Life Chances, Cronfa Youth Investment, Cronfa #iwill, Place Based Social Action, Cronfa Building Connections, Cronfa Safeguarding Training | 1,226 | 13,172 | 12,720 | 1,678 |
| Creative Scotland; Arian i Bawb Yr Alban | 120 | 180 | 372 | (72) |
| Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol | 525 | 3,004 | 3,357 | 172 |
| Llywodraeth Cymru; Trosglwyddo Asedau Cymunedol | 2 | - | 2 | (0) |
| Sport Scotland; Arian i Bawb Yr Alban | (734) | 1,047 | 1,321 | (1,008) |
| Llywodraeth Yr Alban; Scottish Land Fund, Delivering Financial Inclusion | 4,235 | 8,157 | 5,397 | 6,995 |
| Yr Adran Tai, Ffyniant Bro a Chymunedau; Cronfa Cymunedau'r Arfordir | 4,082 | 151 | 2,747 | 1,486 |
| Cyllid Ewropeaidd - Swyddfa'r Cabinet | 1 | 46,777 | 46,777 | 1 |
| **Cyfansymiau** | **9,457** | **72,488** | **72,693** | **9,252** |

## 25. Menter ar y Cyd - Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol

Mae Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol (NLPU) yn fenter ar y cyd rhwng gweithredwr y Loteri, y dosbarthwyr Loteri a DCMS. Sefydlwyd NLPU i gynyddu ymwybyddiaeth gadarnhaol a chefnogaeth y cyhoedd o ddosbarthu arian Loteri ar draws y Deyrnas Unedig, gan gyfrannu at iechyd cyffredinol y Loteri Genedlaethol a hyrwyddo teyrngarwch a chyfranogiad. Ariennir traean o NLPU gan weithredwr y Loteri a dau draean yn uniongyrchol gan NLDF. Mae'r cyfanswm gwariant wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i £3 miliwn. Mae'n atebol i Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys cynrychiolwyr tri budd-ddeiliad allweddol: gweithredwr y Loteri, y dosbarthwyr Loteri a DCMS, gyda'r Comisiwn Hapchwarae'n bresennol fel arsylwr.

Nid yw cyfran y fenter ar y cyd sy'n ymwneud â'r Gronfa wedi'i chyfuno o fewn y cyfrifon blynyddol o ystyried ei hanfateroldeb.

Mae mwy o wybodaeth a chyfrifon NLPU ar gael yn www.lotterygoodcauses.org.uk/cy

## 26. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2023, nid oedd gennym unrhyw ymrwymiadau cyfalaf (2021/22 £0.0 miliwn).

## 27. Asedau amodol

Mae hawl gan Ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol dderbyn cyfran o enillion o werthu tir ar Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth yn gyfnewid am gyfrannu £675m ychwanegol miliwn at ariannu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain. Mae'r trefniadau wedi'u disgrifio mewn cytundeb cyfreithiol rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac Awdurdod Llundain Fawr dyddiedig 29 Mawrth 2012 sy'n disgrifio dosbarthiad yr arian rhwng Awdurdod Llundain Fawr a dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol (trwy'r adran graidd). Disgwyliwn y bydd Awdurdod Llundain Fawr yn cyfathrebu'n uniongyrchol â Chyrff Dosbarthu'r Loteri ar ragolygon o dderbyniadau tir sy'n ddyledus i'r Loteri Genedlaethol a'r amseriad ar gyfer gwneud taliadau o'r fath.

Fel y corff olynol, gan gymryd yr eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sy'n weddill gan Gomisiwn y Mileniwm pan gafodd ei ddiddymu yn 2006, mae gan y Gronfa hawl i gyfran o'r enillion o werthu tir ar Benrhyn Greenwich a wnaed gan Awdurdod Llundain Fawr unwaith y bydd costau penodol wedi cael eu talu. Rhagwelir y bydd taliadau o £55.2m (2021/22: £47.4m yn cael eu derbyn rhwng 2016 a 2048, gyda £8.5m eisoes wedi cael ei derbyn erbyn diwedd 2022/23. Derbyniwyd £171k yn ystod y flwyddyn. Mae incwm ychwanegol o £2m wedi'i gronni ar gyfer 2022/23.

O dan darpariaethau Deddfau Asedau Segur 2008 i 2022, gall banciau a chymdeithasau adeiladu drosglwyddo arian o gyfrifon segur i Reclaim Fund Ltd (RFL), endid nid er elw sydd ag awdurdod i weithredu fel y gronfa hawlio'n ôl. Mae RFL yn trosglwyddo arian y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion yr arian cyfrifon segur i'r Gronfa Loteri Fawr. Mae RFL yn cyfrifo'r rhwymedigaeth sy'n ddyledus i'r Gronfa ac yn cydnabod hyn fel credydwr, sy'n cyfateb i ddyledwr ac incwm cysylltiedig y mae'r Gronfa'n rhoi cyfrif amdano. Yn ogystal, mae RFL yn nodi swm dros dro o incwm yn y dyfodol y gellir ei drosglwyddo i'r Gronfa. Mae'r Gronfa bellach yn cydnabod hwn fel ased wrth gefn yn unol ag IAS 37: Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol. Mae RFL wedi nodi bod y gwerth hwn yn debygol o fod rhwng £83m-£93m ar gyfer 2022/23.

## 28. Adolygiad ar ôl y fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen a hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon sy'n gofyn am addasiad i'r datganiadau ariannol. Dehonglir dyddiad awdurdodi cyhoeddi'r cyfrifon fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 29. Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws

Yn 2020/21, derbyniodd y Gronfa £200m ar ffurf grant gan y Trysorlys ar gyfer rhaglen Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws, i'w dosbarthu i elusennau a mudiadau cymunedol yn Lloegr i'w galluogi i ateb y gofynion a osodwyd arnynt gan bandemig COVID-19. Roedd rhaid cwblhau'r rhaglen weithgarwch erbyn diwedd mis Medi 2020 gyda'r disgwyliad y bydd y mudiadau derbyn yn gwario'r arian o fewn chwe mis o'i derbyn. Llofnodwyd y cytundeb grant ar 22 Mai 2020 gan DCMS a'r Gronfa.

Yn y cytundeb grant, penderfynwyd y dylai'r Gronfa fod yn atebol am y grant ariannu a'r penderfyniadau dyfarnu sy'n deillio o hynny. Nid oes unrhyw bŵer gwneud penderfyniadau yn DCMS na llywodraeth ehangach a dim pŵer feto.

Felly, cymerodd y Gronfa rôl Penadur yn hytrach nag Asiant. Cofnododd y Gronfa hwn fel incwm derbyn cyfanswm grant y llywodraeth a chyfrifo am y grantiau fel rhan o'i gwariant grant er gwahanwyd hwn yn glir oddi wrth ei gwariant grant Loteri.

Er bod cyfnod gweithredol y rhaglen hon wedi dod i ben, rydym yn parhau i adrodd am ad-daliadau/addasiadau bach cyn cau'r rhaglen yn derfynol.

### Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DCMS | - | - |
| Ad-daliadau | 97 | 862 |
| Diddordeb | 2 | - |
| **Cyfanswm incwm** | **99** | **862** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau | - | (22) |
| Llai gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | (28) | (281) |
| | **(28)** | **(303)** |
| Ad-dalwyd i DCMS | - | 1,281 |
| Costau gweithredu | 1 | 826 |
| **Cyfanswm gwariant** | **(27)** | **1,804** |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm net cynhwysfawr** | **126** | **(942)** |

### Arian wrth gefn

| | | |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2022 | 626 | 1,568 |
| Cyfanswm (gwariant) incwm net cynhwysfawr | 126 | (942) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **752** | **626** |

### Datganiad sefyllfa ariannol

| | | |
|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 490 | 409 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 262 | 217 |
| **Cyfanswm asedau** | **752** | **626** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Symiau taladwy eraill | | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **-** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **752** | **626** |

### Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2023 rydym wedi dileu colledion o £91,921, gan gynrychioli 14 o ddyfarniadau (2021-22: £208,815 gan gynrychioli 30 o ddyfarniadau). Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben £100,000 (2021/22: dim).

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- gwnaed grant yn anfwriadol i fudiad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiectau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant.
- Cymeradwyir taliadau ex gratia.

Yn y flwyddyn ariannol i 31 Mawrth 2023, ni wnaethpwyd unrhyw daliadau arbennig (2021/22: dim).

## 30. Cronfa Local Connections

Yn ystod 2020/21, cytunodd y Gronfa ar y rhaglen hon am gyfnod rhwng 1 Hydref 2020 a 31 Mawrth 2022. Cyfanswm cost y rhaglen yw £4.0m, a bydd DCMS yn cyfrannu £2.0m ohono drwy gytundeb grant. Bydd y £2.0 sy'n weddill yn cael ei gyfrannu gan y Gronfa. Yn y cytundeb grant, penderfynwyd y bydd y Gronfa yn gweithredu fel Penadur yn hytrach nag Asiant.

### Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DCMS | | - |
| Ad-daliadau | - | 8 |
| **Cyfanswm incwm** | **-** | **8** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau | - | - |
| Ad-dalwyd i DCMS | - | 22 |
| Costau gweithredu | - | 89 |
| **Cyfanswm gwariant** | **-** | **111** |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm net cynhwysfawr** | **-** | **(103)** |

### Arian wrth gefn

| | | |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2022 | 3 | 106 |
| Cyfanswm (gwariant) incwm net cynhwysfawr | 0 | (103) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **3** | **3** |

### Datganiad sefyllfa ariannol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 3 | 3 |
| **Cyfanswm asedau** | **3** | **3** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Symiau taladwy eraill | | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **-** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **3** | **3** |

## 31. Cronfa Living Places and Spaces

Yn ystod 2021/22, cytunodd y Gronfa ar y rhaglen newydd hon, a fydd yn para hyd at 31 Mawrth 2022. Cyfanswm cost y rhaglen yw £0.8m y bydd yr Adran Isadeiledd, Gogledd Iwerddon, yn ei darparu drwy gytundeb grant. Yn y cytundeb grant, penderfynwyd y bydd y Gronfa yn gweithredu fel Penadur yn hytrach nag Asiant.

Cytunwyd ar arian ychwanegol o £0.8m ar gyfer y rhaglen hon yn 2022-23, hyd at 31 Mawrth 2023.

### Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy gan DfI | 791 | 791 |
| Ad-daliadau | 9 | - |
| **Cyfanswm incwm** | **800** | **791** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau | 741 | 737 |
| Costau gweithredu | 41 | 41 |
| **Cyfanswm gwariant** | **782** | **778** |
| **Cyfanswm incwm net cynhwysfawr** | **18** | **13** |

### Datganiad sefyllfa ariannol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | |
| Masnach ac arian arall a dderbynnir | 31 | 13 |
| **Cyfanswm asedau** | **31** | **13** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Symiau taladwy eraill | - | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **-** | **-** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **31** | **13** |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2022 | 13 | - |
| Cyfanswm incwm net cynhwysfawr | 18 | 13 |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **31** | **13** |

## 32. Cronfa Caru'n Cynefin

Yn ystod 2021/22, cytunodd y Gronfa ar y rhaglen newydd hon, a fyddai'n para hyd at 31 Rhagfyr 2021 neu'r dyddiad y mae'r ddau barti wedi cyflawni eu hymrwymiadau o dan y cytundeb. Cyfanswm cost y rhaglen yw £0.7m y bydd IKEA yn ei ddarparu drwy gytundeb grant. Yn y cytundeb grant, penderfynwyd y bydd y Gronfa yn gweithredu fel Penadur yn hytrach nag Asiant.

### Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Incwm** | | |
| Tynnu grant yn ôl | 5 | 500 |
| **Cyfanswm incwm** | **5** | **500** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau | - | 500 |
| **Cyfanswm gwariant** | **-** | **500** |
| **Cyfanswm incwm net cynhwysfawr** | **5** | **-** |

### Datganiad sefyllfa ariannol

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Asedau cyfredol** | | |
| Masnach ac arian arall a dderbynnir | 5 | - |
| **Cyfanswm asedau** | **-** | **-** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Symiau taladwy eraill | - | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **-** | **-** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **5** | **-** |



### Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2023 rydym wedi dileu colledion o £5,000, gan gynrychioli 1 dyfarniad (2021-22) dim. Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben £100,000 (2021/22: dim).

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- gwnaed grant yn anfwriadol i fudiad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiectau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant.
- Cymeradwyir taliadau ex gratia.

Yn y flwyddyn ariannol i 31 Mawrth 2023, ni wnaethpwyd unrhyw daliadau arbennig (2021/22: dim).

## 33. Cyfrifon Segur

O dan Ddeddf Asedau Segur 2008 i 2022, gall banciau a chymdeithasau adeiladu drosglwyddo arian o gyfrifon segur i RFL, endid nid er elw sydd ag awdurdod i weithredu fel y gronfa hawlio'n ôl.

Mae RFL yn trosglwyddo arian y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion yr arian cyfrifon segur i'r Gronfa. Mae'r Gronfa'n dosbarthu'r arian hwnnw yn unol â'r Ddeddf a chyfarwyddiadau a gyhoeddir iddi gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn unol â'i wariant yn Lloegr a gan y gweinyddiaethau datganoledig o ran gwariant yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r arian yn cael ei ddosrannu ar draws y DU yn unol ag offeryn statudol a gymeradwyir gan y Senedd.

Didynnir y costau a delir gan y Gronfa a'r Gweinidog mewn perthynas â gweithredu'r cynllun yn gyffredinol cyn eu dyrannu rhwng y gwledydd.

Didynnir y costau a gafwyd gan y Gweinidog a'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â'r gwledydd unigol o'r arian a ddyrennir.

Yn 2018 cyhoeddodd DCMS y byddai £330m ar gael o dan y cynllun dros y 3-4 blynedd nesaf, gyda £277m ohono yn cynrychioli'r gyfran i'w dosbarthu yn Lloegr. Mae cyfarwyddiadau polisi pellach gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dyrannu symiau ychwanegol i'r mudiadau sy'n derbyn yr arian sydd ar gael yn Lloegr.

Mae cyfanswm yr ariannu ers dechrau'r cynllun sydd ar gael i'r Gronfa drwy RFL bellach wedi cyrraedd £891m.

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Asedau Segur newydd 2022 ym mis Chwefror 2022. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi pŵer i ehangu ymhellach gwmpas y cynllun Asedau Segur i dderbyn trosglwyddiadau o asedau segur ychwanegol ac ehangu dibenion cymdeithasol ac amgylcheddol defnyddio'r arian. Bydd y Gronfa'n parhau i weithio'n agos gyda DCMS ac RFL wrth i'r gweithgaredd hwn ddatblygu.

## 33a. Datganiad incwm net cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbyniadwy o Reclaim Fund Ltd | 91,756 | 54,008 |
| Llog banc derbyniadwy | 1,753 | 7 |
| Adennill grantiau | 7 | 31 |
| **Cyfanswm incwm** | **93,516** | **54,046** |
| **Gwariant** | | |
| Gwariant ar grantiau i ddosbarthwyr dynodedig | 65,847 | 352 |
| Gwariant ar grantiau | 20,592 | 13,450 |
| Llai gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | (34) | (24) |
| | **86,405** | **13,778** |
| Costau gweithredu | 615 | 592 |
| **Cyfanswm gwariant** | **87,020** | **14,370** |
| **Gwarged cyn treth** | **6,496** | **39,676** |
| Treth | | - |
| **Cyfanswm incwm net cynhwysfawr** | **6,496** | **39,676** |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2022 | 102,088 | 62,412 |
| Cyfanswm incwm net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 6,496 | 39,676 |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **108,584** | **102,088** |

## 33b. Datganiad sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | As at 31 March 2023 £000 | As at 1 April 2022 £000 |
|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | |
| Masnach ac arian arall a dderbynnir | - | - |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 222,725 | 150,957 |
| **Cyfanswm asedau** | **222,725** | **150,957** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Masnach ac arian arall a delir | (125) | (126) |
| Ymrwymiadau grant i ddosbarthwyr penodol | (90,499)) | (34,099) |
| Darpariaethau trosglwyddadwy i ddosbarthwyr dynodedig | | - |
| Rhwymedigaethau grant | (23,517) | (14,644) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **(114,141)** | **(48,869)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **108,584** | **102,088** |
| **Gwarged argadwedig** | **108,584** | **102,088** |

## 33c. Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl gyda Dyraniad fesul Gwlad

| | | | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Cyfanswm | Cyfanswm |
| **Dadansoddiad yn ôl Segment** | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm | | | | | 93,509 | 54,015 |
| Namyn costau gweithredu | | | | | (615) | (592) |
| **Incwm net ar gael i'w dosbarthu** | | | | | **92,894** | **53,423** |
| Ar gael i bob gwlad | 77,938 | 7,803 | 4,552 | 2,601 | | |
| Adennill grantiau | | 7 | | | 7 | 31 |
| Ymrwymiadau grant i ddosbarthwyr penodol | (65,847) | - | - | - | (65,847) | (352) |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | - | (7,363) | (6,766) | (6,429) | (20,558) | (13,426) |
| **Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn** | **12,091** | **447** | **(2,214)** | **(3,828)** | **6,496** | **39,676** |
| Balans arian a ddygwyd ymlaen | 53,506 | 16,761 | 17,604 | 14,217 | 102,088 | 62,412 |
| **Balans yr arian a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **65,597** | **17,208** | **15,390** | **10,389** | **108,584** | **102,088** |
| **Symud croniadau grant** | | | | | | |
| Ymrwymiadau grant a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2022 | 34,099 | 6,690 | 1,914 | 6,040 | 48,743 | 57,115 |
| Grant ymrwymiadau a wnaed | 65,847 | 7,396 | 6,766 | 6,430 | 86,439 | 13,451 |



| | | | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Cyfanswm | Cyfanswm |
| **Dadansoddiad yn ôl Segment** | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ymrwymiadau wedi'u dirwyn i ben a'u dirymu | - | (34) | - | - | (34) | (24) |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | (9,447) | (5,868) | (1,630) | (4,187) | (21,132) | (21,799) |
| **Croniad a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **90,499** | **8,184** | **7,050** | **8,283** | **114,016** | **48,743** |
| **Croniad a ddygwyd ar 31 Mawrth 2023** | **90,499** | **8,184** | **7,050** | **8,283** | **114,016** | **48,743** |
| **Croniadau grant sy'n heneiddio** | | | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 90,499 | 4,679 | 1,889 | 4,420 | 101,487 | 42,530 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd | | 2,821 | 2,040 | 2,570 | 7,431 | 4,343 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na dwy flynedd ond llai na thair blynedd | | 684 | 1,757 | 1,218 | 3,659 | 1,547 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na tair blynedd | | | 526 | 75 | 601 | 176 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na pedair blynedd ond llai na pum blynedd | | | 410 | | 410 | 141 |

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 Cyfanswm | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad yn ôl Segment** | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd | | | 428 | | 428 | 7 |
| | 90,499 | 8,184 | 7,050 | 8,283 | 114,016 | 48,743 |

### Ased Amodol

O dan Ddeddf Asedau Segur 2008 i 2022, mae banciau a chymdeithasau adeiladu yn gallu pasio arian o gyfrifon segur i RFL, endid nid er elw sydd ag awdurdod i weithredu fel y gronfa hawlio'n ôl. Mae RFL yn trosglwyddo arian y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion yr arian cyfrifon segur i'r Gronfa Loteri Fawr.

Mae RFL yn cyfrifo'r rhwymedigaeth sy'n ddyledus i'r Gronfa ac yn cydnabod hyn fel credydwr, sy'n cyfateb i ddyledwr ac incwm cysylltiedig y mae'r Gronfa'n rhoi cyfrif amdano. Yn ogystal, mae RFL yn nodi swm dros dro o incwm yn y dyfodol y gellir ei drosglwyddo i'r Gronfa. Mae'r Gronfa bellach yn cydnabod hwn fel ased wrth gefn yn unol ag IAS 37: Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol. Mae RFL wedi nodi bod y gwerth hwn yn debygol o fod rhwng £83m-£93m ar gyfer 2022/23.

### Atebolrwydd Amodol

Mae'r Gronfa wedi cydnabod rhwymedigaeth wrth gefn o £5.5m ar 31 Mawrth 2023 (31 Mawrth 2022 £6m) mewn perthynas â rhwymedigaethau posibl i dalu hyd at £500k y flwyddyn i The Oversight Trust - Assets for the Common Good (Big Society Trust yn flaenorol) (OST) am eu costau gweinyddol. Mae'r rhwymedigaeth bosibl hon yn unol â gweithred gytundeb rhwng OST a'r Gronfa a wnaed ar 10 Rhagfyr 2019, sy'n ddilys am 15 mlynedd o'r dyddiad hwnnw. Felly mae'r atebolrwydd amodol wrth gefn a gydnabyddwn am y 11 mlynedd sy'n weddill. Hefyd, rydym yn cydnabod atebolrwydd amodol o £20m sy'n ymwneud â symiau cytundebol (wedi'u llofnodi) sy'n ddyledus i ddosbarthwyr dynodedig.





# Ein cefndir statudol

## Cyfarwyddiadau Polisi

Rhoddir y pŵer i'n hadran noddi a'r gweinyddiaethau datganoledig o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 i roi Cyfarwyddiadau mewn perthynas â materion sydd i'w hystyried wrth ddyfarnu grantiau.

